Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 13eg Hydref, 2020 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Cyfarfod Rhithiol |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Catrin Wager | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 8 A 15 MEDI 2020 | | | 4 - 11 |
| 6 | YSGOL CRICIETH | Cyng. Cemlyn Williams | Garem Jackson | 12 - 163 |
| 7 | COD GWIRFODDOL AR GYFER RHEOLAETH O ARWYDDION AR OSOD YM MANGOR | Cyng. Gareth Griffith | Gareth Jones | 164 - 185 |
| 8 | COVID-19 - PARATOADAU AR GYFER AIL DON | Cyng. Dyfrig Siencyn | Dilwyn Williams | 186 - 190 |
| 9 | CYNLLUN GWEITHLU GWASANAETHAU GOFAL OEDOLION | Cyng. Dafydd Meurig | Meilys Smith | 191 - 197 |
| 10 | TROSOLWG ARBEDION 2020/21: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION | Cyng Ioan Thomas | Ffion Madog Evans | 198 - 212 |
| 11 | CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST | Cyng Ioan Thomas | Ffion Madog Evans | 213 - 238 |
| 12 | RHAGLEN CYFALAF 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST | Cyng. Ioan Thomas | Ffion Madog Evans | 239 - 247 |
| 13 | STRATEGAETH CYLLIDEB 2021-22 | Cyng. Ioan Thomas | Ffion Madog Evans | 248 - 251 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 14 | CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD<br>Bydd y cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithredig fel y'i diffinir ym Mharagraff 12 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972- Gwybodaeth ynglŷn â'g unigolyn penodol<br><br>Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolyn penodol sydd â hawl i breifatrwydd yn ystod trefn benodi. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n gorbwyso hawliau'r unigolion yma ar y pwynt yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig. | | | |
| 15 | PENODI UWCH GRWNER GWEITHREDOL | Cyng. Nia Jeffreys | Iwan Evans | |

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 8 MEDI 2020

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Cemlyn Rees Williams

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Rhun ap Gareth (Dirprwy Bennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor/Meirion) a Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Dyfrig Siencyn, Cyng. Catrin Wager a Iwan Evans (Swyddog Monitro).

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys

### 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu

### 5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4 AWST 2020

Bu i'r Cadeirydd dderbyn gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Awst 2020 fel rhai cywir.

### 6. STRATEGAETH DDIGIDOL YSGOLION GWYNEDD

Cyflwynwyd gan Garem Jackson.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo derbyn grant Llywodraeth Cymru er mwyn buddsoddi mewn cyfarpar i ysgolion Gwynedd a chyfarch y gost ‘cynaladwyedd’ o adnewyddu’r cyfarpar mewn blynyddoedd dilynol, gan ofyn am adroddiad pellach a chyflawn ar fabwysiadu’r Strategaeth derfynol gael ei gyflwyno i’r Cabinet cyn gynted a bo modd.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi siom yr aelod Cabinet nad oedd yn gallu cyflwyno’r eitem yn y cyfarfod blaenorol gan ei fod yn gais i fuddsoddi yn dyfodol plant a pobl ifanc Gwynedd. Amlygwyd fod y cynllun hwn yn cyd-fynd a’r blaenoriaethau sydd i’w gweld yng Nghynllun y Cyngor.

Pwysleisiwyd fod cyfnod y clo diweddar wedi tynnu sylw at pwysigrwydd y defnydd o gyfarpar digidol o fewn y maes addysg ynghyd ac amlygu annhegwch o ran cyfarpar digidol disgyblion. Mynegwyd fod y cynllun hwn yn un arloesol sydd yn rhoi cyfle i roi y ddarpariaeth ‘orau i holl ddisgyblion Gwynedd.

Ychwanegodd y Pennaeth Addysg yn ystod y cyfnod clo fod ysgolion wedi goresgyn llawer o broblemau ac ei fod wedi amlygu’r angen am strategaeth ddigidol. Nodwyd fod y cyfnod clo wedi dangos y ffordd ymlaen ac ei fod yn strategaeth hir dymor yn rhoi cefnogaeth i blant a pobl ifanc.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth

- Nodwyd fod y cynllun yn un arloesol sydd yn amlygu pwysigrwydd cydraddoldeb i blant sydd heb gyfarpar cyfrifiadurol adref ac sydd wedi gofod defnyddio ffonau symudol neu hen gyfarpar yn ystod y cyfnod clo. Mynegwyd fod hwn yn gais arbennig ymlaen i addysg Gwynedd ac yn falch fod modd gallu buddsoddi i roi arfau effeithiol i athrawon gael cefnogi’r disgyblion.
- Holwyd os oes asesiad cydraddoldeb wedi ei wneud ar gyfer yr adroddiad er mwyn sicrhau fod plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau gweld er enghraifft yn cael y cyfarpar maent eu hangen. Nodwyd nad oedd asesiad wedi ei wneud gyda’r adroddiad hwn gan nad oedem yn mabwysiadu’r strategaeth heddiw ond yn hytrach yn caniatáu i ni osod archeb ond y bydd un cael ei wneud pan fydd y strategaeth yn cael ei chyflwyno ar gyfer ei mabwysiadu’n derfynol. Pwysleisiwyd y bydd ymgynghoriadau yn cael ei wneud gyda’r ysgolion i sicrhau fod y cyfarpar yn diwallu anghenion pob plentyn.
- Nodwyd fod y buddsoddiad yn un aruthrol a bod angen sicrhau cynaladwyedd i’r cynllun. Amlygwyd angen am ymrwymiad ariannol gan ysgolion.
- Dangoswyd cefnogaeth i’r cynllun a'i fod yn gam yn y frwydr yn erbyn tlodi digidol sydd i’w gweld ar draws y sir.
- Mynegwyd fod y chwe mis diwethaf wedi bod yn anodd ond nodwyd ei bod yn dda gweld rhywbeth positif a rhoi cyfle i blant y sir.
- Nodwyd fod angen i’r penderfyniad angen gweithredu yn syth i sicrhau ei fod yn cadw at amserlen.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.10 y.h. a daeth i ben am 1.40 y.h.

**CADEIRYDD**

# Y CABINET DYDD MAWRTH, 15 MEDI 2020

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Rees Williams a Dewi Wyn Roberts

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 5: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg) a Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Dwyfor / Meirionnydd).
Eitem 6: Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) a Bethan Richardson (Swyddog Cefnogi Busnes).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu

## 5. YSGOL ABERSOCH

Cyflwynwyd gan Cyng. Cemlyn Williams

**PENDERFYNIAD**

Rhoddwyd caniatâd i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 ymlaen.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan bwysleisio nad oedd dim pleser o ddod ac adroddiad o'r fath i'r Cabinet i'w thrafod. Nodwyd fod dyletswydd y Cabinet i sicrhau addysg a phrofiadau da i holl blant Gwynedd yn wraidd i'r adroddiad hwn.

Amlygwyd fod y Cabinet ym Medi 2019 wedi penderfynu cychwyn trafodaeth ar Llywodraethwyr a rhan ddeiliad yr ysgol i ystyried gwahanol opsiynau yn dilyn lleihad mewn nifer y plant yn yr ysgol. Diolchwyd iddynt am eu cyfraniad i'r drafodaeth. Tynnwyd sylw at Egwyddorion Addysg i Bwrpas a dderbyniwyd gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2018 gan amlygu'r ddwy egwyddor sydd yn cyd-fynd  a'r adroddiad. Pwysleisiwyd fod yr adroddiad yn gynhwysfawr ac y bydd yr adran yn parhau i dderbyn sylwadau pellach yn ystod y cyfnod statudol.

Ychwanegodd y Swyddog Addysg Ardal Meirionnydd / Dwyfor fod y drafodaeth sydd wedi ei gynnal ar hyn o bryd wedi bod yn edrych ar opsiynau posib er mwyn sicrhau darpariaeth hyfiw i'r dyfodol.  Pwysleisiwyd fod gwaith cael ei wneud gan y rhan ddeiliad i sefydlu cylch meithrin ac i ymestyn i ofal plant yn sgil y drafodaeth sydd wedi ei gynnal. Amlygwyd yr opsiynau sydd wedi ei thrafod ar ran ddeiliad gan nodi fod gwaith wedi ei wneud i'w gwyntyllu. Nodwyd mai'r opsiwn sydd yn cael ei ffafrio gan Swyddogion yw cau'r ysgol a symud y plant i Ysgol Sarn Bach. Os yn caniatáu'r penderfyniad heddiw, nodwyd y bydd yr ymgynghoriad statudol yn cychwyn o fewn yr wythnosau nesaf. Amlygwyd fod oediad wedi bod yn y broses ac  o ganlyniad bydd yr adran yn ail wneud rhai o'r asesiadau effaith.

Diolchodd yr Aelod Lleol am y cyfle i gael ymuno a'r cyfarfod heddiw i gyfrannu at y drafodaeth sydd mor bwysig i'w ward. Diolchwyd yn ogystal i'r adran am oedi yn y broses o ganlyniad i amgylchiadau personol y Pennaeth. Amlygwyd fod y Llywodraethwyr wedi cylchredeg gwybodaeth i'r Aelodau Cabinet a nododd yr Aelod Lleol ei fod wedi derbyn nifer o lythyrau cefnogol i'r Ysgol o bob rhan o'r sir. Mynegodd fod y niferoedd disgyblion wedi lleihau mewn cyfnod byr o amser ac yn annisgwyl a bod yr adran Addysg wedi symud i drafod yr ysgol yn sydyn iawn wedi i'r niferoedd leihau. Ers y drafodaeth gyntaf nodwyd fod y niferoedd wedi dechrau codi a phwysleisiwyd gwaith da'r staff sydd bellach wedi sefydlu sesiynau Ti a Fi ac Ysgol Feithrin ar safle'r ysgol.

Dangosodd yr Aelod Lleol ei gefnogaeth i newid oedran yr ysgol i fod rhwng 3-9 oed gan na fydd hyn yn rhoi dim effaith ar Ysgol Sarn Bach. Tynnwyd sylw ar y nifer capasiti oedd i'w weld yn yr adroddiad gan nadi nad oedd y rhif hwn yn berthnasol gan nad oedd yr ysgol erioed wedi cael 42 o blant. Nododd yn y sefyllfa sydd ohoni y bydd yn anodd iawn i gynnal ymgynghoriad teg a chall o ganlyniad i Covid-19 ac nad oedd yn deg i barhau a'r gwaith o ymgynghori yn ystod y cyfnod hwn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Pwysleisiwyd fod y penderfyniad heddiw ar gyfer mynd i ymgynghoriad statudol i edrych ar gau'r ysgol ac nid yn benderfyniad i gau'r ysgol.
- Nodwyd pwysigrwydd cael sylwadau aelod lleol a llywodraethwyr a holwyd sut y bydd modd sicrhau trafodaeth deg yn ystod y cyfnod covid-19.

Nododd yr adran Addysg fod y cod trefniadaeth yn glir a ddim yn diffinio yn bendant sut i gynnal ymgynghoriaeth. Ychwanegwyd fod yr adran yn fodlon cynnal cyfarfod torfol a bydd rhain yn cael eu cynnig yn rhithiol. Nodwyd fod angen i sylwadau fod yn cael cyflwyno yn ysgrifenedig ac y bydd cyfarfodydd yn rhoi cyfle i ran ddeiliaid, rhieni, lywodraethwyr a staff i ofyn cwestiynau. Mynegwyd yn ogystal fod yr adran Addysg yn fodlon hwyluso'r trafodaethau lleol cyn y cyfarfodydd gyda'r adran os yr angen yn codi.

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2019/20

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2019/20 ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn amlygu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn 2019/20. Mynegwyd fod yr adroddiad yn glir ac yn ddarllenadwy ac yn amlygu llwyddiannau'r Cyngor yn ystod y cyfnod. Bu i'r Aelodau Cabinet nodi'r llwyddiannau yn eu meysydd a phwysleisiwyd fod yr adroddiad wedi ei ysgrifennu am y cyfnod cyn Covid-19.

Nododd yr Aelod Cabinet dros Oedolion fod yr adroddiad yn amlygu sut y bu i'r adran ymateb i'r argyfwng. Ychwanegwyd fod yr adran wedi ymateb yn gyflym ac yn gadarnhaol a mynegwyd balchder fod gweithwyr gofal bellach yn cael ei gweld fel gweithwyr allweddol. Nodwyd fod yr adroddiad yn amlygu llwyddiannau'r adran a beth mae'r sefyllfa Covid-19 wedi gorfodi'r adran i wneud.

Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd fod yr adroddiad yn rhoi braslun teg a chywir o waith yr adran dros y flwyddyn. Nodwyd mai dim ond yn y paragraff olaf mae cyfeiriad at Covid-19. Ychwanegwyd fod yr adran wedi ail ymweld â materion gweithredol a diolchwyd i staff am eu gwaith caled.

Nododd yr Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned fod effaith Covid-19 ar yr economi yn syfrdanol. Pwysleisiwyd fod perfformiad yr adran cyn cyfnod Covid yn dda iawn a'u bod yn cynorthwyo busnesau gyda Brexit. Mynegwyd fod niferoedd swyddi gwerth uchel wedi lleihau yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Amlygwyd gwaith Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau.

Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Bwrdeistrefol ei bod yn od iawn i edrych yn ôl ar lwyddiannau'r adran. Tynnwyd sylw at y ffaith fod yr adran wedi cyrraedd y targed ailgylchu o 64.7%. Nodwyd fod y prosiect golau stryd yn parhau a hyd yma wedi arbed dros £185,000 ynghyd ar ardrawiad amgylcheddol positif o newid y goleuadau. Pwysleisiwyd yr heriau fydd yn wynebu'r adran sydd yn cynnwys gweithrediadau llifogydd ac yr angen i ymateb i i'r argyfwng

hinsawdd.

Tynnodd yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd sylw at anfodlonrwydd y cyhoedd ar y modd i gysylltu â'r adran Gynllunio a bod y gwasanaeth yn edrych ar hyn. Nodwyd o'r holl gynlluniau'r sir nodwyd fod 38% ohonynt yn rhai ceisiadau am dai fforddiadwy. Mynegwyd fod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn parhau i gyfarfod a bod y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn parhau i fod yn brysur. Amlygwyd y gwaith mae'r adran wedi bod yn ei wneud gyda Phrofi Olrhain Diogelu.

Yn yr adran Gyllideb nodwyd fod yr adroddiad yn amlygu fod y gyllideb wedi lleihau ers 2015 ond ei bod dan reolaeth gadarn. Mynegwyd o'r cynlluniau arbedion fod 16 yn llithro a bod hyn yn codi pryderon i'r dyfodol. Pwysleisiwyd fod lefel trethu wedi gwella a bod yr adran wedi cynorthwyo 1700 o bobl o'r gronfa tai dewisol. O ran cefnogaeth Technoleg Gwybodaeth nodwyd fod y nifer sydd yn gweithio o dra wedi cynyddo 138 i 1292 a bod y gwasanaeth yn barod i newidiadau. Diolchwyd i'r staff am eu gwaith caled.

Nododd yr Aelod Cabinet dros Dai fod yr adran bron a gorffen ail strwythuro'r adran ac y bydd cynllun ailstrwythuro tai am gael ei gyflwyno i'r Cabinet yn fuan. Nodwyd fod Polisi Gosod Tai yn ei le sydd yn blaenoriaethu tai i bobl leol yn hytrach nac y drefn flaenorol. Nodwyd fod angen amlygu tlodi tanwydd i sicrhau nad yw pobl mewn tai bach, gwlyb ac oer.

Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol fod nifer y damweiniau sydd wedi ei adrodd i Iechyd a Diogelwch wedi lleihau o 59 i 51 gan nodi un o'r prif resymau dros hyn wy'r cynnydd sylweddol sydd wedi bod mewn anafiadau symud a thin ac mae hyn wedi bod yn destun hyfforddiant pellach o fewn un Gwasanaeth yn benodol. Amlygwyd fod 17 o brentisiaethau wedi eu penodi yn ystod y flwyddyn ac y bydd mwy yn cael ei recriwtio yn ystod y flwyddyn nesaf.

O ran yr adran addysg nodwyd fod yr adroddiad yn adlewyrchu'r gwaith yn yr adran a'i bod yn braf gweld cynlluniau yn cael ei gwireddu. Ychwanegwyd ei bod wedi bod yn her i'r adran i ymateb i Covid-19 ond fod yr adran wedi symud ymlaen yn dda.

## 7. ADRODDIAD COVID-19 - ADFER

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dilwyn Williams

**PENDERFYNIAD**

Derbyn y diweddariad ar y gwaith sy'n mynd ymlaen i sefydlogi ac ail adeiladu yn sgil yr argyfwng Covid-19 a chytunwyd i ofyn i'r Byrddau neu adrannau perthnasol roddi sylw i'r materion pellach oedd wedi codi yn y gweithdy diweddar ar y mater.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai diweddariad yw hwn am yr hyn sydd wedi digwydd yn sgil comisiwn y Cabinet i'r byrddau ystyried beth sydd angen ei wneud wrth symud o ymateb i'r sefyllfa i sefyllfa fwy sefydlog. Nodwyd y meysydd sydd wedi eu hamlygu gan y byrddau fe rhai sydd angen sylw.

Ategwyd fod gweithdy wedi ei gynnal gyda'r aelodau Cabinet a Phenaethiaid Adran er mwyn trafod meysydd y bydd angen sylw sydd ddim o bosib yn disgyn i mewn i faes llafur y byrddau. Amlinellwyd y meysydd ychwanegol a nodwyd fel yr isod:

- Diweithdra
- Cynaliadwyedd Trafnidiaeth Gyhoeddus
- Iechyd Meddwl a Lles ehangach
- Argaeledd tai i bobl leol
- Gwydnwch Cymunedol a chynnal yr ymdeimlad o wirfoddoli
- Perthynas waith gyda chyrff eraill
- Iechyd Cyhoeddus
- Cynaliadwyedd y sector gofal
- Cynaliadwyedd adnoddau cymunedol i'r sector ddiwylliannol
- Yr Iaith mewn Cyfarfodydd rhithio
- Cadwyn cyflenwad bwyd

Nodwyd y bydd gofyn i'r Byrddau neu adrannau perthnasol roi sylw i'r materion pellach sydd wedi codi ac adrodd yn ôl ar y gwaith o sefydlogi ac ail adeiladu i'r Cabinet.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd pwysigrwydd fod diweithdra yn cael ei ychwanegu fel maes i'w drafod gan nad yw'r don wedi taro yma eto.
- Holwyd ble y bydd yr eitemau ychwanegol yn cael eu trafod. Os nad yw'r materion yn dod o dan faes llafur y byrddau bydd y Prif Weithredwr yn mynd at yr adran benodol i ystyried beth fydd angen ei wneud.
- Diolchwyd am yr arweiniad a'r gwaith yn edrych ar y meysydd yma.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.00 y.h.

**CADEIRYDD**

ADRODDIAD I'R CABINET

Dyddiad y cyfarfod: 13 Hydref 2020

Aelod Cabinet: Cynghorydd Cemlyn Rees Williams

Swyddog Cyswllt: Gwern ap Rhisiart – Swyddog Addysg Ardal Dwyfor Meirionnydd

Teitl yr eitem: Ysgol newydd yng Nghricieth

---

Y PENDERFYNIAD A GEISIR:

Ceisir caniatâd Cabinet y Cyngor i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 ac adleoli yr ysgol i safle amgen, cyfeirir ato fel safle A497, ar 1 Medi 2023**,** gan adrodd yn ôl i Gabinet yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad.

1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn eu cyfarfod ar 2 Ebrill 2019, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau lleol er mwyn adnabod opsiynau ar gyfer adeiladu ysgol gynradd newydd yng Nghricieth, fel canlyniad i gyflwr gwael adeiladau presennol Ysgol Treferthyr, ac i gynnwys Ysgol Llanystumdwy yn y trafodaethau cychwynnol.

1.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd yn ôl ar ganlyniad y trafodaethau hyn, a cheisio caniatâd i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 ac adleoli yr ysgol i safle amgen, cyfeirir ato fel safle A497, ar 1 Medi 2023.

1.3 Yn Ebrill 2009 mabwysiadwyd strategaeth **"Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd"** gan y Cyngor gyda'r nod o osod gweledigaeth, amcanion ac egwyddorion clir ar gyfer yr ystyriaethau perthnasol i drefniadaeth ysgolion y Sir. Nodwyd yn y Strategaeth fod angen sicrhau modd o fedru rhoi sylw i sefyllfaoedd rhai ysgolion sydd yn fregus:

*"Dylid ystyried gwybodaeth broffesiynol berthnasol er mwyn tynnu sylw at sefyllfaoedd argyfyngus o fewn y Sir sy'n amharu yn uniongyrchol ar ansawdd addysg a phrofiadau disgyblion (e.e. niferoedd bychan iawn mewn ysgol, cyflwr adeiladau'r ysgol yn hynod ddrwg, methu recriwtio pennaeth)".*

1.4 Yn 2011, bu gwariant o gwmpas £500,000 er mwyn ceisio ymestyn oes adeiladau Ysgol Treferthyr am gyfnod oddeutu 5 mlynedd. Bellach, mae arolygon yn dangos fod effaith y gwaith dros dro yma yn dirwyn i ben.

1.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn ail wedd **Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif** (Band B) i redeg rhwng Ebrill 2019 – Mawrth 2026. Cyflwynodd Cyngor Gwynedd '*Cais Strategol Amlinellol*' oedd yn cynnwys 5 prosiect ar gyfer y wedd yma o'r rhaglen. Adnabuwyd yr angen i wella darpariaeth gynradd yng Nghricieth fel rhan o'r cais hwn ar y sail fod cyflwr adeiladau Ysgol Treferthyr (sef Categori C-) yn golygu fod nifer o ddiffygion yng nghyflwr yr adeiladau a'i bod yn aneconomaidd parhau i geisio cynnal yr adeiladau i'r dyfodol.

2. SEFYLLFA BRESENNOL YSGOL TREFERTHYR

2.1 Mae Ysgol Treferthyr wedi'i lleoli yng nghanol tref Cricieth. Mae gan yr ysgol capasiti o 119, gyda 114 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed ar y gofrestr yn Medi 2019 a cheir pum dosbarth oed cymysg yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion (105) yn dod o dalgylch Ysgol Treferthyr, gyda 9 disgybl ychwanegol yn dod o ddalgylchoedd eraill cyfagos.

2.2 Cafwyd arolwg Estyn yn 2018, gyda'r 5 maes arolygu craidd wedi ei asesu yn "Da".

2.3 Mae Ysgol Treferthyr wedi derbyn dyraniad cyllidol o £442,762 am y flwyddyn 2020-21 sy'n golygu fod cyfartaledd y gost fesul disgybl yn £4,215. Cyfartaledd cost y pen holl ysgolion cynradd Gwynedd am yr un cyfnod ydi £4,198.

2.4 **Cyflwr**

Yn dilyn arolygon cyflwr, mae Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor o'r farn fod yr ysgol bellach tu hwnt i'r sefyllfa ble ellir ei gynnal a chadw. Mae'r arolygon cyflwr yn ymwneud ag adeiladau Ysgol Treferthyr wedi adnabod sawl mater sy'n golygu fod nifer o ddiffygion sylweddol i'r adeiladwaith. Mae rhannau o'r adeiladau o wneuthuriad coed ac o ansawdd gwael. Adeiladwyd rhan sylweddol o'r ysgol gan ddefnyddio adeiladwaith o'r fath Vic Hallam yn y 1970au, oedd i fod ag oes o thua 25 mlynedd a sydd erbyn hyn mewn cyflwr gwael. O beidio â chynllunio nawr ar gyfer datrysiad tymor hir mae risg uchel o orfod delio gyda sefyllfa brys o fewn y blyneddoedd nesaf.

2.5 **Addasrwydd**

Mae arolwg addasrwydd diweddar wedi nodi fod yr ysgol bresennol yn wael iawn a bod yr adeiladau yn amharu'n sylweddol ar allu'r staff i ddarparu'r cwricwlwm. Nid yw'r adeilad gwreiddiol na'r estyniad aml-lawr / caban yn gymorth i staff yr ysgol cynnig addysg i'r safon ddisgwylieidig.

Nododd yr arolwg nifer sylweddol o ddiffygion addasrwydd gan gynnwys:

- Sŵn yn creu problem mewn rhai ystafelloedd
- Problemau gyda rheoli tymheredd
- Anhawsterau i addysgu o ganlyniad i gynllun ystafelloedd
- Cyfyngiadau i gynnal rhai gweithgareddau
- Lleoliad yn amharu ar addysgu a dysgu e.e. trolis cinio yn gorfod mynd drwy dosbarthiadau
- Dim mynediad i ofod allanol o'r dosbarthiadau
- Angen gwaith sylweddol ar nifer o agweddau i wella amgylchedd allanol yr ysgol
- Problemau parcio a thraffig

**3. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

3.1 **Newid Capasiti**

3.1.1 Mae Deddf 2013 yn dynodi mathau penodol o newidiadau i ysgolion yn *'newidiadau a reoleiddir'*. Fel canlyniad mae'n rhaid dilyn proses statudol sydd wedi ei gosod yn y Ddeddf mewn perthynas â'r rhain ac hefyd gydymffurfio gyda gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Mae'r cynnig arfaethedig yma yn dod o fewn un o'r categoriau o 'newidiadau a reoleiddir' sef '*ehangu safle ysgol a fyddai'n cynyddu capasiti ysgol gan o leiaf 25%*'.

3.1.2 Wrth gydnabod gwersi o brosiectau blaenorol mae'r Cyngor o'r farn fod rhaid i gynlluniau adeiladu ysgolion fod ar sail yr holl blant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol bresennol yn hytrach na'r niferoedd sy'n mynychu'r ysgol ar y pryd.

3.1.3 Fel y gwelir o **Tabl 1** isod, ar sail ffigyrau Medi 2019, mi fydda potensial i niferoedd Ysgol Treferthyr fod yn 137 h.y 114 yn yr ysgol a 23 yn mynychu ysgolion eraill. Oherwydd hyn mae'n fwriad i adeiladu yr ysgol newydd i gynnwys 5 dosbarth ar gyfer plant oed derbyn i blwyddyn 6 a dosbarth meithrin. Golygai hyn fydd capasiti'r ysgol yn cynyddu i 150.

Tabl 1 – Niferoedd disgyblion Ysgol Treferthyr a'r 3 ysgol arall cyfagos a'i dalgylch cartref (Medi 2019)

**3. Niferoedd yn Ysgolion Cynradd yn Ôl Dalgylch Ysgolion /**
***Primary School Pupil Numbers by School Catchment Area***

**2019**

| Ysgol / School | Ysgol School | Dalgylch Cartref Home Catchment: Treferthyr | Llanystumdwy | Garndolben-maen | Y Gorlan | Ysgolion eraill Other schools | Cyfanswm (M-Bl6) Total (N – Yr6) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Treferthyr | 105 | 4 | 2 | 0 | 3 | 114 |
| | Llanystumdwy | 6 | 11 | 0 | 0 | 4 | 21 |
| | Garndolbenmaen | 3 | 0 | 35 | 0 | 7 | 45 |
| | Y Gorlan | 8 | 2 | 3 | 64 | 43 | 120 |
| | Ysgolion eraill / Other schools | 6 | 3 | 3 | 25 | | |
| | **Cyfanswm (M-Bl6) Total (N – Yr6)** | 128 | 20 | 43 | 89 | | |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Medi 2019
*Source: September 2019 School Census*

*Efallai na fydd data a gymerir o SIMS ysgol ar ddiwrnod y cyfrifiad yn cyfateb yn union â'r ffurflen cyfrifiad ysgolion
*Data taken from school SIMS on census day may not exactly match the schools census return

3.1.4 Gan fod capasiti presenol yr ysgol yn 119 mae'n golygu bydd cynydd o 26% i'r capasiti ac felly angen dilyn trefn statudol.

3.2 Trafodaethau lleol

Yn dilyn cyfarfod Cabinet ar 2 Ebrill 2019 aethpwyd ati i gychwyn trafodaethau gyda Ysgol Treferthyr a Llanystumdwy. Yn dilyn y cyfarfod cyntaf o'r Panel, a dilyn cyfarfod pellach gyda chynrychiolaeth o Ysgol Llanystumdwy a'r Eglwys yng Nghymru, bu i'r ysgol gynnal cyfarfod arbennig o'r Corff Llywodraethol ar 16 Medi 2019 i drafod mater o'r cyfarfodydd a daeth cadarnhad drwy glerc y Corff Llywodraethol nad oedd Ysgol Llanystumdwy am fod yn rhan o unrhyw drafodaethau pellach.

3.3 Ystyried opsiynau

Yn dilyn penderfyniad Ysgol Llanystumdwy, cynhaliwyd gweddill cyfarfodydd o'r PAL gyda chynrychiolaeth Ysgol Treferthyr yn unig ble roedd ffocws y cyfarfodydd ar leoliad yr ysgol newydd. Gellir weld yr holl safleoedd ystyriwyd a threfn y cyfarfodydd yn Atodiad A.

3.3.1 Wrth ystyried y rhestr hir o opsiynau safleoedd rhoddwyd sylw i'r gofynion canlynol:
- Maint safle
- Ystyriaethau cynllunio
- Ystyriaethau mynediad a traffig
- Ystyriaethau technegol
- Effaith ar gostau datblygu

3.3.2 Yn dilyn trafod yr holl safleoedd dros nifer o gyfarfodydd roedd cytundeb yn ngyfarfod y PAL ar 24 Mehefin 2020 i gymeradwyo Safle A497 fel y safle ffafredig ar gyfer lleoli ysgol newydd yng Nghricieth. Gellir weld manylion y cyfarfodydd yn Atodiad A.

4 YR OPSIWN A FFAFRIR

Lleolir safle A497 i'r gorllewin o'r dref i gyfeiriad Pwllheli. Mi fydd yr ysgol yn cael ei adeiladu ar gyfer 150 o blant o oed derbyn i blwyddyn 6 gyda dosbarth meithrin. Mi fydd yr ysgol hefyd yn cynnig lle ar gyfer defnydd blynyddoedd cynnar. Mi fydd y safle hefyd yn gartref newydd i Uned ABC ac anhwylder iaith fydd yn symud o'i leoliad presennol ar safle Ysgol Cymerau yn Mhwllheli.

## 4.2 Adnoddau Ariannol

### 4.1.1 Cyfalaf

Roedd y cais gwreiddiol i Llywodraeth Cymru yn gofyn am gyfraniad tuag at swm cyfalaf o £4.97m o gronfa Ysgolion 21ain Ganrif ar gyfer y prosiect hwn, gyda £3.23m yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd yn cyfrannu £1.74m. Gan y bydd cost prynu'r tir angenrheidiol ychydig yn uwch na'r hyn oedd yn y gyllideb wreiddiol a bydd cost adeiladu yn uwch oherwydd yr angen am ofod ychwanegol ar gyfer yr Uned ABC ac anhwylder iaith, bydd angen cynyddu cyllideb y prosiect. Rhagwelir bydd y gyllideb newydd tua £5.4m gyda chyfraniad Llywodraeth Cymru i'r prosiect yn cynyddu i £3.51m a chyfraniad y Cyngor i £1.89m. I alluogi hyn, rhoddir ystyriaeth i'r angen i addasu'r gyllideb a dyraniad y cynlluniau yn Rhaglen Band B i gyfarch y newid. Bydd cyfraniad Cyngor Gwynedd wedi ei ariannu o dan Gynllun Asedau Cyngor Gwynedd 2019-2029.

### 4.1.2 Refeniw

Mae Ysgol Treferthyr wedi derbyn dyraniad cyllidol o £442,762 am y flwyddyn 2020-21 sy'n golygu fod cyfartaledd y gost fesul disgybl yn £4,215. Cyfartaledd cost y pen holl ysgolion cynradd Gwynedd am yr un cyfnod ydi £4,198.

Bydd yr adeilad newydd yn arwain at newid i elfennau 'adeiladau' o fewn y fformiwla cyllido.

## 4.2 Arweinyddiaeth a Staffio

Gan mae adleoli Ysgol Treferthyr i safle newydd ydi'r bwriad ni fydd unrhyw newid i arweinyddiaeth na staffio.

## 4.3 Amgylchedd dysgu

Mi fydd yr ysgol newydd yng Nghricieth yn cymryd lle ysgol sydd mewn cyflwr gwael iawn a phroblemau addasrwydd. Golygai hyn y bydd plant dalgylch Treferthyr yn mwynhau gallu cael eu haddysgu mewn amgylchedd ddysgu modern unwaith fydd yr ysgol newydd wedi ei chwblhau.

## 4.4 Ffactorau daearyddol a chludiant

Gan mae adleoli Ysgol Treferthyr i safle newydd ydi'r bwriad ni fydd unrhyw newid i'r ffordd mae plant yn cyrraedd yr ysgol ar hyn o bryd, oni bai fod unrhyw blentyn ychwanegol angen cludiant dan Bolisi Cludiant Ysgolion Gwynedd.

Mi fydd y plant sydd yn byw o fewn cyrraedd cerdded neu beicio i'r ysgol yn cael eu annog i wneud hyn.

# 5 ASESIADAU EFFAITH Y NEWID

## 5.1 Asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd asesiad effaith y bydda adleoli'r ysgol i safle newydd yn ei gael ar yr Iaith Gymraeg. Gweler yr adroddiad llawn yn **Atodiad B.**

Nodir yr asesiad na fydda adleoli Ysgol Treferthyr i safle newydd yng Nghricieth yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. I'r gwrthwyneb, rhagwelir bydda mwy o gyfleoedd i blant Cricieth ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u cyfoedion yn allgyrsiol ac yn gymdeithasol gan fydd yr ysgol newydd yn golygu gwell adnoddau ar gyfer cynnal mwy o weithgareddau tu allan i oriau ysgol.

## 5.2 Asesiad Cydraddoldeb

Cwblhawyd asesiad cydraddoldeb ar adleoli'r ysgol i safle newydd. Gweler yr adroddiad llawn yn **Atodiad B.**

Deuir i gasgliad na fyddai adleoli Ysgol Treferthyr i safle arall yn effeithio ar gydraddoldeb, boed yn nodweddion neu ddyletswydd gyffredinol.

Rhagwelir fydd adeiladu ysgol newydd yn cryfhau agweddau cydraddoldeb oherwydd y bydd yn mwy addas ar gyfer addysgu pob plentyn, yn enwedig y rhai ac anableddau, drwy ddilyn canllawiau adeiladu ysgolion modern.

Gweithredir Ysgol Treferthyr bolisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio gadarn fyddai'n parhau i gael eu gweithredu yn yr ysgol newydd.

5.3 Asesiad Llesiant

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant ymysg disgyblion ysgolion y sir drwy ei weithgareddau a prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r dyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn 'Cynllun Gwynedd 2018-23'.

Cwblhawyd asesiad llesiant ar adleoli'r ysgol i safle newydd. Gweler yr adroddiad llawn yn **Atodiad B.**

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i gasgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i, a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol.

5.4 Asesiad effaith ar y gymuned

Cwblhawyd asesiad effaith ar y gymuned ar adleoli'r ysgol i safle newydd. Gweler yr adroddiad llawn yn **Atodiad B.**

Ni ragwelir unrhyw effaith negyddol ar y gymuned o ail-leoli Ysgol Treferthyr i'r safle newydd. Byddai'r ysgol newydd yn parhau yng nghymuned y dref ac yn gallu cynnig cyfleusterau a fyddai o fudd i'r dysgwyr a'r gymuned ehangach.

Bydd ystafelloedd modern yr ysgol newydd yn cynnig ei hun ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol. Wrth sefydlu'r ysgol newydd bwriedir hyrwyddo defnydd cymunedol i'r gymuned yn ehangach, er mwyn gwneud defnydd llawn o'r ddarpariaeth newydd a'r adnoddau modern.

Mi fyddai adeiladu'r ysgol newydd ar safle A497 yn sicrhau mwy o le ar gyfer y dysgwyr gan gynnig mwy o opsiynau ar gyfer clybiau a gweithgareddau all-gyrsiol.

6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Yn ddarostyngedig ar benderfyniad y Cabinet, mi fydd cyfnod o ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal , yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 ac adleoli yr ysgol i safle amgen, cyfeirir ato fel safle A497, ar 1 Medi 2023.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori o 42 diwrnod mi fyddwn yn paratoi adroddiad yn nodi unrhyw sylwadau dderbynir ac ymatebion iddynt, gan adrodd yn ôl i Cabinet. Bydd yn ofynnol i'r Cabinet wedyn benderfynu a ddylid gyhoeddi Rhybudd Statudol ai peidio. Pe bydda Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi, caniateir 28 diwrnod i unrhyw rai gyflwyno gwrthwynebiad i'r cynnig. Yn dilyn hyn bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn nodi unrhyw wrthwynebiad ac ymatebion iddynt. Mi fydd y Cabinet yna'n gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig.

Mi fyddwn hefyd yn paratoi achos fusnes, yn unol â chanllawiau *Pum Cam y Trysorlys*, i'w gyflwyni i paneli asesu ceisiadau am arian cyfalaf Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau eu cyfraniad cyllidol i ddatblygu'r ysgol newydd.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Gan fod y cynnig arfaethedig yn newid a reoleiddir o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, bydd y drefn yr argymhellir ei chychwyn yn un statudol ac yn dilyn gofynion y Ddeddf a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Pennaeth Cyllid:

Pwrpas yr adroddiad gerbron yw sicrhau penderfyniad y Cabinet i gynnal cyfnod ymgynghori statudol er mwyn cynyddu capasiti ac adleoli Ysgol Treferthyr, Cricieth erbyn Medi 2023, ac rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir.

Cadarnhaf gywirdeb y wybodaeth ariannol sy'n ymddangos yn rhan 2.3, 4.1.1 a 4.1.2 o'r adroddiad, gan gynnwys cyfraniad 65% gan Lywodraeth Cymru at amcangyfrif cost cyfalaf y prosiect, yn ddibynnol ar gyflwyno achos busnes llwyddiannus.

**Barn yr Aelodau Lleol:**
Mae Cricieth wir angen ysgol gynradd newydd ac yn dilyn bod yn rhan o'r trafodaethau, cytunaf fod y safle ffafredig yn ddewis da iawn ar gyfer ei leoli.

---

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| Atodiad A | Cyflwyniadau a chofnodion cyfarfodydd Panel Adolygu Lleol |
| Atodiad B | Asesiadau Ardrawiad Ieithyddol, Cymunedol, Cydraddoldeb a Llesiant |

# Atodiad A

# Pecyn Cefndirol

# Background Pack

## Ysgol newydd i Gricieth | New school for Cricieth


| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod Panel Adolygu Lleol 1 – 13 Mehefin 2019** | | **Local Review Panel Meeting 1 – 13 June 2019** |
| Agenda | 1 | Agenda |
| Cyflwyniad | 2 | Presentation |
| Cofnodion y Cyfarfod - Cymraeg | 29 | Meeting Minutes - Welsh |
| Cofnodion y Cyfarfod – Saesneg | 32 | Meeting Minutes - English |
| **Cyfarfod Panel Adolygu Lleol 2 – 9 Hydref 2019** | | **Local Review Panel Meeting 2 – 9 October 2019** |
| Agenda | 35 | Agenda |
| Map Safleoedd | 36 | Sites Map |
| Asesiad rhestr hir safleoedd - Cymraeg | 37 | Sites' longlist assessment -Welsh |
| Asesiad rhestr hir safleoedd - Saesneg | 45 | Sites' longlist assessment - English |
| Cynlluniau o'r ysgol ar y safleoedd | 52 | Plans of the school on the sites |
| Cofnodion y Cyfarfod - Cymraeg | 56 | Meeting Minutes - Welsh |
| Cofnodion y Cyfarfod – Saesneg | 58 | Meeting Minutes - English |
| **Cyfarfod Panel Adolygu Lleol 3 – 10 Rhagfyr 2019** | | **Local Review Panel Meeting 3 – 10 December 2019** |
| Agenda | 60 | Agenda |
| Asesiad rhestr fer safleoedd - Cymraeg | 61 | Sites' shortlist assessment - Welsh |
| Asesiad rhestr fer safleoedd - Saesneg | 69 | Sites' shortlist assessment - English |

# Atodiad A


| | | |
|---|---|---|
| Asesiad SWOT safleoedd - Cymraeg | 77 | Sites' SWOT analysis - Welsh |
| Asesiad SWOT safleoedd – Saesneg | 81 | Sites' SWOT analysis - English |
| Cofnodion y Cyfarfod - Cymraeg | 85 | Meeting Minutes - Welsh |
| Cofnodion y Cyfarfod - Saesneg | 88 | Meeting Minutes – English |
| **Cyfarfod Panel Adolygu Lleol 4 – 24 Mehefin 2020** | | **Local Review Panel Meeting 4 – 24 June 2020** |
| Agenda | 91 | Agenda |
| Materion yn ymwneud a safle Capel Uchaf - Cymraeg | 92 | Matters relating to the Capel Uchaf site - Welsh |
| Materion yn ymwneud a safle Capel Uchaf – Saesneg | 94 | Matters relating to the Capel Uchaf site - English |
| Addasrwydd safle A497 - Cymraeg | 96 | A497 site suitability - Welsh |
| Addasrwydd safle A497 – Saesneg | 97 | A497 site suitability - English |
| Amserlen | 99 | Timetable |
| Cofnodion y Cyfarfod - Cymraeg | 100 | Meeting Minutes – Welsh |
| Cofnodion y Cyfarfod – Saesneg | 103 | Meeting Minutes - English |

# Cyfarfod Panel Adolygu Lleol Cricieth

Cricieth Local Review Panel Meeting

Addysg

**Panel Adolygu Lleol 1**
**Local Review Panel 1**

18:00 – 19:30,
Dydd Iau, 13 Mehefin 2019 / Thursday, 13 June 2019

Ystafell Werdd, Neuadd Goffa Cricieth / Green Room, Cricieth Memorial Hall

1. **GEIRIAU AGORIADOL YR AELOD CABINET DROS ADDYSG (Cyng. Cemlyn Williams)**
   OPENING WORDS FROM THE CABINET MEMBER FOR EDUCATION

2. **BRIFF PANEL ADOLYGU LLEOL (Gwern ap Rhisiart, Swyddog Addysg Ardal Meirion a Dwyfor)**
   LOCAL REVIEW PANEL BRIEF

3. **RHAGLEN WAITH AMLINELLOL Y PANEL (Gareth Jones, Swyddog Moderneiddio Addysg)**
   OUTLINE WORK PROGRAMME FOR THE PANEL

4. **CYFLWYNIAD (Gwern ap Rhisiart, Swyddog Addysg Ardal Meirion a Dwyfor)**
   PRESENTATION

------------------------------------ **Toriad / Break** ------------------------------------------

5. **TRAFODAETH**
   DISCUSSION

6. **CLOI**
   CLOSE

# Ysgol newydd yng Nghricieth / New school in Cricieth

Tud. 21





# Briff y Panel

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Enw'r Panel** | **Panel Adolygu Lleol Ysgol Newydd i Gricieth** |
| **2.** | **Aelodau'r Panel** | • Aelod Cabinet dros Addysg: Cyng. Cemlyn Williams<br>• Aelodau Lleol<br>• Pennaeth, Cadeirydd Llywodraethwyr ac un Rhiant Lywodraethwr o pob ysgol + 2 aelod ychwanegol o gorff llywodraethol Ysgol Treferthyr<br>• 2 gynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru<br>• Swyddogion Cyngor Gwynedd: Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Meirion a Dwyfor); Gareth Jones (Swyddog Moderneiddio Addysg); Sioned Hughes (Swyddog Prosiect)<br>• Yn ogystal, estynnir gwahoddiad i swyddogion eraill ar faterion penodol ar gais yr Aelod Cabinet Addysg. |
| **3.** | **Diffiniad o waith y Panel** | Sefydlir y Panel Adolygu Lleol er mwyn trafod strategaethau ac amcanion, gwybodaeth ysgolion, prosesau, cyfathrebu, trafod opsiynau, trafod safleoedd, er mwyn cytuno opsiwn a safle ffafredig.<br><br>Gwelir y Panel Adolygu fel dolen gyswllt bwysig rhwng yr Aelod Cabinet Addysg a chynrychiolwyr y cymunedau.<br><br>Yn dilyn cyfraniad y Panel Adolygu bydd yr Aelod Cabinet Addysg yn cyflwyno cynnig i Gabinet Cyngor Gwynedd. |
| **4.** | **Sgôp y gwaith** | i) Cytuno'r briff, aelodaeth ac amserlen y gwaith<br>ii) Ystyried tystiolaeth a baratowyd ar sefyllfa ysgolion<br>iii) Derbyn adborth gan gynrychiolwyr ysgolion<br>iv) Trafod opsiynau a safleoedd posib<br>v) Cyfrannu i'r trafodaeth cyn i'r opsiwn ffafredig cael ei adnabod |
| **5.** | **Amserlen** | Gweler Rhaglen waith arfaethedig.<br><br>Bydd angen i'r Panel Adolygu gwblhau y trafodaethau erbyn canol mis Hydref 2019. Mi fydd yr Aelod Cabinet Addysg yna'n cyflwyno cynigion i Gabinet y Cyngor. |



Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
*Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money*

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Rhaglen waith y Panel

| Dyddiad | Lleoliad | Teitl y Cyfarfod | Pwrpas |
|---|---|---|---|
| 13 Mehefin | Neuadd Goffa Cricieth | PAL 1 | Cytuno pwrpas y Panel<br>Egluro'r broses<br>Cyflwyno sefyllfa bresennol a buddion ysgol newydd<br>Derbyn sylwadau a chwestiynau |
| 27 Mehefin | Neuadd Goffa Cricieth | PAL 2 | Ymateb i sylwadau a chwestiynau yn dilyn PAL1 |
| Corff Llywodraethol Ysgol Llanystumdwy i benderfynu os ydynt am barhau i fod yn rhan o drafodaethau PAL tan y diwedd.<br><br>Mae'r camau dilynol yn ddibynnol ar benderfyniad Ysgol Llanystumdwy i barhau yn y trafodaethau neu ddim. Mae'n bosib fydd natur y cyfarfodydd yn newid a'r nifer cyfarfodydd yn lleihau os nad ydynt am barhau. | | | |
| 5 Medi | I'w gadarnhau | PAL 3 | Diweddariad yn dilyn PAL2<br>Trafod strategaethau ac amcanion addysg<br>Cytuno opsiynau posib<br>Cyflwyno safleoedd posib a chytuno safle ffafredig |
| 19 Medi | I'w gadarnhau | PAL 4 | Cytuno rhestr fer o opsiynau |
| 23-27 Medi | Ysgol Treferthyr ac Ysgol Llanystumdwy | Sesiwn plant (Cyngor ysgol x 2) | Cael mewnbwn plant i'r opsiynau rhestr fer |
| 10 Hydref | I'w gadarnhau | PAL 5 | Adborth y sesiwn plant<br>Cyflwyniad ar asesiad iaith Gymraeg, cymunedol, cydraddoldeb<br>Asesiad opsiynau rhestr fer<br>Cytuno opsiwn a ffafrir<br>Egluro'r camau nesaf |

**CABINET** - Yn ddibynnol ar ganlyniad y cyfarfodydd PAL, mi fydd yr Aelod Cabinet Addysg yn cyflwyno ei gynigion i Cabinet y Cyngor. Pwrpas gwneud hyn fydd i geisio cymeradwyaeth i gynnal cyfnod o ymgynghori statudol.

# Cefndir y prosiect / *Project background*

- Cais am arian Rhaglen Ysgolion 21G (Band B) Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu ysgol newydd



- *Application for funding from the Welsh Government's 21C Schools (Band B) Programme for the construction of a new school*

# Pam cynnwys Ysgol Llanystumdwy? /
# *Why include Ysgol Llanystumdwy?*

Angen adeiladu ysgol newydd i holl blant oed cynradd dalgylch Treferthyr /
*The need to build a new school for all primary age children in the Treferthyr catchment area*



| | | |
|---|---|---|
| | **Treferthyr** | **104** |
| Mynd i ysgolion eraill (Medi 2018) | Llanystumdwy | 9 |
| | Chwilog | 0 |
| | Garndolbenmaen | 2 |
| | Eifion Wyn | 3 |
| | Y Gorlan | 9 |
| | Borthygest | 1 |
| | Arall | 2 |
| | **Cyfanswm** | **130** |



CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
*Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money*

# Y sefyllfa bresennol / *Present situation*






Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
*Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money*



CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Asesiadau Estyn a Llywodraeth Cymru /
# *Estyn and Welsh Government assessments*

| | Estyn | | | | | | Llywodraeth Cymru<br>Welsh Government |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol<br>School** | **Blwyddyn yr archwiliad<br>Year of Inspection** | **Safonau<br>Standards** | **Lles ac agweddau at ddysgu<br>Wellbeing and attitude towards learning** | **Addysgu a phrofiadau dysgu<br>Education and learning experiences** | **Gofal, cymorth ac arweiniad<br>Support ,Care and guidance** | **Arweinyddiaeth a rheolaeth<br>Leadership and management** | **Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru 2018<br>Welsh Government Support Category 2018** |
| **Treferthyr** | 2018 | Da/Good | Da/Good | Da/Good | Da/Good | Da/Good | Gwyrdd / Green |
| **Llanystumdwy** | 2018 | Da/Good | Da/Good | Da/Good | Da/Good | Da/Good | Gwyrdd / Green |



**<u>Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru</u>**

•Categori cefnogaeth gwyrdd - Bydd ysgol yn y categori hwn yn derbyn hyd at 4 diwrnod o amser cynghorydd her.

Bydd pob cynghorydd her yn pennu natur y pecyn cymorth penodol a gaiff ei ddarparu i bob ysgol, yn unol â'r angen.

# Gwybodaeth am nifer plant yn yr ysgolion a dalgylch eu cartrefi /
# *Information regarding the number of pupils in the schools and catchment area of their homes*

Tud. 28

| | | Dalgylch Cartref<br>Home Catchment | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ysgol<br>School** | TreferThyr | Llanystumdwy | Garndolben-maen | Y Gorlan | Arall<br>Other | **Cyfanswm (M-Bl6)<br>Total (N – Yr6)** |
| **Ysgol / School** | Treferthyr | 104 | 3 | 2 | 2 | 3 | **114** |
| | Llanystumdwy | **9** | 9 | 0 | 0 | 3 | **21** |
| | Garndolbenmaen | **2** | 0 | | | | |
| | Y Gorlan | **9** | 1 | | | | |
| | Arall / Other | **6** | 3 | | | | |
| | **Cyfanswm (M-Bl6)<br>Total (N – Yr6)** | **130** | **16** | | | | |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Medi 2018
*Source: September 2018 School Census*

# Ystod oedran mewn dosbarthiadau 2018-19 / *Age range in classes 2018-19*

| Ysgol<br>*School* | Meithrin<br>*Nursery* | Derbyn<br>*Reception* | Bl 1<br>*Yr 1* | Bl2<br>*Yr 2* | Bl 3<br>*Yr 3* | Bl 4<br>*Yr 4* | Bl 5<br>*Yr 5* | Bl 6<br>*Yr 6* | Cyfanswm<br>*Total* | Nifer y dosbar-thiadau<br>*No. of Classes* | Dosbarth mwyaf<br>*Largest Class* | Dosbarth lleiaf<br>*Smallest Class* | ***Maint dosbarth ar gyfartaledd***<br>*Average Class Size* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Treferthyr** | 12 | 15 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 17 | 114 | | | | |
| Dosbarthiadau | 12 | 29 | | 14 | 28 | | 31 | | | 5 | 31 | 12 | 22.8 |
| **Llanystumdwy** | 2 | 2 | 2 | 3 | 0 | 4 | 4 | 4 | 21 | | | | |
| Dosbarthiadau | 9 | | | | 12 | | | | | 2 | 12 | 9 | 10.5 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Medi 2018
*Source: September 2018 School Census*

# Rhagamcanion disgyblion 4 mlynedd/
# *4 year pupil projections*

| | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| Treferthyr | 114 | 116 | 115 | 114 | 112 |
| Llanystumdwy | 21 | 22 | 20 | 20 | 19 |



Ffynhonnell: Penaethiaid y 2 ysgol
*Source: Heads of the 2 schools*

# Cyllidebau Ysgolion 2019-20 / *School budgets 2019-20*

| **Ysgol** *School* | **CYLLIDEB 2019-20 / *2019-20 BUDGET*** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Dyraniad /** ***Allocation*** | **Gwarchodaeth lleiafswm staffio* / Minimum staffing protection*** | **Cyfanswm cyllideb / Total budget** | **Cyfartaledd y Disgybl /** ***Average per pupil*** |
| Treferthyr | £389,431 | £0 | £389,431 | £3,630 |
| Llanystumdwy | £128,422 | £51,530 | £179,952 | £9,052 |
| **Cyfartaledd Ysgolion Cynradd y Dalgylch /** ***Catchment Area Average Primary*** | | | £333,290 | £5,520 |
| **Cyfartaledd Ysgolion Cynradd y Sir /** ***County Average Primary*** | | | £404,000 | £3,884 |

Tud. 31

Ffynhonnell: Dyraniad Cyllidol Ysgolion Cynradd 2019-20
Source: Primary Schools Budget Allocation 2019-20

*Mae'r polisi gwarchodaeth yn sicrhau o leiaf pennaeth ac athro/athrawes ym mhob Ysgol sydd gyda mwy na 15 disgybl, a pennaeth a cymhorthydd dosbarth mewn ysgolion sydd gyda llai na 15 disgybl.
| **1.** | **CROESO** | • Croesawyd pawb i'r cyfarfod a diolchwyd am y lluniaeth.<br>• Eglurwyd fod gwaith wedi bod yn mynd ymlaen ers y cyfarfod diwethaf. Ni ddiystyrwyd unrhyw safle yn ystod y cyfarfod diwethaf.<br>• Bwriad y noson yw dod i benderfyniad ar safle ffafredig. |
| **2.** | **Safleoedd ar y rhestr fer:**<br>**a) Cefniwrch**<br>**b) Safle Presennol**<br>**c) Capel Uchaf**<br>**d) Safle A497** | **Cefniwrch**:<br>Aethpwyd drwy'r asesiad SWOT<br>• Trafodwyd y problemau ar y safle yma o ran prynu y tir.<br>• Eglurwyd bydda elfennau cynnal a chadw safle mor fawr yn heriol. Aethpwyd drwy'r rhesymau pam nad yw'r safle yn addas.<br>• Gofynnwyd pam fod cymaint o sylw yn cael ei roi i'r olygfa o'r ysgol a thuag at yr ysgol. Atebwyd y cwestiwn gan GO. Cafwyd crynodeb o'r ffactorau sy'n diystyru'r safle yma. Ategwyd fod y gost yn ffactor ac eglurwyd po fwyaf y bydd raid gwario ar brynu tir, llai o arian fydd ar gyfer y gwaith adeiladu.<br>**Safle Presennol**:<br>Aethpwyd drwy'r asesiad SWOT<br>• Heriau i'r safle hwn. Mynediad yn broblemus, anhawster adeiladu ysgol newydd ac anhawster hirdymor ar gyfer rhoi estyniad ar gyfer y dyfodol a lleoli gwasanaeth gofal plant yma. Byddai'r safle yn brysur iawn efo nôl a danfon disgyblion i'r dyfodol.<br>• Gofynnwyd a fyddai modd dymchwel tŷ ar y rheilffordd ac addasu'r ffordd yno er mwyn dod i mewn i'r ysgol. Mi fydda hyn yn ddrud i'w wneud.<br>• Atebwyd gan GapRh ein bod wedi edrych ar bopeth sy'n cwmpasu'r safle presennol.<br>• Eglurwyd fod cyfamod ar y Golff Bach a bod ffactorau sydd yn diystyru'r safle hwn.<br>• Ategwyd gan GO y problemau a fyddai'n codi wrth geisio gweithio efo 'Network Rail' a'r gost fawr o adeiladu pont ar gyfer y daith i'r ysgol.<br>• Nodwyd na fyddai modd cael datrysiad i'r problemau sydd yma ar y safle presennol. Mae diogelwch y plant yn bwysig iawn a byddai risg o gael damwain yn uchel yma.<br><br>**Capel Uchaf**: |

| | | |
|---|---|---|
| | | Aethpwyd drwy'r asesiad SWOT<br><br>• Dangoswyd y safle ar y map. Eglurwyd nad yw ym mherchnogaeth y Cyngor. Aethpwyd drwy'r cryfderau a'r gwendidau.<br>• Eglurwyd fod yn rhaid dilyn amodau adeiladu BB99 (ar gyfer ysgolion cynradd) er mwyn diwallu'r amod grant. Dangoswyd cynllun o'r ysgol ar y safle hwn. Aethpwyd drwy'r cynllun ar y bwrdd gwyn. Eglurwyd beth yw maint y cae chwarae a maint yr ysgol a fod yr Uned Eiddo yn dilyn canllawiau pendant gan Llywodraeth Cymru.<br>• Gwnaed y sylw fod y safle yma yn dynn o ran maint ond bod yr ysgol newydd yn ffitio yma ond yn ddelfrydol buasai ychydig mwy o dir yn gwneud pethau'n haws ar y safle hwn.<br>• Eglurwyd fod yr arwynebedd glas yn ddigonol ar gyfer 150 o blant a 30 o blant meithrin. Rhaid i ddosbarthiadau ysgolion newydd fod yn 60 medr sgwâr. Amlygwyd fod angen dilyn y canllawiau ar gyfer y gofod sydd ei angen.<br>• Eglurwyd y bu aelod o'r Adran Eiddo yn tynnu lluniau o'r castell er mwyn dangos sut fyddai'r ysgol yn edrych o'r safle hanesyddol. Ni rhagwelir unrhyw broblemau ar gyfer cael caniatâd cynllunio ar gyfer y safle hwn.<br>• Gwnaed y sylw am y nant sydd ger y safle yma ac eglurwyd y byddai angen adeiladu ffensys i atal y plant rhag mynd yno. Ategwyd gan GO nad yw'r afon yn broblem na eillir gael ei oresgyn.<br><br>**Safle A497:**<br>Aethpwyd drwy'r asesiad SWOT<br><br>• Dangoswyd cynllun y safle yma. Aethpwyd drwy'r cryfderau a'r gwendidau ar y safle. Nodwyd y byddai'r ffordd yn newid i fod yn ffordd 20mya cyn cyrraedd yr ysgol.<br>• Pryder un aelod na fyddai'r ysgol ar y safle yma yn gweld llawer o haul gan y byddai mewn ychydig o bant. |
| **3.** | **Trafodaeth** | • Eglurwyd pam fod y safle presennol a Cefniwrch wedi eu diystyru.<br>• Amlygwyd y gallai problemau godi ar y ddau safle sydd ar ôl yn sgil gwneud mwy o ymchwilio ar y tir. Eglurwyd fod unrhyw archwiliadau pellach ar y ddau safle sydd o dan ystyriaeth yn costio mwy na beth sydd wedi ei wneud yn barod. Oherwydd hynny.<br>• Gofynnwyd beth oedd pris y safleoedd ond cafwyd eglurhad gan GO nad oes modd datgelu hynny.<br>• Gofynnwyd pa safle sydd agosaf i'r traeth. Gwnaed y sylw pe byddai safle Capel Uchaf gyda mwy o dir a fyddai modd cael gardd wyllt ar dir yr ysgol.<br>• Gofynnwyd beth fyddai maint y cae chwarae ar y cynllun ac eglurwyd ei fod yr un maint a chae pêl droed ar gyfer timau o dan 11 oed.<br>• Gwnaed y sylw fod cartrefi nifer o blant ger safle Capel Uchaf. Byddai'r rhieni o ganlyniad yn hapus gyda'r safle yma.<br>• Mynegodd y panel y byddai'r safle yma yn addas gyda'r opsiwn o brynu mwy o dir yn apelio yn fawr.<br>• Gwnaed y sylw gan y Pennaeth ei bod yn bryderus nad oes digon o le ar gyfer y cyfnod sylfaen. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cynigwyd y buasai'r corff llywodraethol yn cael rhoi mewnbwn i bethau fel y gofod chwarae ac ati yn ystod y broses cynllunio ac yn ystod yr adeiladu.<br>• Nodwyd y byddai'r cylch meithrin yn rhan o'r adeilad ond na fyddai'n dwyn dim gofod gan yr ysgol. |
| **4.** | **Camau Nesaf** | • Nodwyd bydd gwaith ychwanegol yn cael ei wneud ar y 2 safle a dod nol i'r PAL gyda canlyniadau y gwaith.<br>• Nodwyd yn dilyn cytuno safle ffafredig y byddai angen mynd i Gabinet ac yna bydd ymgynghori yn cymryd lle yn lleol yng Nghricieth.<br>• Eglurwyd fod yn rhaid ymgynghori am ein bod yn ehangu'r ysgol yn fwy na 25% o ran capasiti. Bydd cyfle i bobl lleol fynegi barn ar y safle newydd. |
| **5.** | **Casgliad** | • Cytunodd y PAL mai safle Capel Uchaf oedd orau ganddynt. Eglurodd GapRh y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar y safle ac y bydd yr Adran Stadau yn mynd ati i ymchwilio prynu mwy o dir ar gyfer yr ysgol newydd ar y safle yma.<br>• Eglurwyd y byddai safle A497 yn ail opsiwn pe byddai problemau na eillir eu goresgyn ar safle Capel Uchaf. Roedd y panel yn fodlon gyda hyn.<br>• Trafodwyd yr angen i barhau efo'r elfen gyfrinachol am y safleoedd yn y gymuned gan nad yw'r opsiwn i brynu wedi ei roi mewn lle eto. Diolchwyd i'r panel am barhau i fod yn gyfrinachol am y trafodaethau hyn.<br>• Nodwyd fod hyn wedi creu ychydig o ddrwg deimlad o fewn y corff llywodraethol.<br>• Cynigwyd gan GapRh y byddai'n hapus i gael gair efo'r corff llawn neu'r unigolyn sydd yn anhapus.<br>• Cytuniwyd i lunio llythyr ar gyfer ei rannu efo'r corff llywodraethol llawn er mwyn egluro'r trafodaethau sydd wedi cymryd lle gyda nhw. |
| **6.** | **CLOI** | • Diolchwyd i bawb am fynychu. Diwedd 7:30yh. |

# Cricieth Local Review Panel 3



| | | |
|---|---|---|
| **Meeting of:** | Local Review Panel (3rd meeting) | **Date:** 10/12/2019 6 p.m.<br>**Venue:** Ysgol Treferthyr, Cricieth |

| | |
|---|---|
| **Present:** | Officers:<br>Gwern ap Rhisiart (GapRh); Geraint Owen (GO); Alan Edwards (AE); Gareth Jones (GJ); Sioned Hughes (SH);<br><br>Representing the Governors of Ysgol Treferthyr:<br>Elin Pugh, Karena Owens, Sioned Roberts, Eirwyn Williams, Bethan Williams, Angela Mansel, Dafydd Williams |
| **Apologies:** | |

| Item No. | Item/Subject | Action |
|---|---|---|
| 1. | WELCOME | • Everyone was welcomed to the meeting and thanks were expressed for the refreshments.<br>• It was explained that work had been going ahead since the previous meeting. No site was disregarded during the previous meeting.<br>• The aim of the evening was to decide on a preferred site. |
| 2. | **Shortlisted sites:**<br>**a) Cefniwrch**<br>**b) Current Site**<br>**Current Site**<br>**c) Capel Uchaf**<br>**d) A497 Site**<br>**A497 Site** | **Cefniwrch:**<br>The SWOT assessment was considered<br>• The problems on this site in terms of purchasing the land were discussed.<br>• It was explained that maintenance elements on such a big site would be challenging. The reasons why the site was not suitable were contemplated.<br>• It was asked why so much attention was being given to the view from the school and towards the school. GO answered the question. A summary of the factors disregarding this site was provided. It was confirmed that cost was a factor and it was explained that the greater the amount that has to be spent on purchasing land, the smaller the funding available for construction work.<br>**Current Site:**<br>The SWOT assessment was considered<br><br>• Challenges with this site. Access is problematic, there is difficulty in building a new school and long-term problems with building an extension for the future and locating the childcare service here. The site would be very busy in future with pupils being dropped off and picked up.<br>• It was asked whether it would be possible to demolish the house by the railway and adapt the road at that point in order to enter the school. This would be expensive to carry out.<br>• GapRh replied that we have considered everything that encompasses the existing site.<br>• It was explained that there was a covenant on the Miniature Golf and that there were factors that led to disregarding this site.<br>• GO confirmed the problems that would arise in attempting to work with Network Rail and the huge cost of building a bridge for the journey to school. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • It was noted that it would not be possible to resolve the problems here on the existing site. The children's safety is paramount and there would be a high risk of an accident here.<br><br>**Capel Uchaf:**<br><br>The SWOT assessment was considered<br><br>• The site was shown on the map. It was explained that it is not in Council ownership. The strengths and weaknesses were considered.<br>• It was explained that BB99 building conditions (for primary schools) had to be followed in order to meet the grant requirement. The plan of the school on this site was shown. The plan was examined on the whiteboard. It was explained about the size of the playing field and size of the school and that the Property Section is adhering to specific Welsh Government guidance.<br>• It was observed that this site was tight in terms of size but that the new school did fit here; ideally, however, a little more land would make things easier on this site.<br>• It was explained that the blue area was sufficient for 150 children and 30 nursery children. New school classrooms have to be 60m2. The need to follow the guidance for the space required was emphasised.<br>• It was explained that a member of the Property Section had taken photographs from the castle to show how the school would look from the historical site. No problems are anticipated in obtaining planning permission for this site.<br>• An observation was made about the stream near this site and it was explained that it would be necessary to build fences to prevent the children from accessing this area. GO added that the river is not a problem that cannot be overcome.<br><br>**A497 Site:**<br>The SWOT assessment was considered<br><br>• The plan for this site was shown. The strengths and weaknesses of the site were considered. It was noted that the road would change to become a 20mph road before reaching the school.<br>• One member was concerned that a school on this site would not get much sun as it would be in a slight dip. |
| **3.** | **Discussion** | • It was explained why the existing site and Cefniwrch had been disregarded.<br>• It was made clear that problems could arise on both the remaining sites after conducting more investigations of the land. It was explained that any further investigations on both sites under consideration would therefore cost more than what has been carried out already.<br>• It was asked what the price of the sites was but GO explained that this could not be disclosed.<br>• It was asked which site is nearer the beach. It was mentioned that if the Capel Uchaf site had more land, it might be possible to have a wild garden on school grounds.<br>• A question was asked about the size of the playing field on the plan and it was explained that it was the same size as under-11 teams' football pitch.<br>• It was remarked that the homes of several children were close to the Capel Uchaf site. |

| | | |
|---|---|---|
| | | As a consequence, parents would be happy with this site.<br>• The panel stated that this site would be suitable, with the option of purchasing more land appealing greatly.<br>• The Headteacher commented that she was worried about the lack of space for the Foundation Phase.<br>• It was proposed that the governing body could provide input to aspects such as the playing space, etc. during the planning process and during construction.<br>• It was noted that the nursery group would be part of the building but would not be taking any of the school's space. |
| **4.** | **Next Steps** | • It was noted that extra work would be carried out on both sites and that the outcome of the work would be reported to the LRP.<br>• It was noted that after agreeing on a preferred site, there would be a need to go to Cabinet and following this, a local consultation would take place in Cricieth.<br>• It was explained that a consultation had to take place as we were extending the school by more than 25% of its capacity. Local people will have the opportunity to express an opinion on the new site. |
| **5.** | **Conclusion** | • The LRP agreed that it preferred the Capel Uchaf site. GapRh explained that further work will be carried out on the site and that the Estates Department will set about investigating the purchase of more land on this site for the new school.<br>• It was explained that the A497 site would be a second option should insurmountable problems be encountered on the Capel Uchaf site. The panel was satisfied with this.<br>• The need was discussed to maintain confidentiality in the community in relation to the discussions about the sites, as the option to buy has not yet been put in place. The panel was thanked for maintaining the confidentiality of these discussions.<br>• It was noted that this had created a degree of ill-feeling within the governing body.<br>• GapRh said that he was prepared to speak to the governing body in full or to the individual who is unhappy.<br>• It was agreed to draw up a letter to be shared with the governing body as a whole in order to explain the discussions that have taken place. |
| **6.** | **TO CONCLUDE** | • Everyone was thanked for attending. Ended 7.30 p.m. |

# Panel Adolygu Lleol 4

## Local Review Panel 4

16:00 24 Mehefin 2020
16:00 24 June 2020

Cyfarfod Microsoft Teams Meeting

1. **Croeso ac ymddiheuriadau**

   **Welcome and apologies**

2. **Diweddariad yn dilyn cyfarfod PAL 3**

   **Update following LRP 3**

3. **Gwaith ychwanegol ar safle Capel Uchaf**

   **Additional work on Capel Uchaf site**

4. **Gwaith ychwanegol ar safle A497**

   **Additional work on A497 site**

5. **Cytuno ffordd ymlaen a'r amserlen**

   **Agree a way forward and timetable**

**Materion yn ymwneud a safle Capel Uchaf**

| | Materion | Gwaith pellach |
|---|---|---|
| Gwasanaethau | Trydan, nwy, dwr, carffosiaeth a ffon/rhyngrwyd | Angen trefnu cyflenwadau i'r safle |
| Pibellau nwy | Hen bibell " high pressure" yn croesi'r safle | Angen sefydlu lleoliad y bibell, petai wedi leoli rhy agos neu o dan 'oel troed' yr adeilad buasai rhaid llenwi gyda concrid neu tyllu fynnu. |
| | Pibell 'byw' yn rhedeg wrth y nant | Tebygol fydd rhaid ail gyfeirio y bibell. Gall hyn fod yn broblemus ble mae'r mynediad newydd yn cael ei leoli a gall fod yn agos i'r adeilad, |
| Pibellau ddŵr | Pibell ddŵr preifat yn rhedeg ar draws y safle | Angen caniatad preselwyr y tai ar gyfer symud y bibell. |
| Hawl Tramwyo | Ffordd breifat yn croesi y tir | Angen sefydlu hawl tramwyo newydd a newid llinell y ffordd. |
| Ecolegol | Archwiliad wedi gwneud . Mae Canclwm Siapaneaidd yn tyfu wrth yr afon. | Mae Canclwm Siapaneaidd yn tyfu wrth yr afon, mae gwaredu y Camclwm yn cymryd hyd at 5 mlynedd ac nid oes posib datblygu'r ardal ble mae'n tyfu yn y cyfnod yma. Mae'n tyfu yn yr ardal ble mae bwriad creu mynedfa ir safle a newid cyfeiriad pibell nwy. |
| Archeoleg | Archwiliad wedi gwneud. Olion wedi darganfod ar y safle gall fod yn cyn hanesyddo. | Angen gwneud gwaith pellach ond ddim yn bosib oherwydd COVID 19. Os mae gweddillion hanesyddol yn cael ei ddarganfod gall fod yn gostus i'w recordio a gorchuddio. |

| | | |
|---|---|---|
| Cynllunio | Angen caniatâd cynllunio | Trafodaethau cychwynol yn bositif. Y safle i'w weld o'r castell felly mae angen gwaith dylunio a gosod yr adeilad ar y safle i wneud yn siŵr fod yn gweddu, gall hyn fod yn fwy costus i gymharu a projectau arferol. |
| Traffig | Mynediad i safle a diogelwch | Mewn lleoliad da ar gyfer defnyddwyr. Angen tir ychwanegol oherwydd fod palmant yn gul iawn mewn un man. Uned Traffig yn hapus gyda lleoliad y mynediad, ond petai y cynllun mynedfa yn gorfod symud gall fod yn broblemus. |
| Ground Investigations | Archwiliad heb gwneud | Aros am ddatrys problemau eraill. |
| SUDS | Prawf heb ei wneud | Aros am ddatrys problemau eraill. |
| Maint y safle | Wedi gorfod negodi tir ychwanegol. | Tir yn sylweddol dros gyllideb |

**Matters relating to the Capel Uchaf site**



| | Matters | Further work |
|---|---|---|
| Services | Electricity, gas, water, sewerage and telephone/internet | A need to organise supplies to the site |
| Gas pipes | An old high-pressure pipe crosses the site | A need to establish the location of the pipe; if located too close to or underneath the building's footprint, it would have to be filled with concrete or dug up |
| | A live pipe runs by the stream | A likelihood that the pipe will have to be diverted. This may be problematic where the new entrance is located and could be close to the building |
| Water pipes | A private water pipe runs across the site | Permission needed from the residents of the houses to move the pipe |
| Right of Way | A private road crosses the land | A need to establish a new right of way and change the line of the road |
| Ecological | A survey completed. Japanese knotweed grows by the river | Japanese knotweed grows by the river. Eradicating the knotweed takes up to five years and it is not possible to develop the area where it grows during this period. It is growing in the place where it is intended to create an entrance to the site and divert a gas pipe |

| | | |
|---|---|---|
| Archaeology | A survey completed. Remains which may be prehistoric discovered on the site | A need for further work but not possible due to COVID-19. If historical remains are found, it could prove costly to record and cover them |
| Planning | Planning permission needed | Initial discussions are positive. The site is visible from the castle, therefore work is needed on designing and installing the building on the site to make sure that it fits in. This could prove costlier than usual projects |
| Traffic | Access to the site and safety | In a good location for users. A need for extra land because the pavement is so narrow in one place. The Traffic Unit is happy with the position of the access, but if the entrance plan had to move it could be problematic |
| Ground Investigations | Survey not completed | Awaiting the solving of other problems |
| SUDS | Test not completed | Awaiting the solving of other problems |
| The size of the site | Extra land had to be negotiated | Land significantly over budget |

**Addasrwydd safle A497**

| | Materion | Gwaith pellach |
|---|---|---|
| Gwasanaethau | Trydan, nwy, dwr, carffosiaeth a ffon/rhyngrwyd | Angen trefnu cyflenwadau i'r safle |
| Hawl tramwyo | Posib fydd Network Rail angen cyraedd Adeilad y Twr / offer rheolaeth signal y trac trenau ar ôl i'r ysgol agor | Angen trafod hawl mynediad gyda Network Rail |
| Hawl cyraedd draen a dwr | Angen sefydlu draen dwr budr | Angen sefydlu hawl i groesi'r tir os ydi Dwr Cymru yn rhoi caniatâd cysylltu gyda'r pibell wrth y gwaith dwr |
| Archeolegol | Archwiliad wedi gwneud | Dim problemau mawr, angen "watching brief" pam yn gwneud y Groundworks. |
| Ecolegol | Archwiliad wedi gwneud | Dim problemau mawr, fydd angen gwarchod y coed a tynnu American Skunk Cabbage o'r cwrs dwr. Safle da gyda ardal ar gyfer gardd natur ayyb |
| Cynllunio | Angen caniatâd cynllunio | Trafodaethau yn positif hyd yma |
| Traffig | Mynediad i safle a diogelwch. Angen darparu digon o le parcio o fewn y safle i osgoi'r angen i rieni barcio ar y ffordd fawr. Angen edrych ar wella'r troedffyrdd i'r safle. | Gwneud archwiliad traffig a llwybr saff i'r ysgol |
| Archwiliadau tir | Archwiliad wedi gwneud | Wedi mynd yn iawn a dim rhwystrau gyda'r tir |
| SUDS - Gwaredu a dwr glaw or safle | Porosity test wedi ei wneud disgwyl canlyniadau llawn | Bydd angen gwaith ychwanegol i greu swales neu " attenuation tank" ar y safle. |
| Maint y safle | Digon mawr | Cost o fewn y gyllideb |

**A497 Site Suitability**

| | Matters | Further work |
|---|---|---|
| Services | Electricity, gas, water, sewerage and telephone/internet | A need to organise supplies to the site |
| Right of way | A possibility that Network Rail will need to reach the Tower Building/train track signal control equipment after the school has opened | A need to discuss right of access with Network Rail |
| Right to access drains and water | A need to establish a dirty water drain | A need to establish the right to cross the land if Welsh Water give consent to connect with the pipe by the waterworks |
| Archaeological | A survey completed | No significant problems, a need for a watching brief when undertaking groundworks |
| Ecological | A survey completed | No significant problems, a need to protect the trees and eradicate American skunk cabbage from the water course.  A good site, with an area for a nature garden, etc. |
| Planning | Planning permission needed | Discussions to date are positive |
| Traffic | Access to the site and safety. A need to provide enough parking space within the site to avoid the need for parents to park on the main road. A need to consider improving the footways onto the site | Undertake a traffic and safe route to school survey |
| Land surveys | A survey completed | It went well and no hindrances with the land |

| | | |
|---|---|---|
| SUDS - Removing rainwater from the site | Porosity test completed - awaiting full results | Additional work is needed to create swales or an attenuation tank on the site |
| The size of the site | Sufficiently large | Cost within the budget |

**Rhaglen waith Prosiect Cricieth /** Work Schedule Cricieth Project.

| | **Cam** Stage | **Amserlen**<br>**Timetable** |
|---|---|---|
| | Penderfyniad safle ffafredig<br>Decision on favoured site | Meh 20 June |
| | Rhannu penderfyniad gyda Corff Llywodraethol<br>Share decision with Governing Body | Gorff 20 July |
| | Rhannu penderfyniad gyda rhieni a staff<br>Share decision with staff and parents | Gorff 20 July |
| | Cynnal arolygon pellach e.e traffig, llwybr saff i'r ysgol<br>Further surveys eg traffic, safe route to school | Meh – Gorff 20 June - July |
| | **Trefn Statudol Statutory Procedure** | |
| | Cabinet - caniatâd i ymgynghoriad statudol<br>Cabinet – consent to statutory consultation | Medi 20 September |
| | Ymgynghoriad statudol – Statutory Consultation | Hyd – Tach 20 Oct - Nov |
| | Cabinet - adroddiad ymgynghori<br>Cabinet – consultation report | Rhag 20 Dec |
| | Rhybudd Statudol Statutory Notice | Ion - Chwe 21 Jan - Feb |
| | Cabinet -penderfyniad terfynol<br>Cabinet – final decision | 9 Maw 21 March 9 |
| | **Achos fusnes Business Case** | |
| | Creu a chytuno achos fusnes BJC<br>Create and agree BJC business case | Gorff - Medi 20 July - Sep |
| | Cymeradwyo achos fusnes (Llywodraeth Cymru)<br>Approve Business Case (Welsh Government) | Tach-Rhag 20 Nov-Dec |
| | **Dylunio, cynllunio ac adeiladu**<br>**Design, Plan and Build** | |
| | Gwaith dylunio Design Work | Gorff – Tachwedd 20 July - Nov |
| | Caniatâd cynllunio Planning Permission | Rhag – Chwe 21 Dec-Feb |
| | Dylunio manylach Detailed Design | Rhag – Maw 21 Dec-March |
| | Tendr Tender | Ebr - Mai 21 Apr - May |
| | Adeiladu / Fit out Build | Meh 21 – 2023 June 21 2023 |
| | Agor Open | **Medi 2023 Sep** |

# Panel Adolygu Lleol Cricieth 4

Addysg

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfarfod o:** | Panel Adolygu Lleol (4ydd cyfarfod) | **Dyddiad**: 24/06/2020 16:00<br>**Lleoliad:** Cyfarfod ar ffurf Microsoft Teams | |

| | |
|---|---|
| **Presennol:** | Swyddogion:<br>Gwern ap Rhisiart (GapRh); Geraint Owen (GO); Alan Edwards (AE); Gareth Jones (GJ); Sioned Hughes (SH);<br><br>Ar ran Llywodraethwyr Ysgol Treferthyr**:**<br>Elin Pugh, Karena Owens, Sioned Roberts, Angela Mansel, Dafydd Williams. |
| **Ymddiheuriadau:** | Eirwyn Williams, Bethan Williams |

| Rhif Eitem | Eitem / Pwnc | Gweithrediad |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso** | • Croesawyd pawb i'r cyfarfod.<br>• Trafodwyd y gwaith a fu'n mynd ymlaen ers y cyfarfod diwethaf.<br>• Nodwyd fod y Cyngor wedi ymrwymo mwy o arian ar gyfer prynu mwy o dir ar safle Capel Uchaf pe bydda angen.<br>• Eglurwyd y problemau oedd wedi ymddangos ar safle Capel Uchaf yn sgil gwneud asesiadau manwl ar y safle. |
| **2.**<br><br>**3.** | **Capel Uchaf** | • Eglurwyd gan GO nad yw'r awdurdod wedi prynu'r tir dim ond wedi cael caniatâd gan y Cabinet i gael mwy o arian pe byddai angen. Pwysleiswyd nad yw'r un o'r ddau safle yn ein meddiant eto.<br>• Eglurwyd taw yn dilyn gwneud arolygon manylach ar safle Capel Uchaf y canfuwyd broblemau eithaf sylweddol ar y safle.<br>• Aethpwyd drwy'r daflen 'Materion sy'n codi ar safle Capel Uchaf' gan AE.<br>• Ategwyd gan GO nad oes modd gwneud archwiliad archeolegol ar y safle oherwydd sefyllfa Covid -19.<br>• Nodwyd fod y bibell ddŵr yn croesi'r safle yn broblem a bydda angen i'r asiant drafod datgyfeirio'r beipen efo'r trigolion yn y tai cyfagos gan mae nhw oedd perchnogion y biben.<br>• Cafwyd esboniad gan GO sut y daeth safle Capel Uchaf i'n sylw yn hwyrach na safleoedd eraill a gwnaed yr archwiliad ecolegol ar y cyfle cyntaf sef yn ystod Gwanwyn 2020. Dyma pryd darganfuwyd y Canglwm Siapaneaidd ar y safle. Eglurwyd y buasai trin y Canglwm Siapaneaidd yn cael effaith andwyol ar amserlen y prosiect ac y byddai angen aros 5 mlynedd cyn cael gwneud unrhyw waith cloddio ar ôl difa'r canglwm.<br>• Eglurwyd y byddai risg i gyllid y prosiect be byddai llithriad sylweddol i'r amserlen. Ni fyddai'r prosiect yn cael ei gwblhau o fewn amserlen Llywodraeth Cymru.<br>• Ychwanegwyd gan GapRh fod popeth a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol wedi ei weithredu arno ac fe sicrhawyd arian ychwanegol ar gyfer prynu mwy o dir. Nodwyd fod y bibell ddŵr a'r canglwm yn golygu ansicrwydd ac oherwydd y problemau na ellir eu goresgyn buasai adeiladu ysgol yma yn anodd iawn. |

| | | |
|---|---|---|
| **4.** | **A497** | • Aethpwyd drwy'r ddogfen 'Addasrwydd Safle A497' gan AE.<br>• Atgoffwyd yr aelodau fod y gwaith yma wedi ei roi i un ochr i raddau gan taw safle Capel Uchaf oedd y safle ffafredig. Aethpwyd yn ôl at y safle yma pan amlygwyd y problemau ar safle Capel Uchaf.<br>• Trafodwyd taw yn ddiweddar mae mwy o waith wedi ei wneud yma er mwyn gwirio nad oes problemau sylweddol ar y safle.<br>• Ymddengys pethau'n well ar y safle hwn fel y mae'r ddogfen yn ei ddangos. |
| **5.** | **Cwestiynau** | • Fel y trafodwyd yn flaenorol cyn y Nadolig mae traffic ar y ffordd yma yn peri gofid. Mae'r Lon Fêl i lawr i Gricieth yn beryglus. Bydd pobl yn debygol o fynd ar y ffordd honno i'r ysgol sef y ffordd gyntaf i lawr i'r ysgol.<br>• Ategwyd gan GO fod hyn yn rhywbeth tu allan i reolaeth y prosiect. Mae'r ffordd yn cael ei defnyddio gan drigolion Cricieth ac mae hi'n ffordd amlwg i'w defnyddio i gyrraedd y dref.<br>• Atgoffwyd yr aelodau nad hon oedd y dewis 1af o ran safle ac nid ydyw am dicio pob bocs.<br>• Cydnabuwyd y byddai'n rhaid newid y brif ffordd ac eglurwyd sut y byddai hynny'n digwydd.<br>• Ategwyd gan GapRh efallai y bydd modd trafod efo'r rhieni pan fydd hi'n briodol gwneud hynny.<br><br>• Mae mwy o dir yma. A fyddai'r safle yn adeilad deulawr?<br>• Eglurwyd gan AE mae'n debygol taw safle deulawr fyddai'r ysgol (split level) ond o'r ffordd A497 byddai'n edrych fel adeilad un llawr ac yna byddai cefn yr ysgol yn ddau lawr. Awgrymwyd y byddai mynd i weld Ysgol Glancegin, Maesgeirchen yn rhoi syniad gwell i'r aelodau o ysgol sydd wedi ei dylunio fel hyn.<br><br>• Oherwydd sefyllfa Covid-19 mae'n bwysig cael mynediad i bob ystafell o ddrws unigol. A fydd y 'normal newydd' yn cael unrhyw effaith ar sut ysgol fydd hi?<br>• Atebwyd gan GapRh ei fod wedi gwirio gyda LlC a oes angen dylunio ysgolion yn wahanol oherwydd Covid-19 ond nid oedd unrhyw beth wedi ei ddatgan eto.<br>• Nodwyd gan GO fod gan Ysgolion Glancegin a Bro Llifon ddrysau yn mynd allan o bob ystafell ddosbarth. Ychwanegwyd fod cyfle i gael dyluniad mwy cyffrous ar safle A497 oherwydd fod mwy o le yma.<br>• Gwnaed y sylw gan Elin Pugh ei bod wedi cerdded heibio yn ddiweddar ac yn meddwl fod y safle yn leoliad braf.<br>• Ategwyd hynny gan GapRh ac eglurodd taw hwylustod i rieni oedd y nôd ond nid felly y mae. Yn anochel, bydd perygl i rhieni yrru eu plant yn eu ceir i'r ysgol ac nid yw hynny'n ddelfryl ond nodwyd taw hwn yw'r unig safle sy'n cynnig ei hun yn addas ar gyfer lleoliad yr ysgol newydd.<br>• Gwnaed y sylw gan Dafydd Williams efallai fod safle A497 yn well opsiwn erbyn rŵan. Ategwyd gan GapRh fod problemau Capel Uchaf yn anodd iawn i'w goresgyn gan fod amserlen y prosiect yn gofyn i'r arian gael ei wario o fewn 5 mlynedd. |
| **6.** | **Amserlen** | • Aethpwyd drwy'r amserlen gan nodi y byddwn nawr yn anelu i agor yn Medi 2023.<br>• Eglurwyd gan GapRh fod y llithriad yn anochel oherwydd oblygiadau cynnwys Ysgol Llanystumdwy yn y trafodaethau cychwynnol, archwiliadau safle Capel Uchaf ac ymdrechion i ymateb iddynt a sefyllfa bresennol Covid-19.<br>• Nodwyd gan Elin Pugh fod pwysau cynyddol wedi dod gan aelodau o'r Corff |

| | | |
|---|---|---|
| | | Llywodraethol i gael gwybod mwy am safle'r ysgol newydd.<br>• Nodwyd gan GapRh yr angen y gynnal y gyfrinachedd cyn i ni gyrraedd y cyfarfod efo'r Corff Llywodraethol llawn fydd yn digwydd ymhen 2-3 wythnos. Eglurwyd pe tai'r safle yn cael ei ddatgleu rŵan byddai risg i bris y tir hwn gynyddu yn sylweddol.<br>• Ategwyd gan GapRh y byddai'n egluro wrth y Corff Llywodraethol llawn pam ein bod wedi gofyn wrth aelodau'r PAL gadw'r gyfrinachedd. Nodwyd y byddai'n fodlon ateb y cwestiwn pam y bu'r gyfrinachedd cyhyd cyn rhannu'r wybodaeth gyda nhw.<br>• Ychwanegwyd wrth ddirwyn y cyfarfod i ben gan GapRh y dylid meddwl yn bositif am y safle ac fod cyfle yma i adeiladu ysgol wych. |
| **7.** | **Cloi** | 17:00 |

# Cricieth Local Review Panel 4

Addysg

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Meeting of:** | Local Review Panel (4th meeting) | **Date:** 24/06/2020 16:00<br>**Venue:** Microsoft Teams Meeting | |

| | |
|---|---|
| **Present:** | Officers:<br>Gwern ap Rhisiart (GapRh); Geraint Owen (GO); Alan Edwards (AE); Gareth Jones (GJ); Sioned Hughes (SH);<br><br>Representing the Governors of Ysgol Treferthyr:<br>Elin Pugh, Karena Owens, Sioned Roberts, Angela Mansel, Dafydd Williams. |
| **Apologies:** | Eirwyn Williams, Bethan Williams |

| Item No. | Item/Subject | Action |
|---|---|---|
| **1.** | **Welcome** | • Everyone was welcomed to the meeting.<br>• The work that had proceeded since the previous meeting was discussed.<br>• It was noted that the Council had committed more funding to purchase more land on the Capel Uchaf site should this be necessary.<br>• The problems that had become evident on the Capel Uchaf site following detailed assessments of the site were explained. |
| **2.**<br>**3.** | **Capel Uchaf** | • GO explained that the Authority had not purchased the land but that it had received the Cabinet's permission to get more money should the need arise. It was emphasised that neither of the two sites were currently in our ownership yet.<br>• It was explained that quite significant problems had been discovered on the Capel Uchaf site after more detailed surveys had been conducted on the site.<br>• AE went through the 'Matters Arising on the Capel Uchaf site' handout.<br>• GO confirmed that it was not possible to conduct an archaeological survey of the site because of the COVID-19 situation.<br>• It was noted that the water pipe crossing the site was a problem and that the agent would need to discuss diverting the pipe with residents of nearby houses as they were the owners of the pipe.<br>• GO explained how the Capel Uchaf site had come to our attention later than the other sites and that the ecological survey had been conducted at the earliest opportunity, i.e. during spring 2020. This was when Japanese knotweed had been found on the site. It was explained that treating the Japanese knotweed would have a detrimental effect on the project timetable and that any excavation work would have to be delayed for five years after eradicating the knotweed.<br>• It was explained that there was a risk to project funding if the timetable fell behind significantly. The project would not be completed within the Welsh Government's timetable.<br>• GapRh added that action had been taken on everything discussed at the previous meeting and that additional funding had been secured to purchase more land. It was reported that the water pipe and knotweed resulted in uncertainty and that due to insurmountable problems, building a school here would prove very difficult. |

| | | |
|---|---|---|
| **4.** | **A497** | • AE went through the 'A497 Site Suitability' document.<br>• Members were reminded that this work had been put to one side to some extent because the Capel Uchaf site had been the preferred site. There was a return to this site when problems were highlighted on the Capel Uchaf site.<br>• It was discussed that more work had been undertaken on this site recently in order to check that there were no significant problems on the site.<br>• It appeared that things were better on this site as the document indicated. |
| **5.** | **Questions** | • As had been previously discussed before Christmas, the traffic on this road caused concern. Lon Fêl down to Cricieth was dangerous. People were likely to use this road to the school as it was the quickest route to the school.<br>• GO added that this was outside the project's control. The road was used by Cricieth residents and was an obvious route to use to reach the town.<br>• Members were reminded that this was not the first choice of site and that it would not tick every box.<br>• It was acknowledged that the highway would have to be modified and it was explained how this would happen.<br>• GapRh added that it might be possible to hold a discussion with parents when appropriate.<br><br>• There was more land here. Would there be a two-storey building on the site?<br>• AE explained that the school was likely to be a two-storey building (split level) but that from the A497 it would look like a single-storey building and the back of the school would be two storeys. It was suggested that viewing Ysgol Glancegin, Maesgeirchen would provide the members with a better idea of a school designed in this way.<br><br>• Because of the COVID-19 situation, it was important to have access to each room from a single door. Would the 'new normal' have any impact on what type of school it would be?<br>• GapRh replied that he had checked with WG whether school designs need to be adapted because of COVID-19 but had received no announcement as yet.<br>• GO noted that Ysgol Glancegin and Ysgol Bro Llifon had doors to the outside from each classroom. It was added that there was scope to have a more exciting design on the A497 site because there was more room here.<br>• Elin Pugh commented that she had walked by recently and had thought that the site was in a pleasant location.<br>• This was reiterated by GapRh, and he explained that convenience for parents was the aim but that this wasn't the case. Inevitably, there was a risk that parents would drive their children to school by car and this was not ideal, but it was noted that this was the only site that offered itself as being suitable as a location for a new school.<br>• Dafydd Williams commented that the A497 site might now be a better option. GapRh confirmed that the problems with Capel Uchaf were very difficult to overcome as the project timetable required funding to be spent within five years. |
| **6.** | **Timetable** | • The timetable was considered, noting that we would now aim to open in September 2023. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • GapRh explained that the slippage was inevitable due to the implications of including Ysgol Llanystumdwy in the initial discussions, investigations on the Capel Uchaf site and efforts to respond to these, and the current COVID-19 situation.<br>• Elin Pugh noted that increasing pressure came from members of the Governing Body to know more about the new school site.<br>• GapRh noted the need to maintain confidentiality prior to the meeting with the full Governing Body that would take place in two to three weeks. It was explained that if the site was disclosed now, there was a risk that the price of this land would increase significantly.<br>• GapRh added that he would explain to the full Governing Body why we had asked LRP members to maintain confidentiality. It was noted that he would be prepared to answer the question of why confidentiality had been maintained for so long before the information was shared with them.<br>• In drawing the meeting to a close, GapRh added that the site should be regarded positively and that there was an opportunity here to build an excellent school. |
| **7.** | **Conclusion** | 17:00 |

# Atodiad B

# Asesiadau Effaith
# Ysgol newydd i Gricieth



| | |
|---|---|
| Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned | 1 |
| Asesiad Effaith Ieithyddol | 11 |
| Asesiad Llesiant | 21 |
| Asesiad Cydraddoldeb | 30 |



# Adroddiad Asesu Effaith ar y Gymuned Ysgol Treferthyr

- Medi 2020

# Cynnwys


1. CYFLWYNIAD
2. OPSIYNAU
3. CRYNODEB O'R DALGYLCH
4. YSGOLION Y DALGYLCH
5. ASESIAD O'R EFFAITH DEBYGOL AR Y GYMUNED
6. CASGLIADAU

## 1. CYFLWYNIAD

**Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif**

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cychwyn ail wedd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) bydd yn cychwyn yn Ebrill 2019 ac yn rhedeg hyd at 2026. Cyflwynodd Cyngor Gwynedd gais yn dilyn cynnal ymarferiad blaenoriaethu yn seiliedig ar anghenion yr Awdurdod a gofynion Llywodraeth Cymru a arweiniodd at adnabod 5 prosiect ar gyfer cais yr Awdurdod.

Adnabuwyd yr angen i wella darpariaeth gynradd yng Nghricieth fel rhan o'r cais hwn ar y sail fod arolygon wedi adnabod fod cyflwr adeiladau Ysgol Treferthyr yng nghategori C, golygir hyn fod nifer o ddiffygion yng nghyflwr yr adeiladau, a'u bod yn aneconomaidd parhau ceisio cynnal yr adeiladau yn y dyfodol.

Ar yr 2il o Ebrill 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg 'gychwyn trafodaethau lleol er mwyn adnabod opsiynau ar gyfer adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth, fel canlyniad i gyflwr gwael adeiladau presennol Ysgol Treferthyr.'

Golyga hyn, fel rhan o'r broses statudol, fod angen asesu'r effaith debygol ar y gymuned, yn achos pob opsiwn rhesymol, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Mae'r asesiad hwn yn deillio o ganllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion.

Mae Ysgol Treferthyr wedi'i lleoli yng nghanol tref Cricieth. Mae gan yr ysgol capasiti o 119, gyda 114 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd (Medi 2019) a cheir pum dosbarth oed cymysg yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion (104) yn dod o ddalgylch Ysgol Treferthyr, gyda 10 disgybl ychwanegol yn dod o ddalgylchoedd eraill cyfagos. Cafwyd arolygiad Estyn yn 2018, gyda'r 5 maes arolygu craidd wedi ei asesu yn "Da". Mae'r adolygiad hefyd yn nodi bod y disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned gyda chyfraniad brwdfrydig ganddynt tuag at gyngherddau lleol a Gŵyl Cricieth.

## 2. OPSIYNAU

Yn ystod y trafodaethau lleol, bu i Panel Adolygu Lleol, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o Gorff Llywodraethol Ysgol Treferthyr, ystyried nifer o safleoedd posib ar gyfer adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth. Ar ddechrau'r drafodaeth roedd 11 safle wedi eu hadnabod i'w ystyried ar gyfer adeiladu ysgol newydd, gyda chapasiti ar gyfer 150 disgybl, i gymryd lle ysgol bresennol Ysgol Treferthyr.

Mae lleoliad y safleoedd posib i'w gweld yn y map isod:




Canlyniad y trafodaethau oedd y bu i'r aelodau gytuno rhestr fer o 4 safle i'w ystyried ymhellach yn dilyn PAL2. Gwnaed asesiadau manylach o'r safleoedd rheini yn PAL 3 gan gytuno i wneud gwaith pellach ar 2 safle posib, sef Safle Capel Uchaf a Safle A497.

Yn dilyn ystyried archwiliadau a gwaith pellach ar y 2 safle yma cytunwyd ar Safle A497 fel safle ffafredig yng nghyfarfod PAL4.

## 3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

### 3.1 Yr Ardal

Tref glan y môr yw Cricieth yn ardal Eifionydd o Wynedd. Mae'r dref 5 milltir i'r gorllewin o Borthmadog, 8 milltir i'r dwyrain o Bwllheli ac 18 milltir i'r de o Gaernarfon. Hen dref yw Cricieth ac mae'r castell hynafol sydd yno yn dyst i hynny.

Mae'r dalgylch sy'n cwmpasu tref Cricieth yn cynnwys pentrefi Llanystumdwy, Rhoslan, a Phentrefelin.

### 3.2 Yr Economi

Mae economi'r ardal yn ddibynnol iawn ar nifer fechan o sectorau amlwg, sef y sector masnach gyfanwerthu a manwerthu, gwestai ac arlwyo a'r sector iechyd dynol a gwaith cymdeithasol. O ran cyfleodd cyflogaeth mae 17.4% o'r boblogaeth sydd mewn cyflogaeth (boed yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig) yn cael eu cyflogi yn y sector a nodir gyntaf uchod, 17.1% yn gweithio yn yr ail a 13.2% yn y trydydd.

### 3.3 Amddifadedd

Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (Malc) mae Cricieth wedi'i raddio 1685 allan o 1909 AGEHI yng Nghymru, sy'n ei roi yn y 50% lleiaf difreintiedig yng Ngwynedd.

Mae crynodeb isod o sut mae dalgylch Cricieth wedi ei leoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014):

| Maes | Safle yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd.<br>1 = mwyaf difreintiedig<br>1909 = lleiaf difreintiedig | Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru |
|---|---|---|
| Cyflogaeth | 1530 | Yn y 50% lleiaf difreintiedig |
| Incwm | 1415 | Yn y 50% lleiaf difreintiedig |
| Iechyd | 1433 | Yn y 50% lleiaf difreintiedig |
| Addysg | 1533 | Yn y 50% lleiaf difreintiedig |
| Tai | 1237 | Yn y 50% lleiaf difreintiedig |
| Amgylchedd ffisegol | 1909 | Yn y 50% lleiaf difreintiedig |
| Mynediad i wasanaethau | 1221 | Yn y 50% lleiaf difreintiedig |
| Diogelwch cymunedol | 1033 | Yn y 50% lleiaf difreintiedig |

### 3.4 Y Gymuned

Dengys y tabl isod pa fath o wasanaethau sydd yn y gymuned yn nalgylch Ysgol Treferthyr:

| | Dalgylch Ysgol Treferthyr (Cricieth) |
|---|---|
| **Canolfan Gymuned Neuadd Bentref** | √ |
| **Capel/Eglwys** | √ |
| **Trafnidiaeth Gyhoeddus** | √ |
| **Siop** | √ |
| **Caffi/Tafarn** | √ |
| **Swyddfa Bost** | √ |
| **Meddygfa/Fferyllfa** | √ |
| **Llyfrgell** | √ |
| **Cae Chwarae Plant** | √ |
| **Banc** | x |
| **Cartref Henoed** | √ |
| **Canolfan Hamdden** | x |
| **Garej** | √ |
| **Atyniad Twristaidd** | √ |
| **Cylch Ti a Fi + Meithrin** | √ |

Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yng Nghricieth, gan gynnwys;

- Canolfan dydd henoed
- Merched y Wawr
- Gweithgareddau a pherfformiadau amrywiol yn y Neuadd Goffa
- Cae Chwarae
- Gŵyl Gricieth
- Clwb Bowlio
- Ffair Cricieth
- Golff

### 3.5 Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)** | x |
| **Aelwyd yr Urdd** | √ |
| **Dramâu** | x |
| **Grwpiau Gwirfoddol** | √ |
| **Bore/Noson Goffi** | x |
| **Arwerthiant Cymunedol** | x |
| **Llyfrgell Gymunedol** | x |
| **Ymarfer Côr** | √ |
| **Cymraeg i Oedolion** | x |
| **Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned** | x |
| **Cylch/Ysgol Feithrin** | √ |

## 4. YSGOLION Y DALGYLCH

### 4.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn bydd awduron yr adroddiadau, sef yr arolygwyr, yn gosod yr ysgolion o fewn cyd-destun ac yn manylu ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Treferthyr gan arolygwyr Estyn yn dilyn arolwg yn Ebrill 2018.

**Ysgol Treferthyr**

'Mae Ysgol Treferthyr yn nhref glan y môr Cricieth yng Ngwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 112 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 14 oed meithrin rhan-amser. Fe'u rhennir yn 5 dosbarth oedran cymysg.'

### 4.2 Gwybodaeth ystadegol Ysgol Treferthyr ac ysgolion cyfagos

Dengys y tabl isod niferoedd Ysgol Treferthyr a'r ysgolion cyfagos eraill, o Flwyddyn Meithrin i Flwyddyn 6. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti'r ysgolion, a'r nifer o lefydd gweigion. Mae dwy o'r ysgolion hyn yn ysgolion cymunedol ac un yn ysgol Eglwysig ac maent oll yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

| Ysgol | Capasiti | Nifer ar y gofrestr Ionawr 2020 (M – Bl6) | Categori Cyfreithiol |
|---|---|---|---|
| **Treferthyr** | 119 | 116 | **Ysgol Gymunedol** |
| **Llanystumdwy** | 53 | 22 | **Ysgol Eglwysig** |
2.2 Yn y cychwyn, bu i'r Gwasanaeth Cynllunio dderbyn nifer isel o ymholiadau am sut i weithredu'r Cod Gwirfoddol ond yn dilyn hyn, ac os nad oeddent wedi gwneud yn barod, bu i'r mwyafrif helaeth o asiantwyr weithredu yn unol gyda gofynion y Cod Gwirfoddol. Roedd hyn wedyn yn galluogi'r Gwasanaeth Cynllunio i dargedu'r cwmni(au) nad oedd yn cydymffurfio gyda gofynion y Cod Gwirfoddol. Gwnaeth y sefyllfa wedyn wella yn sylweddol yn sgil y gwaith targedu.

2.3 O fonitro'r sefyllfa yn rheolaidd, derbyn adborth positif ac o adolygu'r sefyllfa yn ffurfiol yn ystod Haf 2020 (drwy ymweld â'r strydoedd sy'n destun y Cod Gwirfoddol) mae'n amlwg fod:

- Mabwysiadu'r Cod Gwirfoddol wedi bod yn llwyddiannus iawn. Yn **Atodiad 2** ceir lluniau diweddar o'r strydoedd oedd ymysg y rhai gwaethaf sef Ffordd y Coleg, Caellepa, Stryd Fictoria, Ffordd Deiniol a Lon y Gogarth fel enghraifft.
- Nifer isel o arwyddion o fath a ganiateir gan y Cod Gwirfoddol sydd wedi cael eu gosod.
- Mwyafrif o asiantwyr wedi peidio gosod unrhyw arwydd 'Ar Osod' er bod y Cod Gwirfoddol yn caniatáu un arwydd o faint a math sbesiffig wedi ei osod yn llyfn ar flaen yr eiddo.
- Rhai asiantwyr wedi gosod arwyddion llai o faint (o faint plac sy'n arddangos rhif tŷ) sydd yn cael hyd yn oed llai o effaith weledol na'r rhai a ganiateir gan y Cod Gwirfoddol.
- Rhai arwyddion (ond yn nifer isel iawn) wedi eu gosod yn ddiweddar gan gwmnïau neu landlord preifat newydd nad oedd yn rhan o'r trafodaethau am y Cod Gwirfoddol. Felly mae angen cysylltu gyda nhw i egluro'r sefyllfa a'u gwybyddu o'r Cod Gwirfoddol er mwyn sicrhau fod ei lwyddiant yn parhau.

**UNRHYW YMGYNGHORIAD A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Roedd y camau ymgynghori wedi digwydd cyn cyflwyno'r Cod Gwirfoddol i'r Cabinet am gymeradwyaeth yn Hydref 2018 ac nid oes ymgynghori pellach wedi digwydd fel rhan o broses monitro llwyddiant y Cod Gwirfoddol.

**CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Cysylltu gyda landlordiaid ac asiantwyr newydd i'w gwybyddu am y Cod Gwirfoddol a pharhau i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Cod Gwirfoddol ar gyfer rheolaeth o arwyddion ar osod ym Mangor.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn tanlinellu buddion cyd-weithio a threfniadau gwirfoddol fel opsiwn amgen a modd o osgoi'r angen am weithredu ffurfiol.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Deallaf gofynnir i'r Cabinet dderbyn canlyniad y gwaith monitro er gwybodaeth. Felly, does gen i ddim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

---

**Atodiadau**

ATODIAD 1 Cod Gwirfoddol
ATODIAD 2 Lluniau Strydoedd

# Arweiniad ar gyfer Landlordiaid/Asiantau Gosod: Ar ddefnydd arwyddion ‘Ar osod’ preswyl

# *Guidance for Landlords/ Letting Agents: On the use of residential ‘To let’ signs*



Ebrill 2019
April 2019

# **Pam fod angen rheolaeth? / *Why is control needed?***

Dros y blynyddoedd diwethaf mae arwyddion 'ar osod' wedi ymestyn ar draws y Ddinas a bu i'r niferoedd gynyddu i'r pwynt ble roedd y sefyllfa yn amharu ar fwynderau gweledol y ddinas. Yn ddarostyngedig i feini prawf penodol, mae arwyddion 'ar osod' yn cael caniatad tybiedig o dan Atodiad 3 o'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992. Er hynny, mae'r rhan fwyaf o'r meini prawf ar gyfer y caniatad tybiedig yn cael eu torri'n gyson, yn benaf trwy;

- Arddangos arwyddion sy'n dynodi fod cytundeb i osod yr eiddo eisoes wedi digwydd ac/neu fod eraill ar gael.
- Beidio tynnu arwyddion o fewn 14 diwrnod yn dilyn cytundeb tenantiaeth.
- Arddangos mwy na 1 neu 2 fwrdd wedi'i gyfuno ar gyfer yr eiddo mae wedi ei arddangos.

*Over the past years 'to let' signs have proliferated throughout most of the City and the increase in numbers has created a situation were the visual amenities of the city is greatly affected. Subject to specific criteria the display of 'to let' signs is permitted by deemed consent under Schedule 3 of the Town and Country (Control of Advertisements) Regulations 1992. Despite this, most of the criteria for the deemed consent have been consistently broken, predominately through;*

- *The display of signs indicating that the property has been let and/or that others are available.*
- *Not removing signs within 14 days following a let agreement.*
- *Displaying more than 1 or 2 joined boards for the property that they are displayed on.*






Esiamplau o arwydd yn dynodi fod cytundeb eisoes wedi digwydd ac mwy nac un bwrdd ar un eiddo /
Examples of signs indicating that a property has already been let & more than one board on a property.

## **Gorfodaeth / *Enforcement***

Oherwydd nifer uchel o arwyddion ym Mangor mae ymdrechion blaenorol yr Awdurdod Cynllunio Lleol i fynd i'r afael â'r broblem wedi dangos ei bod yn cymryd llawer o amser ac yn gostus i sefydlu pa arwyddion sy'n anghyfreithlon. Os bydd cyflwyno'r côd gwirfoddol yn llwyddiannus, fe fydd yn hwyluso'r gwaith o orfodi rheoliadau hysbysebion ac yn osgoi'r angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud cais am gyfarwyddyd o dan Rheoliad 7 i ddiddymu hawliau 'caniatad tybiedig' am arwyddion 'ar osod'. Buasai diddymu'r hawliau 'caniatad tybiedig' yn golygu ydd pob arwydd 'ar osod' angen caniatad penodol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

*Because of the high number of signs in Bangor, previous attempts by the Local Planning Authority to get to grips with problem have failed as it has proven extremely time consuming and expensive to establish which signs are unlawful. If the voluntary code is successful, it will ease the work of enforcing advertising regulations and will avoid the need for the Local Planning Authority to apply for a direction under Regulation 7 to restrict deemed consent rights for 'to let' signs. The removal of the deemed consent rights would mean that all 'to let' signs would require express consent from the Local Planning Authority.*







Gweler atodiadau yn dangos ardaloedd o'r ddinas gyda'r niferoedd uchaf o'r arwyddion / *See appendices showing areas of the city with the highest density of signs.*

# Meini prawf ar gyfer arwyddion derbyniol

1. Caniateir **dim ond un arwydd ar bob adeilad**, hyd yn oed os yw'r adeilad wedi ei is-rannu yn fflatiau, stiwdios neu debyg. Mae hyn hefyd yn weithredol i flociau o fflatiau lle caniateir i roi un arwydd wrth y brif fynedfa.

2. A) Bydd unrhyw arwydd angen cael ei **fowntio yn llyfn (flush) i'r mur uwchben y drws ar flaen yr adeilad**, neu os nad yw hynny'n bosib caiff ei fowntio yn llyfn â'r mur sydd ar ochr y stryd. Yn y ddau achos **ni chaniateir unrhyw ddarn o'r arwydd i fod yn uwch na sil ffenestr llawr cyntaf**. Ni chaniateir unrhyw arwyddion ar dalcen tŷ, edrychiad gwag ac ail edrychiad neu furiau terfyn tu blaen yr eiddo neu nodweddion o fath tebyg.
   B) Yn ail, os nad yw yn bosib mowntio arwydd yn llyfn â'r mur (oherwydd arwyneb anarferol neu bresenoldeb nodweddion pensaernïol/addurnol), caniateir arddangos yr arwydd yn y ffenestr llawr gwaelod sy'n gwynebu'r stryd.

3. Dylid pob arwydd gael **cefndir gwyn** a chydymffurfio gyda'r dimensiynau yma (uchder x lled): **34cm x 48cm neu 48cm x 34cm**. Mae'r maint yma yn ddigonol i'r wybodaeth hanfodol gael ei arddangos yn glir.

4. Caniateir **un logo** cwmni i bob arwydd, rhaid i'r logo beidio â bod yn fwy nag **un thraean** o faint cyfanswm y bwrdd. Caniateir i'r logo â'r testun fod yn **ddu ac un lliw soled arall ond ni chaniateir unrhyw liwiau fflwroleuol neu effaith arbennig**. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn barod i gadarnhau priodoldeb unrhyw arwyddion cyn iddynt gael eu gosod.

5. Ni chaniatei'r i unrhyw arwyddion nodi **'Wedi i'w osod gan', 'Gosod', 'Angen Mwy', 'Eraill ar Gael'** neu eiriad tebyg.

6. Caniateir **un arwydd ar gyfer pob perchennog/asiant/cwmni dilys ar bob stryd**.

7. Dylid **tynnu unrhyw arwydd o fewn 14 diwrnod** yn dilyn cwblhau cytundeb tenantiaeth sy'n berthnasol i'r arwydd.

8. Mae'r Cyngor yn annog i **bob arwydd** fod yn **ddwyieithog**.

**Noder: Mae'r côd yn weithredol ar strydoedd wedi eu lliwio yn las ar yr atodiadau.**

# Criteria for acceptable boards

1. Only **one board per building** will be permitted, even if that building has been converted into flats, studios or similar. The same applies to blocks of flats, where it may be appropriate to have one board by the main entrance.

2. A) The board shall be **mounted flush to the wall above the front door**, or if that is not possible, it shall be mounted flush to the wall on the street frontage elevation. In either instance, **no part of the board shall be higher than first floor window sill level**. No boards will be permitted on gable ends, blank or secondary elevations or on front boundary walls or other similar features.
B) Alternatively, if the board cannot be fixed flush to the wall (due to an irregular surface or the presence of decorative/architectural features) the board shall be displayed internally in a ground floor window facing the street frontage.

3. Each board shall have a **white background** and will conform to the following dimensions (height x width): **34cm x 48cm or 48cm x 34cm**. This size is large enough to enable the important and essential information to be displayed clearly.



4. **One company logo per board** will be permitted, provided the **logo does not exceed one third of the overall size** of the advertising board. Logos and text will **be permitted in black and any one colour** provided it is a single uniform colour, **fluorescent colours or special effects are not used**. The Local Planning Authority will be happy to confirm the suitability of proposed boards prior to them being displayed.

5. Boards marked with **'Let by', 'Let', 'More Wanted', 'Others Available'** or similar wording are **prohibited.**

6. **One board shall be permitted per landlord/agent / valid company per street.**

7. Letting boards **shall be removed no later than 14 days** after the granting of a tenancy for the room, house or flat to which it relates.

8. The Council encourages **all signs** to be **bilingual**.

**Note: The code is to be applied for the streets shown blue on the appendices.**

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**Esiampl o ddefnydd cywir o'r meini prawf / *Examples of correct use of the criteria***






O fewn yr Ardaloedd Cadwraeth ac ar Adeiladau Rhestredig , dylid osgoi malurio'r bricwaith / carregwaith a'r breuan. Fe ddylai pwyll gael ei gymryd rhag difrodi unrhyw nodweddion addurniadol /*Within the Conservation Areas and on Listed Buildings damage to brickwork/stonework and/or mortar should be avoided. Care should also be taken to avoid damaging any decorative features.*

Cofiwch fod angen Caniatad Adeilad Rhestredig ar gyfer unrhyw arwydd sydd i'w osod ar adeilad rhestredig / *By minded that any sign to be affixed to a Listed Building will require Listed Building Consent.*

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

<u>Esiampl o ddefnydd cywir o’r meini prawf /</u>
<u>*Examples of correct use of the criteria*</u>









## Arwyddion / Hysbysebion a’r Iaith Gymraeg

Mae Cyngor Gwynedd yn annog arwyddion dwyieithog yn unol a Pholisi Strategol PS1: ‘Yr Iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig’ o’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011- 2026.

Mae Canllawiau Cynllunio (Cymru) Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 20, Yr Iaith Gymraeg – Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Cynllunio, yn nodi: “**Gall arwyddion gael effaith amlwg iawn ar gymeriad ardal, gan gynnwys ei chymeriad ieithyddol. Maent hefyd yn un ffordd o hybu diwylliant unigryw Cymru, sy’n arwyddocaol o safbwynt hunaniaeth gwahanol gymunedau a’r diwydiant twristiaeth”.**



## ***Signs/Advertisments and the Welsh Language***

*Gwynedd Council encourage the use of bilingual signs in accordance with Strategic Policy PS1: ‘Welsh Language and Culture’ of the Anglesey and Gwynedd Joint Local Development Plan 2011- 2026.*

*The Planning Guidance (Wales) Technical Advice Note (Wales) 20, The Welsh Language, – Unitary Development Plans and Planning Control, states: “**Signs can have a very visible impact on the character of an area, including its linguistics character. They are also one method of providing the distinctive culture of Wales, which is of significance both to the identity of individual communities as well as the tourism industry”.***

## Cyswllt / *Contact*

Pe baech angen cadarnhad o addasrwydd eich arwydd **cyn** ei osod neu os oes ganddo'ch unrhyw gwestiwn am arwyddion 'Ar Osod' cysylltwch â / *If you require confirmation on the suitability of your sign* ***prior*** *to its display or have any question with regards to 'To Let' signs, please contact:*

Gwasanaeth Cynllunio/ *Planning Service*,
Swyddfa'r Cyngor,
Ffordd y Cob,
Pwllheli,
Gwynedd,
LL53 5AA
01766 771000
cynllunio@gwynedd.llyw.cymru

## <u>Atodiad 1: Strydoedd lle mae'r côd yn cael ei weithredu / *Appendix 1: Streets where the code will apply*</u>



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd

**Mae'r côd yn weithredol ar strydoedd wedi eu lliwio yn las / *The code is to be applied for the streets shown blue.***

# Atodiad 2: Strydoedd lle mae'r côd yn cael ei weithredu / *Appendix 2: Streets where the code will apply*



Mae'r côd yn weithredol ar strydoedd wedi eu lliwio yn las / *The code is to be applied for the streets shown blue.*

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd

## Atodiad 3: Strydoedd lle mae'r côd yn cael ei weithredu / *Appendix 3: Streets where the code will apply*





Mae'r côd yn weithredol ar strydoedd wedi eu lliwio yn las / *The code is to be applied for the streets shown blue.*

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd





Ffordd y Coleg cyn ac ar ol mabwysiadu’r Cod Gwirfoddol







Ffordd Caergybi cyn ac ar ol mabwysiadu’r Cod Gwirfoddol








Ffordd Deiniol cyn ac ar ol mabwysiadu’r Cod







Caellepa cyn ac ar ol mabwysaidu’r Cod Gwirfoddol







Ffordd y Gogarth cyn ac ar ol mabwysiadu’r Cod Gwirfoddol







Stryd Fictoria Bangor Uchaf cyn ac ar ol mabwysiadu’r Cod Gwirfoddol













Enghreifftiau o’r arwyddion sydd i’w gweld yn yr ardal. Mae’r arwydd llai yn nodi safle we y landlord arno.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod y Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 Hydref 2020** |
| **Adroddiad gan:** | **Dyfrig Siencyn, Arweinydd** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Covid-19 – Paratoadau ar gyfer ail don** |

**Penderfyniad a geisir**

Derbyn y diweddariad ar y trefniadau sydd mewn lle i baratoi ar gyfer ail don posibl Covid-19.

**Cefndir**

1. Mae'r data diweddaraf yn amlygu'r ffaith fod yna lawer o ardaloedd yng Nghymru yn wynebu nifer cynyddol o achosion Covid-19, ac mae hynny wedi esgor ar gyfyngiadau pellach yn yr ardaloedd hynny.

2. Mae ffigyrau achosion Gwynedd yn parhau yn gymharol isel (20 o achosion yn y 7 diwrnod diwethaf ar adeg paratoi'r adroddiad yma) ond maent yn uwch nag unrhyw gyfnod wythnosol ers mis Mehefin. Rhaid bod yn fyw hefyd i'r ffaith y gall sefyllfa newid yn eithriadol o sydyn unwaith y gwelwn gynnydd. Mae'n bwysig felly nad ydym yn gorwedd ar ein rhwyfau ac yn sicrhau bod gennym drefniadau priodol mewn lle ar gyfer dygymod a'r sefyllfa pe cyfyd ail don o'r haint.

3. Mae yna nifer o fodelau wedi cael eu llunio gan y Llywodraeth er mwyn ceisio darlunio beth allasai ddigwydd i'r dyfodol ac maent wedi datblygu "senario achos gwaethaf rhesymol" er mwyn galluogi asiantaethau cyhoeddus i gynllunio ar gyfer y cyfnod i ddod.

4. Maent wedi cyhoeddi papur ar yr hyn y mae'r senario yn ei olygu gan bwysleisio nad rhagamcan o beth **sydd am ddigwydd** ydyw ond yn hytrach, yn asesiad o'r sefyllfa waethaf **allasai** ddigwydd. Gellir gweld papur ar y tybiaethau yma a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth drwy ddilyn y linc isod.

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-09/grwp-cynghori-technegol-senari-waethaf-y-maen-rhesymol-ei-thybied-newydd-ar-gyfer-y-gaeaf.pdf

5. Yn naturiol rydym wedi derbyn gwybodaeth fanylach o ran yr hyn sydd y tu ôl i'r ffigyrau bras yn y papur ac mae ein huned ymchwil a gwybodaeth yn defnyddio hyn i roi'r wybodaeth i wasanaethau sydd ei angen er mwyn iddynt ystyried sut y byddem yn dygymod gyda'r fath senario.

**Trefniadau Gwaith y Cyngor**

6. Os ydym am wynebu ail don, yn amlwg mae'r ffaith ein bod wedi dygymod gyda'r don gyntaf yn golygu ein bod yn fwy parod i wynebu ail don posibl.

7. Mae'r Penaethiaid Adran o fewn y Cyngor yn adrodd fod yna nifer o wersi wedi eu dysgu yn ystod y cyfnod Chwefror i Fehefin eleni a'u bod wedi ymgorffori unrhyw wersi a ddysgwyd yn ystod y don gyntaf yn barod yn ein trefniadau gwaith. Fe ddylai'r addasiadau hynny ein gwneud yn fwy gwydn pe byddem yn gweld ail don felly.

8. Gan nad ydym wedi dadwneud rhai o'r addasiadau i drefniadau gwaith a sefydlwyd mae hynny hefyd am ein helpu. Er enghraifft, gan ein bod yn parhau i weithredu drwy ofyn i staff weithio gartref mae'r trefniadau hynny yn eu lle yn barod a byddwn yn gallu parhau i redeg gwasanaethau yn effeithiol drwy'r dull hwnnw.

9. Un o'r trafferthion mawr a gafwyd ar ddechrau'r don gyntaf oedd diffyg offer gwarchod personol (PPE) a'r galw sylweddol uwch amdano. Rhoddwyd trefniadau dosbarthu corfforaethol mewn lle ar gyfer sicrhau trefn strwythurol er mwyn gwneud hynny. Ar y cychwyn, roedd hynny yn golygu defnyddio Siambr Dafydd Orwig fel warws ar ei gyfer, ond erbyn hyn, mae gennym storfa benodol ar ei gyfer ac 'rydym hefyd wedi llwyddo i gronni'r deunyddiau angenrheidiol sydd yn ein rhoi mewn sefyllfa llawer cryfach o fod yn wynebu ail don.

10. Yn amlwg, un o'r risgiau uchaf sydd gennym o ran effaith ar ein trigolion yw'r meysydd gofal sy'n cynnwys y maes plant; oedolion a digartrefedd. Yn sicr, mae'r adrannau yma wedi dysgu nifer o wersi yn ystod y don gyntaf ac wedi addasu yn ôl y dysgu hwnnw. Yn arbennig felly, o fewn y maes oedolion, 'rydym yn cynnig gwasanaethau i dros 3,300 o unigolion bregus ac mae hyn yn amlwg yn ardal risg sylweddol. Mae'r adran wedi bod yn cydweithio gyda Iechyd dros y misoedd diwethaf er mwyn ceisio sicrhau gwydnwch pe cyfyd ail don.

11. Serch hynny, un agwedd sy'n ein pryderu yw'r perygl o weld cyfuniad o gynnydd yn y galw a lleihad sylweddol mewn adnoddau gyda'i gilydd (wrth i staff fynd yn sâl neu orfod hunan ynysu).

12. Mae yna gynllun parhad gwasanaeth yn ei le sy'n seiliedig ar y ffigyrau y tu ôl i'r senario achos gwaethaf uchod ond tra bod modd sicrhau'r adnodd ffisegol y gallasem fod ei angen efallai'r cyfyngiad allweddol fyddai staffio.

13. Mae yna adroddiad arall yn cael ei gyflwyno i gyfarch y mater hwn er ystyriaeth gan y Cabinet.

14. Mae yna waith yn mynd ymlaen hefyd i sicrhau bod y ddarpariaeth briodol gennym pe byddai angen gwneud hynny i symud staff o fod yn cyflawni swyddogaethau o flaenoriaeth is i'r meysydd blaenoriaeth uwch pe byddem yn wynebu gwir argyfwng.

15. Un agwedd a weithiodd yn arbennig o dda yn ystod y don gyntaf oedd y tîm a roddwyd at ei gilydd i gefnogi'r rhai hynny oedd yn gwarchod ac i ymateb i unigolion oedd yn cysylltu gyda'r Cyngor oherwydd eu bod angen cymorth cyffredinol.

16. Fe grëwyd y tîm yma drwy drosglwyddo swyddogion o amrywiol wasanaethau o fewn y Cyngor a thra bod y rhan fwyaf o'r swyddogion hynny bellach wedi dychwelyd i'w meysydd gwaith arferol mae yna drefniadau ar droed i sicrhau fod gennym gynllun clir ar gyfer medru ail sefydlu'r Uned honno yn llyfn pe cyfyd yr angen yn y dyfodol.

17. Un agwedd o waith newydd sydd yn ymateb i'r angen i gadw rheolaeth dros ledaeniad yr haint yw'r gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu.

18. Mae'r Adran Amgylchedd yn rhedeg y gwasanaeth yma yng Ngwynedd ac ariannwyd yr Uned drwy gais grant a wnaed ar y cyd gyda chynghorau eraill yn y Gogledd. Ar hyn o bryd mae'r Uned yn gweithio'n effeithiol gyda niferoedd achosion positif wedi cynyddu o gyfansymiau wythnosol oedd mewn ffigyrau sengl isel ym mis Awst i ffigyrau wythnosol o tua 15 erbyn hyn. Fodd bynnag mae'r nifer "cysylltiadau" sydd ynghlwm a bob achos wedi cynyddu'n sylweddol sy'n cynyddu'r gwaith wrth gwrs.

19. Serch hynny, os gwelwn sefyllfa fel yr hyn sy'n cael ei ddarlunio yn y senario achos gwaethaf rhesymol uchod bydd angen sicrhau bod yr Uned yn parhau i fod yn wydn.

20. Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd ar y cyd gyda'r awdurdodau lleol yn y Gogledd lunio Cynllun Atal ac Ymateb Lleol ar gyfer Gogledd Cymru ac mae hwnnw wedi cael ei lunio. Ynddo mae'n nodi y bydd awdurdodau lleol yn sefydlu trefniadau Atal a Gwyliadwriaeth i gadw golwg ar beth sydd yn digwydd o fewn y siroedd unigol ac i drafod ymatebion posibl.

21. Yng Ngwynedd, sefydlwyd grŵp dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Adran Amgylchedd. Mae'r Grŵp hefyd yn cynnwys swyddogion o'r Adran Amgylchedd, Addysg, Oedolion a Chefnogaeth Gorfforaethol ynghyd a chynrychiolwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru a Phrifysgol Bangor. Maent newydd ddechrau cwrdd yn wythnosol ac o'r wythnos hon ymlaen bydd yna adroddiad o'r sefyllfa yn cael ei darparu ar gyfer y Prif Weithredwr, finnau a'r Dirprwy Arweinydd.

22. Pe cyrhaeddwyd sefyllfa lle byddai angen ystyried camau ychwanegol i'r hawliau sydd gennym eisoes byddai yna drafodaeth yn y Grŵp yma gyda'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd gyda hyn yn cael ei fwydo drwodd i Dîm Rheoli Achos Rhanbarthol (sef casgliad o swyddogion sydd â chyfrifoldeb dros ymateb i achosion ac i gynghori Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar yr hyn y dylid ei wneud yn lleol.)

23. Yn y pen draw, yn unol â darpariaethau'r Cynllun Rheoli Coronafirws ar gyfer Cymru sydd gan y Llywodraeth, Gweinidogion yng Nghaerdydd sy'n gyfrifol am benderfynu pa gamau ychwanegol i'w cymryd, ond fel y mae'r Cynllun hwnnw yn nodi, bydd unrhyw benderfyniadau yn cael eu gwneud ar ol ymgynghori gydag arweinwyr lleol.

24. Un agwedd arall o unrhyw waith ymateb yw'r gallu i orfodi unrhyw reolau wrth gwrs. Heb os ac oni bai, mae'r toriadau ariannol a welwyd i gyllidebau llywodraeth leol dros y 10 mlynedd diwethaf wedi effeithio'n andwyol ar allu awdurdodau lleol i ymateb i'r holl alwadau oedd arnom yn ystod y don gyntaf.

25. Hyd yn oed pe byddem yn derbyn mwy o arian rŵan wrth gwrs nid oes modd hyfforddi swyddogion proffesiynol Iechyd Cyhoeddus dros nos. Fodd bynnag ar y cyd gydag awdurdodau eraill y Gogledd 'rydym wedi gwneud cais am adnodd i gyflogi mwy o swyddogion fyddai'n medru gweithio dan oruchwyliaeth swyddogion proffesiynol i atgyfnerthu'r gwaith o orfodi ac yn aros i glywed tynged y cais hwnnw.

26. Roedd y diwydiant ymwelwyr yn amlwg yn fyrdwn sylweddol arnom yn ystod y cyfnod a fu a'r gobaith yw na fydd hynny yn faich mor ddwys yn ystod misoedd y gaeaf, ond fe fydd y sefyllfa yn cael ei fonitro gan yr Adran Amgylchedd ac eraill a chamau yn cael eu cymryd fel bo'r angen.

27. Gyda hyn oll, mae'r Prif Weithredwr yn hyderus ein bod wedi cymryd y camau hynny y gallwn eu cymryd i baratoi ar gyfer unrhyw ail don, ond erys i weld a fydd hynny'n ddigonol.

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol:**

**Swyddog Monitro**

Mae'r adroddiad yn ddiweddariad amserol a phriodol i'r Cabinet wrth baratoi ar gyfer ail don o COVID -19. O safbwynt llywodraethu mae'r fframweithiau cyfreithiol sydd wedi eu datblygu bellach yn golygu fod ein trefniadau yn fwy gwydn i ymdopi â'r sefyllfa . Fodd bynnag, fel yr amlygir yn yr adroddiad mae union natur a maint yr her eto i amlygu ei hun.

**Pennaeth Cyllid**

Yn ystod y cyfnod Chwefror i Fehefin eleni, mae'r Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth dilyffethair i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd. Bu cost ychwanegol ynghlwm â hynny, ac mae'r ffigyrau perthnasol wedi'u amlinellu yn yr adroddiad Adolygiad Cyllideb Refeniw 2020/21 ar raglen y cyfarfod Cabinet yma. Os ydym am wynebu ail don, yn amlwg rhoddir blaenoriaeth eto i ddiogelu iechyd pobl a bydd rhai costau ychwanegol yn parhau. Er hynny, fel dywedai'r adroddiad uchod, disgwylir cost is mewn ail don, gan nad ydym wedi dadwneud rhai o'r addasiadau i drefniadau gwaith, a gan fod offer bellach mewn lle er mwyn gallu gweithredu mewn argyfwng estynedig.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 Hydref 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **Swyddogion Cyswllt:** | **Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679003** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Gweithlu Gwasanaethau Gofal Oedolion** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet –

- gymeradwyo dyrannu hyd at £375,000 o adnodd un-tro (wedi'i ddadansoddi yn y tabl o dan rhan 4 o'r adroddiad) i gyllideb 2020/21 yr Adran Oedolion, ynghyd â £390,000 pellach o adnodd un-tro i gyllideb 2021/22, gydag union swm y dyraniadau i'w adolygu ar ddiwedd y ddwy flynedd ariannol berthnasol.
- gefnogi'r bwriad i wario'r gyllideb ychwanegol uchod ar gost cyflogi gweithlu y tu hwnt i lefelau cyllidebau staffio arferol, er mwyn ymateb i gynnydd anochel mewn galw am wasanaeth gofal cymdeithasol i ddiogelu pobl Gwynedd, a llenwi bylchau staffio sy'n ymddangos o ganlyniad i Covid19.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Y mae angen cynyddu maint y gweithlu gofal ym maes Oedolion er mwyn ymateb i brinder gweithlu i sicrhau parhad gwasanaeth yn y tymor byr, ac er mwyn medru cynllunio i ymateb i ail don o'r feirws Covid19 allai ein taro.

### 3 CYFLWYNIAD

3.1 Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi paratoi Cynllun Gweithlu i grynhoi'r materion gweithlu sydd angen sylw penodol o ganlyniad i'r pandemig Covid19. Bwriad yr adroddiad hwn yw crynhoi'r prif negeseuon o'r cynllun hwnnw, a gofyn i'r Cabinet gymeradwyo gwariant i gyfarch elfennau o gostau gweithlu posibl y gall y Cyngor eu hwynebu.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Dros y 6 mis diwethaf, ers cychwyn y pandemig Covid19 yn y DU, y mae'r darparwyr gofal yng Ngwynedd (yn y sector fewnol a'r un allanol) wedi ymdopi yn rhyfeddol o dda i sicrhau parhad gwasanaeth. Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at hyn, er enghraifft:

- Defnydd o staff asiant
- Penodiadau o'r newydd yn ychwanegol i'r sefydliad (ee drwy'r Tîm Swyddi Covid a'r bas data gweithlu Covid19 a sefydlwyd ym mis Mawrth 2020)
- Llai o breswylwyr yng nghartrefi preswyl y Cyngor
- Rhywfaint o staff gofal dydd wedi eu harallgyfeirio i wasanaethau eraill
- Rheolwyr gwasanaethau gofal wedi gwneud gwaith rheng flaen
- Staff arferol wedi gweithio oriau ychwanegol
- Lefel isel iawn o absenoldebau oherwydd gwyliau.

4.2 Er hynny, gwyddom y bydd cryn bwysau ar y gwasanaethau gofal fydd yn gwneud sefyllfa'r gweithlu yn fregus iawn. Mae'r Cynllun Gweithlu wedi ystyried effaith y canlynol ar yr anghenion gweithlu :

- Ail agor gwasanaethau dydd ac ysbaid sydd wedi bod ar gau
- Ail gychwyn gofal pobl fuodd yn cael cynhaliaeth gan eu teuluoedd neu ffrindiau am gyfnod
- Absenoldebau ymysg y gweithlu am eu bod yn sâl gyda Covid19, yn cysgodi neu'n gorfod hunan ynysu
- Sicrhau gweithlu wrth gefn digonol i ganiatáu i bobl na chafodd ddim, neu fawr ddim gwyliau, rhwng Mawrth a Gorffennaf, gymryd eu gwyliau
- Rhestrau aros am ofal cartref ar gynnydd, a'r pwysau i gynnig gofal cartref er mwyn i bobl fedru gadael yr ysbyty yn dwysau
- Gofynion y 'Fframwaith Adsefydlu Genedlaethol' (dogfen a baratowyd mewn ymateb uniongyrchol i sefyllfa Covid19 er mwyn cynllunio gwasanaethau i bobl fydd angen gofal yn sgîl y feirws)
- Yr angen i staffio i lefelau digonol pe bai angen capasiti ymchwydd ('surge capacity') i ofalu am bobl sydd yn wael, neu wedi bod yn wael, gyda Covid19.

4.3 Mae'r paragraffau dilynol yn ymhelaethu rhywfaint ar yr agweddau y gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo gwariant ynghlwm â nhw. Byddai sicrhau'r cyllid yn caniatáu i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ymateb yn rhagweithiol er mwyn ceisio sicrhau gweithlu digonol i wynebu'r her sy'n debygol o fodoli dros y misoedd nesaf. Byddai hynny, yn ei dro, yn sicrhau ein bod yn cyfarch ein pwrpas sef 'helpu pobl i fyw eu bywydau fel y mae nhw'n dymuno eu byw', a hefyd yn ein galluogi i gyflawni ein dyletswyddau statudol o ran darparu gwasanaethau gofal.

<u>Absenoldebau gweithlu oherwydd salwch Covid19</u>

4.4 Ffactor allweddol i'w hystyried yw'r risg y gall staff fod yn absennol oherwydd eu bod yn sâl gyda Covid19, neu'n gorfod hunan ynysu. Mae gwaith wedi'i wneud i ddadansoddi ar sail data modelu cenedlaethol sy'n ceisio rhoi'r 'amcangyfrif gorau o'r sefyllfa ar ei gwaethaf'.

4.5 Ar hyn o bryd, mae lefelau absenoldeb salwch oherwydd Covid19 ymysg y gweithlu gofal mewnol yn llai na 0.5%. Y mae 4.4% o'r gweithlu wedi bod yn cysgodi, ond y mae'r mwyafrif bellach yn ôl wrth eu gwaith.

4.6 Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn credu ei bod yn rhesymol i'r Cyngor gynllunio ar sail absenoldebau oherwydd Covid19 ar lefelau rhwng 1% a 2% o'r gweithlu gofal ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'n amhosibl gwybod beth yn union fydd y sefyllfa, ond mae'r hyn a welwyd yn ystod y don gyntaf o achosion Covid yn rhoi sail i'r canfyddiad hwn.

4.7 Mae'r rhagamcanion gorau yn dangos bod angen adnabod **£60,000** yn ystod eleni (2020/21) er mwyn medru ôl-lenwi absenoldebau oherwydd salwch Covid19. Yn ôl ein gwaith modelu, mae'r sefyllfa waethaf yn dangos y gellid bod angen llenwi bwlch staffio oherwydd salwch Covid19 ar lefel rywle rhwng 5.3% a 6.7% ar ei anterth. Mae'n bwysig nodi, felly, mai rhagamcan mor realistig â phosibl o'r gost ychwanegol yw'r £60,000, ac nid ffigwr sy'n diddymu'r risg ariannol yn llwyr.

<u>Caniatáu i'r gweithlu gofal gymryd eu cwota gwyliau blynyddol</u>
4.8 Fel y nodwyd uchod, un o'r rhesymau dros y llwyddiant i gynnal gwasanaethau craidd dros y misoedd diwethaf oedd y ffaith bod llawer llai o wyliau wedi'i gymryd gan aelodau staff.

4.9 Gwnaed astudiaeth fanwl o'r nifer o ddyddiau o wyliau a gymerwyd dros yr un cyfnod yn 2019 a 2020. Dangosodd hyn bod angen cyfwerth â 18 person yn gweithio 20 awr yr wythnos tan ddiwedd y flwyddyn ariannol, er mwyn i'r gweithlu arferol fedru cymryd eu cwota llawn o wyliau.

4.10 Er mwyn sicrhau bod y gweithlu ar gael i ôl-lenwi'r staff sydd angen cymryd eu gwyliau, mae angen adnabod **£135,000** o arian unwaith ac am byth eleni.

<u>Sicrhau capasiti ymchwydd i ymateb i'r galw am ofal oherwydd Covid19</u>
4.11 Mae gan y Cyngor gynllun pendant ar gyfer ymateb i gynnydd yn y galw am ofal allai ein hwynebu o ganlyniad i Covid19. Camau cyntaf y cynllun hwn fyddai agor gwelyau ychwanegol mewn 3 o'i gartrefi preswyl mewnol, ac yna agor canolfannau gofal yng ngwersyll Glan Llyn ac yng nghanolfan Plas Menai.

4.12 Drwy ddefnyddio data modelu cenedlaethol, gellir gwneud rhagdybiaethau ynglŷn â phryd y gallem orfod gweithredu ar y cynllun hwn. Mae cynlluniau wedi eu paratoi yn cyfrifo'r nifer o staff fyddai eu hangen ar wahanol gyfnodau.

4.13 Y gobaith yw na fyddai angen yr holl gapasiti ychwanegol am fwy nag ychydig wythnosau, ond gwyddom mai'r tebygrwydd yw y gwelwn effeithiau Covid19 ar y galw am ofal am fisoedd os nad blynyddoedd. Teimlir bod angen sicrhau lefel dderbyniol o wytnwch i'r gwasanaeth a digon o hyblygrwydd i fedru wynebu'r angen cynyddol am wasanaethau adsefydlu ('rehabilitation'). Er mwyn denu'r gweithlu angenrheidiol, argymhellir fod angen cynnig cyfleon i bobl gael swyddi parhaol gyda'r Cyngor.

4.14 Er mwyn cynnal gwasanaethau i nifer uwch o bobl o fewn 3 o gartrefi'r Cyngor ar draws ardal ddaearyddol eang, bydd angen cyfwerth â 30 aelod ychwanegol o staff yn gweithio 20 awr yr wythnos. Byddai hyn ar gost o **£120,000** yn y flwyddyn ariannol hon, a **£390,000** yn 2021/22.

4.15 Ar ddiwedd Mawrth 2022, byddai angen adolygu maint y gweithlu ochr yn ochr â'r galw. Rhagwelir y bydd galw yn cynyddu oherwydd natur demograffig y Sir (hyd yn oed pe na bai Covid19 wedi ein taro). Hefyd, gwyddom bod canran uchel o'r gweithlu cyfredol yn agosáu at oed ymddeol. Mae'r amrywiol ffactorau yn awgrymu ei bod yn debygol iawn y byddem angen y gweithlu i'r tymor hwy.

4.16 Yn ychwanegol i'r 30 person uchod y byddem yn eu recriwtio ar gytundebau parhaol, mae rhagamcanion yn nodi y byddai angen rhwng 16 a 62 aelod o staff (ar sail gweithio 20 awr yr wythnos) ychwanegol er mwyn cynnal gwasanaethau capasiti ymchwydd. Byddai'r union niferoedd yn amrwyio yn ôl lefel y galw a'r nifer o achosion o bobl â Covid19 sydd angen gofal.

4.17 Bwriad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yw sicrhau gweithlu dros dro o wahanol ffynhonnellau yn cynnwys recriwtio, talu am staff asiant a chael staff o'r banc gweithwyr iechyd. Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo gwariant o hyd at **£60,000**hyd at ddiwedd Mawrth 2021 tuag at gost y gweithlu hwn

4.18 Pe bai angen gweithlu ychwanegol uwchlaw hyn, y bwriad yw cymeryd camau i hyfforddi ac ad-leoli staff sy'n gweithio o fewn meysydd eraill o fewn y Cyngor. Mae modelau cenedlaethol yn taflunio cyfnod o tua 2 fis pan fyddem yn gweld cynnydd sydyn a sylweddol mewn achosion. Bydd angen cadw golwg manwl ar union lefel y galw a'r angen am weithlu ychwanegol er mwyn addasu ein cynlluniau yn amserol, gan gadw mewn cof bod angen amser i hyfforddi a pharataoi gweithlu ar gyfer y gwaith dan sylw.

<u>Crynodeb o'r anghenion gweithlu a'r costau cysylltiedig</u>
4.19 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r anghenion gweithlu y gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo gwariant ar eu cyfer, i gyfarch camau penodol. Noder bod y costau wedi eu hamcangyfrif ar sail £12.50 yr awr, sef costau cyflogi mewnol (yn cynnwys yswiriant gwladol a phensiwn). Gallai'r gost fod rhywfaint yn uwch pe bai angen penodi am gyfnodau estynedig, er mwyn cyfarch costau fel cyfnodau salwch a gwyliau, neu pe bai angen talu i asiant am staff. Gallai hefyd fod rhywfaint yn is, ee. os nad oes angen talu cyfraniadau pensiwn :

| | Nifer staff yn gweithio 20 awr yr wythnos y byddwn yn debygol o fod eu hangen | Cyllid y gofynnir am yr hawl i wario at 31.3.21, ar sail unwaith ac am byth (£) | Cyllid y gofynnir am yr hawl i'w wario yn ystod 2021/22 i ariannu cytundebau parhaol (£) |
|---|---|---|---|
| Absenoldeb oherwydd salwch Covid19 | Rhwng 11 a 22 ar unrhyw adeg | 60,000 | |
| Sicrhau bod y gweithlu gofal yn medru cymryd eu cwota gwyliau blynyddol | 18 | 135,000 | |
| Sicrhau capasiti ymchwydd i ymateb i'r galw uwch am ofal oherwydd Covid19 : | | | |
| 1. Agor gwelyau ychwanegol mewn 3 cartref preswyl mewnol | 30 | 120,000 | 390,000 |
| 2. Agor canolfannau gofal yng ngwersyll Glan Llyn ac yng nghanolfan Plas Menai | Rhwng 16 a 62 aelod o staff ar unrhyw adeg | 60,000 | |
| **CYFANSWM** | | **375,000** | **390,000** |

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Os caiff y gwariant hwn ei gymeradwyo, y bwriad yw cymryd camau brys i weithredu ymgyrch recriwtio i swyddi parhaol a swyddi dros dro, a chanfod staff o amrywiol ffynhonnellau all fod ar gael i ymgymryd â gwaith gofal am gyfnodau byr.

5.2 Disgwylir y bydd yr holl wariant y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn wedi ei wneud erbyn diwedd Mawrth 2022.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1 Nid oes unrhyw ymgynghoriadau penodol wedi eu cynnal, ond mae'r holl ddata sydd y tu cefn i'r Cynllun Gweithlu wedi ei gasglu gan, a'i drafod gyda'r darparwyr gofal mewnol ac allanol yn Ngwynedd.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Rwy'n nodi sylwadau y Prif Swyddog Cyllid ynglŷn a ffynonellau ariannu y cynllun  ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Rwy'n fodlon â phriodoldeb y ffordd yma ymlaen.

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cadarnhaf fod y gwariant a gynhigir yn yr adroddiad uchod yn ychwanegol i'r rhagolygon gwariant sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad Adolygiad Cyllideb Refeniw 2020/21 ar raglen y cyfarfod Cabinet yma.

Byddwn yn ceisio hawlio y rhan helaeth o'r £375,000 yn 2020/21 o gronfa benodol sydd wedi'i neilltuo gan Lywodraeth Cymru i helpu awdurdodau lleol dalu costau uwch yn sgil Covid-19.  Nid oes unrhyw wybodaeth am gronfa debyg erbyn 2021/22, ac mae trefniadau caeth yn cyfyngu hawliadau 2020/21. Felly,  bydd angen i'r Cabinet danysgrifennu'r cyfan o'r £765,000 (£375,000 + £390,000) o falansau'r Cyngor am y tro, hyd nes cawn gadarnhad faint o grant Covid-19 gellid hawlio.

Nid yw'n arferol i'r Cyngor ganiatáu i wasanaethau ariannu swyddi (cytundebau cyflogaeth) parhaol o gyllideb un-tro.  Fodd bynnag, rwy'n cefnogi'r bwriad yn yr amgylchiadau unigryw yma, oherwydd y galw oherwydd yr argyfwng Covid-19 a thrafferthion recriwtio i gytundebau dros-dro, ynghyd â throsiant cymharol uchel mewn swyddi gofal perthnasol sy'n lleddfu'r ymrwymiad hir-dymor.

---

**ADRODDIAD I'R CABINET**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **13 Hydref 2020** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid** |
| **Pwnc** | **Trosolwg Arbedion:<br>Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2020/21, 2019/20 a blynyddoedd blaenorol.

Cymeradwyo cynlluniau amgen a fanlylir yn Rhan 6 ac Atodiad 5 i ddisodli cynlluniau hanesyddol nad ydynt yn gwireddu.

Nodi bod effaith Covid19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth dilyffethair i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng, a hynny wedi golygu na fu modd parhau efo'r trefniadau herio perfformiad ac arbedion dros gyfnod yr argyfwng.

Cefnogi bwriad y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i drefnu i gyfarfod pob Aelod Cabinet gyda'u Penaethiaid Adran, i drafod sut bydd modd ail afael yn y drefn o gyflawni'r arbedion arfaethedig, fel bydd modd i'r Cyngor symud ymlaen efo cyfran o'r rhaglen arbedion er gwaethaf yr argyfwng.

---

**1. CYFLWYNIAD / CEFNDIR**

Mae'r adroddiad yma yn adroddiad trosolwg am sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2020/21, 2019/20 a blynyddoedd blaenorol.

Yn Strategaeth Ariannol y Cyngor ers 2015/16, mae gwerth £36m o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu yn ystod y cyfnod 2015/16 i 2020/21. Adroddir yma ar gynnydd yn erbyn cynlluniau arbedion sydd werth £3,764,900 yn 2020/21 a £5,395,030 yn 2019/20 ynghyd â'r arbedion sydd eto i'w cyflawni o flynyddoedd blaenorol, yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa'r ar ddiwedd Awst 2020.

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau perthnasol gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

## 2. CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 – 2018/19

2.1 Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion oedd wedi ei osod iddynt o 2015/16 - 2018/19, **cyfanswm o bron i £27m. Mae'n galonogol i mi allu adrodd bod bron i £26m, neu 98% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae risg o wireddu'r arbedion ar ychydig o gynlluniau.

2.2 Mae'r llithriad ymylol yma yn bennaf ar rai o gynlluniau 2017/18, gyda'r her o'u gwireddu'n parhau.

2.3 Fel adroddwyd i Gabinet 28 Ionawr 2020, rhagwelir risgiau i gyflawni gwerth £102k o arbedion ar ddau gynllun yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant sef *Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran* a *Gwella effeithlonrwydd gweithwyr maes.*

2.4 Eto fel adroddwyd i Gabinet 28 Ionawr 2020, mae risgiau sylweddol i gyflawni arbedion ar gynllun *Adolygiad Dechrau i'r Diwedd* gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, sef £250k yn 2018/19 a'r blynyddoedd dilynol (£120k 2019/20, £318k 2020/21) gyda'r cynllun wedi bod yn destun adolygiad gan ail ymweld â thybiaethau'r model 'Dechrau i'r Diwedd' gwreiddiol gan ei bod yn ymddangos fod arbedion ariannol o'r cynllun wedi bod yn rhy uchelgeisiol yn sgil newid yn yr hinsawdd bresennol yn y maes plant. Mae Tasglu Cyllideb Plant wedi ei gomisiynu sydd yn rhoi sylw i faterion ariannol yr Adran gan gynnwys y maes yma, ond nid yw wedi cwrdd ers cychwyn yr argyfwng Covid19 oherwydd blaenoriaethau eraill yn y cyfnod argyfwng.

2.5 Mae risgiau o gyflawni gweddill arbedion y cynllun *Adolygu'r strwythurau a lleoliadau presennol yr Adran Tai,* gwerth £89k, sef cynllun y mae'r Adran Tai ac Eiddo wedi ei etifeddu. Mae cynllun amgen gwerth £82k yn cael ei gynnig i ddisodli rhan o'r cynllun hanesyddol, sy'n cael ei fanylu yn Atodiad 5 a bydd angen cynllun amgen arall i gyflawni gweddill yr arbedion o £7k.

## 3. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2019/20

3.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2019/20. O'r 122 o gynlluniau sydd wedi eu proffilio am y flwyddyn, mae 102, **gwerth bron i £4m neu 76% wedi eu gwireddu.** Mae 19 o gynlluniau unai yn llithro neu gyda rhai risgiau i gyflawni a 2 gynllun sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet.

3.2 Mae'r Adran Amgylchedd yn rhagweld y bydd rhai risgiau i gyflawni arbedion ar y cynllun C*ynyddu'r nifer meysydd parcio talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio* gwerth £38k yn 2019/20. Mae Grŵp Tasg wedi ei sefydlu gyda bwriad adrodd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn Ebrill 2020. Ni fu hyn yn bosib oherwydd sefyllfa Covid-19. Mae cais wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i ddigolledu'r incwm.

3.3 Mae gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant werth £799k o gynlluniau sydd yn llithro gyda rhai risgiau i gyflawni. Bu oediad gyda 3 cynllun, gwerth cyfanswm o £80k, ond maent bellach yn symud yn eu blaen. Mae'r Adran yn rhagweld rhai risgiau i gyflawni arbedion dau gynllun pellach sef *Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn* (£510k) ac *Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwen ar draws y gwasanaeth* (£134k).

Rhagwelir risgiau sylweddol i gyflawni arbedion y cynllun *Gwella effeithlonrwydd Gweithwyr Maes* (£75k), mae penderfyniad wedi ei wneud i gadw'r staff ymlaen i wireddu arbedion ehangach.

3.4 Fel yr adroddwyd uchod yn 2.4, mae risgiau sylweddol i gyflawni gwerth £120k o gynllun *Adolygiad Dechrau i'r Diwedd* gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

3.4 Mae risgiau o gyflawni arbedion 2 gynllun gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol sef *Canolfannau Ailgylchu: codi ffi ar fasnachwyr* (£20k) a chynllun *Codi ffi ar waredu deunyddiau DIY* (£100k). Mae'r Adran yn cynnig cynllun amgen i ddisodli'r cynlluniau hanesyddol (Rhan 6 o'r Adroddiad ac **Atodiad 5**).

3.5 Yn gyffredinol, mae'r cynnydd sydd wedi ei wneud i wireddu cynlluniau arbedion 2019/20 yn dderbyniol, ond mae arwyddion trafferthion cyflawni yn amlwg bellach. Gan ein bod yn ceisio effeithio ar drigolion Gwynedd cyn lleied â phosib drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd, mae'n llawer anoddach na thorri gwasanaethau.

## 4. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2020/21

4.1 Mae **Atodiad 3** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2020/21. Mae'r cyfanswm targed arbedion yn £3,903,500 gyda gwerth £632k, sef 16% o gynlluniau eisioes wedi eu gwireddu a £1.3m pellach sef 34% ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

4.2 Yn amlwg mae'r adrannau wedi canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng yn y cyfnod ers Ebrill 2020.

4.3 Mae llithriad ar y cynllun C*ynyddu'r nifer meysydd parcio talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio* gan yr Adran Amgylchedd sydd yn £97k yn 2020/21, gyda tharged o £38k yn 2019/20 (rhan 3.2). Yn ogystal mae 6 cynllun gwerth cyfanswm o £72k gyda rhai risgiau cyflawni.

4.4 Rhagwelir risgiau i gyflawni gwerth £50k o arbedion ar ddau gynllun yr Adran Economi a Chymuned. Adroddwyd ar gynllun Neuadd Dwyfor yng Nhabinet 10 Mawrth 2020 i gymeradwyo ail broffilio'r arbedion.

4.5 Rhagwelir risgiau i gyflawni 4 cynllun arbedion gwerth £851k sydd gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, 14 cynllun gwerth £396k gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a 2 gynllun £48k gan Ymgynghoriaeth.

4.6 Fel sydd eisoes wedi ei adrodd yn rhan 2.4, mae problemau gwireddu £318k y Cynllun Dechrau i'r Diwedd gan yr Adran Plant a Theuluoedd.

4.7 Gan ein bod eisoes wedi rhagweld problem gwireddu arbedion, rhoddwyd darpariaeth gorfforaethol i'r pwrpas yng nghyllideb 2020/21, gyda £1.6 miliwn ar gael i leddfu'r sefyllfa.

5. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2021/22 YMLAEN

5.1 Rhestrir arbedion 2021/22 ymlaen, fesul Adran yn **Atodiad 4**, ond mae'n gynamserol i adrodd ar statws y cynlluniau yma ar hyn o bryd.

6. DISODLI CYNLLUNIAU HANESYDDOL GYDA CHYNLLUNIAU AMGEN

6.1 Mae gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Tai ac Eiddo gynlluniau hanesyddol a gymeradwywyd eisioes, lle maent bellach yn cydnabod nad oes modd iddynt gael eu gwireddu. Gweler fanylion y cynlluniau hanesyddol ynghyd â'r cynlluniau amgen a gynnigir er mwyn disodli'r cynlluniau hanesyddol yn **Atodiad 5**.

7. CASGLIAD

7.1 Er bod rhai adrannau wedi gwireddu eu holl gynlluniau arbedion, mae'n anorfod bod gwireddu dros £30m o arbedion (allan o gyfanswm o £36 miliwn) ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol ac rwy'n ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma.

7.2 Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth y cynlluniau sydd gyda risgiau i'w cyflawni, sef gwerth bron i £3.4 miliwn yn ei gyfanrwydd, sydd yn profi fod problem gwireddu arbedion yn dod yn amlycach. Fel a nodwyd yn rhan 4.7 uchod, mae darpariaeth o £1.6 miliwn ar gael i leddfu'r sefyllfa.

**Tabl 1: Cynlluniau sydd a rhai risgiau i gyflawni fesul blwyddyn**

| | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Cynlluniau sydd a rhai risgiau o gyflawni | 191,000 | 250,280 | 1,205,070 | 1,928,040 | 3,594,390 |
| *Llai:* Cynlluniau Amgen: | | | | | |
| Adran Tai ac Eiddo | (89,000) | | | | (89,000) |
| Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol | | | (30,000) | (90,000) | (120,000) |
| | **102,000** | **250,280** | **1,175,070** | **1,838,040** | **3,385,390** |

7.3 Gyda blaenoriaethau eraill i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd wedi derbyn sylw dros gyfnod yr argyfwng ac felly absenoldeb trefniadau arferol herio perfformiad ac arbedion dros y cyfnod, bydd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid yn trefnu cyfarfod pob Aelod Cabinet gyda'u Penaethiaid Adran i drafod sut bydd modd ailafael yn y drefn o gyflawni'r arbedion arfaethedig, fel bod modd i'r Cyngor symud ymlaen efo'r rhaglen arbedion er gwaethaf yr argyfwng.

7.4 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion. Yn ogystal, gofynnaf i'r Cabinet gymeradwyo'r cynlluniau amgen gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Tai ac Eiddo a argymhellir i ddisodli'r cynlluniau hanesyddol nad oes modd gwireddu. Nodi bod effaith Covid19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion a chefnogi bwriad y

Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i drefnu i gyfarfod pob Aelod Cabinet gyda'u Penaethiaid Adran, i drafod sut bydd modd ail afael yn y drefn o gyflawni'r arbedion arfaethedig, fel bydd modd i'r Cyngor symud ymlaen efo cyfran o'r rhaglen arbedion er gwaethaf yr argyfwng.

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau ynglyn â phriodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau:**
Atodiad 1 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 - 2018/19 fesul Adran
Atodiad 2 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2019/20 fesul Adran
Atodiad 3 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2020/21 fesul Adran
Atodiad 4 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2021/22 ymlaen fesul Adran
Atodiad 5 - Rhestr Cynlluniau Amgen

**ATODIAD 1**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2018/19 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion<br>£ | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br>£ - *nifer* | | Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni<br>£ - *nifer* | | Cynlluniau sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet<br>£ - *nifer* | | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 1,107,310 | 1,078,629 | 28,681 | *1* | - | | - | | Llithriad ar y cynllun *'Ffordd Gwynedd - Uned Cyflogau a Chontractau'.* |
| Ysgolion | 4,037,000 | 4,037,000 | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Amgylchedd | 2,217,903 | 2,217,903 | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 1,707,178 | 1,707,178 | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 1,027,256 | 1,027,256 | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Economi a Chymuned | 2,394,432 | 2,394,432 | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 5,449,141 | 5,347,141 | - | | 102,000 | *2* | - | | Mae'r cynllun *Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran* wedi ei gyfalwni'n rhannol ac er mwyn cwrdd â'r diffyg o £64k mae angen ystyried os oes modd cyflawni'r arbediad trwy ddulliau amgen. O ran y cynllun *Gwaith effeithlonrwydd gweithwyr maes* gwerth cyfanswm o £113k (£38k yn 2017/18) efo risgiau sylweddol o gyflawni, ac mae penderfyniad wedi ei wneud i gadw staff ymlaen i wireddu arbedion ehangach. |

**ATODIAD 1**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2018/19 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion<br>£ | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br>£ - *nifer* | | Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni<br>£ - *nifer* | | Cynlluniau sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet<br>£ - *nifer* | | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 2,301,798 | 2,051,518 | - | | 250,280 | *1* | - | | Mae'r cynllun *Dechrau i'r Diwedd* wedi bod yn destun adolygiad. Gwelwyd newid dros y blynyddoedd diwethaf yn y math o achosion ac felly yr anghenion. Mae'r ffactorau yma wedi arwain at gynnydd yn y gôst net ar y Cyngor. Gwelwyd leihad yn y nifer y nosweithiau plant mewn gofal sydd yn unol â'r rhagolygon hyd at ddiwedd 2017/18. Ond ers 2018/19 bu cynnydd yn y tueddiad ynghyd â newid yn natur yr angen ac felly mae risgiau sylweddol i gyflawni arbedion 2018/19 ymlaen. Mae Tasglu Cyllideb Plant wedi ei gomisiynu i roi sylw i faterion ariannol yr Adran sydd yn cynnwys y maes yma. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 5,044,250 | 4,932,370 | 26,880 | *1* | - | | 85,000 | *1* | Mae un cynllun yn llithro, gyda chynllun amgen sy'n cynnwys ail-strwythuro a chynllun Teledu Cylch Cyfyng yn cyfarch y gwahaniaeth. Mae'r cynllun *Trefniadau Fflyd* gwerth £85k, eto i dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet. |
| Ymgynghoriaeth | 387,000 | 387,000 | - | | | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 179,070 | 165,270 | 13,800 | *1* | - | | - | | Mae llithriad ar y cynllun *Arbedion yng nghyllideb y Crwner* gwerth £13.8k gan ei fod yn seiliedig ar ragamcaniad a wnaethpwyd rhai blynyddoedd yn ôl ond sydd heb ddigwydd eto. |
| Tai ac Eiddo | 246,420 | 157,420 | - | | 89,000 | *1* | - | | Mae risgiau o gyflawni gweddill arbedion y cynllun *Adolygu'r strwythurau a lleoliadau presennol y Gwasanaeth Tai,* gwerth £89k. Cynnigir cynllun amgen yn Atodiad 5. |
| **Is-gyfanswm** | **26,098,758** | **25,503,117** | **69,361** | *3* | **441,280** | *4* | **85,000** | *1* | |

**ATODIAD 1**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2018/19 FESUL ADRAN

| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion**<br>**£** | **Cynlluniau wedi eu gwireddu**<br>**£** | **Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro**<br>**£** | ***nifer*** | **Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni**<br>**£** | ***nifer*** | **Cynlluniau sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet**<br>**£** | ***nifer*** | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arbedion Rheolaethol | 434,960 | 434,960 | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **26,533,718** | **25,938,077** | **69,361** | *3* | **441,280** | *4* | **85,000** | *1* | **Yn nhermau ariannol (£), mae 98% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2018/19 wedi eu gwireddu.** |

**ATODIAD 2**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2019/20 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2019/20 £ | nifer | Cynlluniau wedi eu gwireddu £ | nifer | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ | nifer | Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni £ | nifer | Cynlluniau sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet £ | nifer | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 414,840 | *5* | 414,840 | *5* | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Amgylchedd | 249,880 | *13* | 94,380 | *11* | - | | 155,500 | *2* | - | | Bu llithriad yn y cynllun *Teithio Staff Cyngor Gwynedd (£118k).* Mae risgiau sylweddol i gyflawni arbedion y cynllun *Cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio* gwerth £37.5k yn 2019/20. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 405,450 | *13* | 375,450 | *12* | - | | - | | 30,000 | *1* | Mae'r cynlluniau arbedion sydd wedi eu proffilio ar gyfer 2019/20 eisioes wedi eu gwireddu gyda'r cynllun *Uno Dysgu a Datblygu ac Uned Datblygu Gweithlu* gwerth £30k, eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet. |
| Cyllid | 558,650 | *19* | 554,900 | *18* | | | 3,750 | *1* | - | | *Cynllun Trefn slipiau electronig cyflog i bawb* gwerth £3.75k, yn symud yn ei flaen. |
| Economi a Chymuned | 318,580 | *12* | 276,080 | *9* | - | | 42,500 | *3* | - | | Mae amrediad o gynlluniau'r Adran wedi eu gwireddu. Mae'r 3 sy'n weddill, sef 2 gynllun sy'n ymwneud â pharcio (*Cysoni ffioedd i safleoedd newydd, sefydlu ffioedd yn Dinas Dinlle (2020/21) ac hefyd Adolygu ffioedd a threfniadau yn Storiel*), a *Dileu 1 swydd o Wasanaeth Twristiaeth a Marchnata* i gyd yn symud yn eu blaen. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,465,000 | *15* * | 666,500 | *9* | - | | 798,500 | *6* | - | | Bu oediad gyda 1 cynllun sef *Cynyddu incwm a lleihau costau erail* (£30k), ond bellach yn symud yn ei flaen. Mae'r Adran yn rhagweld rhai risgiau i gyflawni arbedion 4 cynllun sef *Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn* (£510k), *Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwen ar draws y gwasanaeth* (£133.5k), *Cydweithio â'r trydydd sector i sicrhau darparwr gofal dydd newydd yng Nghricieth a Blaenau Ffestiniog* (£25k) ac *Adolygu pecynnau anableddau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen* (£25k). Yn ogystal mae yna risgiau sylweddol i gyflawni arbedion y cynllun *Gwella effeithlonrwydd Gweithwyr Maes* (£75k). |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 272,790 | *9* | 152,970 | *8* | - | | 119,820 | *1* | - | | Mae'r cynlluniau arbedion sydd wedi eu proffilio ar gyfer 2019/20 eisioes wedi eu gwireddu ond mae'r *Cynllun Dechrau i'r Diwedd* yn llithro, gweler pwynt 2.5 yn yr Adroddiad. |

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2019/20 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2019/20 £ | nifer | Cynlluniau wedi eu gwireddu £ | nifer | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ | nifer | Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni £ | nifer | Cynlluniau sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet £ | nifer | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 301,350 | *13* | 168,350 | *7* | - | | 85,000 | *5* | 48,000 | *1* | Mae'r Adran yn rhagweld risg o gyflawni arbedion 3 cynllun sef *Cynyddu incwm gorfodaeth stryd drwy ddirwyo mwy o unigolion sy'n gollwng sbwriel* , *Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau* a *Chynllun cau Cilgwyn* . Mae 2 gynllun pellach nad ydynt am wireddu eu arbedion ac mae'r Adran yn awyddus i gael cymeradwyaeth i gynllun amgen **(Atodiad 5)**. Mae'r cynllun *Trefniadau Fflyd* gwerth £48k, eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet. |
| Ymgynghoriaeth | 126,500 | *7* | 126,500 | *7* | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 188,310 | *8* | 188,310 | *8* | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tai ac Eiddo | 189,680 | *5* | 189,680 | *5* | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Arbedion Rheolaethol | 765,400 | *3* | 765,400 | *3* | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **5,256,430** | *122* | **3,973,360** | *102* | **0** | *0* | **1,205,070** | *18* | **78,000** | *2* | **Yn nhermau ariannol (£), mae 76% o gynlluniau arbedion 2019/20 eisioes wedi eu gwireddu.** |

** cynllun wedi ei wireddu yn rhannol mewn un blwyddyn ariannol ond eto i'w wireddu yn llawn.*

**ATODIAD 3**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2020/21

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2020/21 £ | nifer | | Cynlluniau wedi eu gwireddu £ | nifer | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ | nifer | Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni £ | nifer | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 367,210 | *6* | * | 0 | | 367,210 | *6* | 0 | | Yr arbedion ar drac i gyflawni'n amserol. |
| Amgylchedd | 283,430 | *21* | | 5,000 | *1* | 106,310 | *11* | 172,120 | *9* | Mae amrediad o gynlluniau wedi eu gwireddu neu ar drac i wireddu'n llawn ac amserol. Mae'r Adran yn rhagweld risgiau i gyflawni y cynllun *Cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio* gwerth £37.5k. Bu llithriad yn y cynllun *Teithio Staff Cyngor Gwynedd gwerth* £118k. 7 o gynlluniau bychan yn llithro. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 256,840 | *12* | | 61,340 | *5* | 195,500 | *7* | - | | 5 cynllun wedi gwireddu a 7 ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol. |
| Cyllid | 170,730 | *11* | | 58,930 | *5* | 111,800 | *6* | | | 5 cynllun wedi gwireddu a 6 ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol. |
| Economi a Chymuned | 208,410 | *19* | | 70,910 | *12* | 20,000 | *1* | 117,500 | *6* | Mae amrediad o gynlluniau wedi eu gwireddu neu ar drac i wireddu'n llawn ac amserol. Mae'r cynlluniau sy'n weddill, sef 3 cynllun sy'n ymwneud â pharcio a cynllun *Dileu 1 swydd o Wasanaeth Twristiaeth a Marchnata,* yn symud yn eu blaen. Posib bydd y cynllun *Lleihau sybsidi i Cwmni Hamdden Byw'n Iach o 20% yn llithro yn sgil amhariad sefyllfa Covid-19* . Adroddwyd ar gynllun *Neuadd Dwyfor* yn Cabinet 10fed o Fawrth 2020 i gymeradwyo ail broffilio'r cynllun ac i rhyddhau buddsoddiad cyfalaf o'r Gronfa Trawsffurfio i wrieddu'r arbedion. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,085,520 | *12* | * | 179,410 | *6* | 55,000 | *2* | 851,110 | *4* | Bu oediad gyda 2 gynllun (cyfanswm £199k), ond bellach yn symud yn eu blaen. Mae'r Adran yn rhagweld rhai risgiau i gyflawni arbedion 4 cynllun sef *Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwen ar draws y gwasanaeth* (£400k), *Cydweithio a'r trydydd sector i sicrhau darparwr newydd i gymeryd drosodd y ddarpariaeth gofal dydd yng Nghriccieth a Blaenau Ffestiniog* (£75k), *Adolygu pecynnau gofal anableddau corff gan gwrdd ag amcanion mewn fford amgeng* (£75k) ac Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion*n* (£135k). Yn ogystal mae yna risgiau sylweddol i gyflawni arbedion y cynllun *Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd),* (£300k). |

# ATODIAD 3

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 409,310 | *5* * | - | | 91,250 | *4* | 318,060 | *1* | 4 cynllun ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol ond fel adroddir yn yr atodiadau blynyddoedd cynt mae'r *Cynllun Dechrau i'r Diwedd* yn llithro. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 791,940 | *25* | 198,690 | *9* | 197,000 | *2* | 396,250 | *14* | Mae'r Adran yn rhagweld risg o gyflawni arbedion 12 cynllun sydd yn cynnwys 4 o gynlluniau hefo risgiau sylweddol sef *Torsglwyddo Meysydd chwarae i eraill, Rhesymoli gweithdai Fflyd o 3 i 2 yn y Sir, Cynyddu incwm gorfodaeth stryd* a *Newid trefniadau gwaith casglu gwastraff i shifftiau a chylchdeithiau llai* . Mae 2 gynllun nad ydynt am wireddu eu arbedion ac mae'r Adroddiad yma yn gofyn am gymeradwyaeth i gynllun amgen (**Atodiad 4**). |
| Ymgynghoriaeth | 89,170 | *5* | 41,170 | *3* | - | | 48,000 | *2* | Bu oediad gyda 2 gynllun sydd yn ymwneud â chynyddu incwm ond mae sefyllfa'r Covid wedi effeithio ar yr incwm yn y misoedd cyntaf o'r flwyddyn ariannol. Mae'r Adran yn gobeithio bydd cynnydd yn y misoedd i ddod ond does dim sicrwydd ar hyn o bryd. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 35,860 | *10* | 16,800 | *7* | 19,060 | *3* | - | | 7 cynllun wedi gwireddu a 3 ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol. |
| Tai ac Eiddo | 205,080 | *8* | - | | 180,080 | *7* | 25,000 | *1* | Bu risgiau o gyflawni ar cynllun *Lleihau dibyniaeth ar lety dros-dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol* oherwydd sefyllfa Covid-19 ond mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen. |
| **CYFANSWM** | **3,903,500** | ***134*** | **632,250** | ***48*** | **1,343,210** | ***49*** | **1,928,040** | ***37*** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 16% o gynlluniau arbedion 2020/21 eisioes wedi eu gwireddu a 34% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn amlwg mae'r adrannau wedi canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng yn y cyfnod ers Ebrill 2020.** |

**ATODIAD 4**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2021/22 YMLAEN MESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2021/22 ymlaen<br>£ - *nifer* | |
|---|---|---|
| Addysg | 65,000 | *1* |
| Amgylchedd | 86,250 | *4* |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 217,750 | *4* |
| Cyllid | 125,000 | *3* |
| Economi a Chymuned | 230,000 | *2* |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 378,750 | *4* |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 787,210 | *2* |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 798,750 | *7* |
| Ymgynghoriaeth | - | |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | - | |
| Tai ac Eiddo | 151,260 | *4* |
| Arbedion Rheolaethol | - | |
| **CYFANSWM** | **2,839,970** | ***31*** |

**Atodiad 5**

**Cynlluniau Hanesyddol nad ydynt am wireddu arbedion - Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

| Swm £ | Cynllun Arbedion |
|---|---|
| £20,000 | Canolfannau Ailgylchu - codi ffi ar fasnachwyr |
| £100,000 | Codi ffi ar waredu gwastraff DIY (e.e. rwbel £3 y bag neu £30 llond trelar) |



**Cynllun Amgen i ddisodli'r Cynlluniau Hanesyddol - Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

| Swm £ | Cynigion |
|---|---|
| £120,000 | Canolfannau Ailgylchu - newid trefniadau gweithredu |

**Cynlluniau Hanesyddol nad ydynt am wireddu arbedion - Tai ac Eiddo**

| Swm £ | Cynllun Arbedion |
|---|---|
| £89,000 | Adolygu'r strwythurau a lleoliadau presennol y Gwasanaeth Tai |
| Mae £41k o gyfanswm y cynllun (£130k), wedi ei wireddu ac mae'r Adran wedi adnabod cynllun amgen gwerth £82k isod a bydd angen dod o hyd i gynllun amgen arall i gyflawni gweddill yr arbedion o £7k. | |



**Cynllun Amgen i ddisodli’r Cynlluniau Hanesyddol - Tai ac Eiddo**

| Swm £ | Cynigion |
|---|---|
| £82,000 | Arbedion ynni - newid cytundeb |

**ADRODDIAD I'R CABINET**

13 HYDREF 2020

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2020/21 – Adolygiad Diwedd Awst 2020

**Swyddog cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

## 1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2020 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.

- Nodi effaith ariannol Covid19, sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colledion incwm a llithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth dilyffethair i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng, a hynny wedi golygu na fu modd parhau efo'r trefniadau herio perfformiad ac arbedion dros gyfnod yr argyfwng.

- Cefnogi bwriad y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i drefnu i gyfarfod pob Aelod Cabinet gyda'u Penaethiaid Adran, i drafod sut bydd modd ail afael yn y drefn o gyflawni'r arbedion arfaethedig, fel bydd modd i'r Cyngor symud ymlaen efo cyfran o'r rhaglen arbedion er gwaethaf yr argyfwng.

- Nodi fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni, gan bod angen egluro manylder cymhleth yn y darlun yma yng ngofal Oedolion, mae'r Prif Weithredwr eisioes wedi comisiynu gwaith er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb,

- Nodi fod Tasglu Cyllideb Plant wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i roi sylw i faterion ariannol dyrys yr Adran Plant a Theuloedd fel bod modd mynd at wraidd gorwariant yr Adran, gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad gerbron y Cabinet fydd yn manylu ar y cynllun ymateb.

- Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn **Atodiad 2**).

    - Ar gyllidebau Corfforaethol, fod:

- (£250k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei drosglwyddo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
- tanwariant net o (£1,127k) ar gyllidebau Corfforaethol yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor i gynorthwyo i wynebu'r her ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor yn arbennig felly yn sgil argyfwng Covid19.

- Fod derbyniadau grant ar gyfer digolledu gwariant ychwanegol a cholledion incwm cysylltiedig â'r argyfwng Covid19 gan y Llywodraeth yn cael ei ddyrannu i'r adrannau perthnasol yn unol â'r hyn a nodir yn **Atodiad 1.**

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad ddiwedd Awst yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2020/21, ac amlinellir grynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

Yn **Atodiad 2,** rhoddir fanylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

## 3. Covid19

Fel yr ydym eisoes wedi adrodd i Gabinet 19 Mai 2020, mae effaith ariannol yr argyfwng Covid19 yn sylweddol i'r Cyngor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol ynghyd â cholledion incwm.

Bu i Lywodraeth Cymru sefydlu cronfa caledi o hyd at £264 miliwn tuag at ddigolledu costau a cholledion incwm Awdurdodau Lleol. Yng Ngwynedd mae ceisiadau misol gwerth dros £4.5 miliwn wedi eu cyflwyno gan y Cyfrifwyr i Lywodraeth Cymru, i ddigolledu'r Cyngor am y gwariant ychwanegol am y cyfnod hyd at ddiwedd Awst, gyda chyllid o £3.6 miliwn eisoes wedi ei dderbyn.

O ran y colledion incwm, roedd cais am chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol bron yn £3.7 miliwn, gyda £3.3 miliwn eisoes wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Gweler y manylion yn **Atodiad 3.**

Mae effaith y costau ychwanegol a'r colledion incwm i'w gweld gan yr adrannau yn **Atodiad 1 a 2**, gyda'r gor/tanwariant adrannol yn cael eu hadrodd efo ac heb y cymorth grant gan y Llywodraeth.

## 4. Sefyllfa Arbedion

Fel yr ydym wedi rhybuddio ym mhob adolygiad ers yr un diwedd Awst 2019 (Cabinet 15 Hydref 2019), mae gwireddu arbedion yn mynd yn anoddach gydag arwyddion amlwg bellach fod trafferthion cyflawni arbedion mewn rhai meysydd. Wrth geisio isafu'r ardrawiad ar drigolion Gwynedd drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd, mae'n profi i fod yn llawer anoddach na thorri gwasanaethau.

Gan ein bod eisoes wedi rhagweld problem gwireddu arbedion, rhoddwyd darpariaeth gorfforaethol i'r pwrpas yng nghyllideb 2020/21, gyda £1.6 miliwn ar gael i leddfu'r sefyllfa.

Gyda blaenoriaethau eraill i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd wedi derbyn sylw dros gyfnod yr argyfwng ac felly absenoldeb trefniadau arferol herio perfformiad ac arbedion dros y cyfnod, bydd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid yn trefnu cyfarfod efo pob Aelod Cabinet gyda'u Penaethiaid Adran i drafod sut bydd modd ailafael yn y dasg o gyflawni'r arbedion, fel bod modd i'r Cyngor symud ymlaen efo'r rhaglen arbedion er gwaethaf yr argyfwng.

## 5. Adrannau'r Cyngor

Yr hyn sydd yn amlwg iawn eleni yw'r pwysau sylweddol sydd yn wynebu'r maes gofal a'r maes gwastraff. Mae'r prif faterion fel a ganlyn:

### 5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae effaith Covid19 wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni gyda £2.2 miliwn wedi ei wario hyd at ddiwedd Awst a £1.722 miliwn eisoes wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru tuag at y costau ychwanegol perthnasol hyd at ddiwedd Gorffennaf. Heb ystyried ardrawiad Covid19, rhagwelir gorwariant o £1.886 miliwn eleni gyda methiant i gyflawni arbedion gwerth £1.751 miliwn yn cyfrannu at y sefyllfa.

Eleni, bu i'r adran dderbyn gwerth dros £1.8 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar y gyllideb 2020/21 gan gynnwys i'r maes Anabledd Dysgu, Gofal Preswyl yn Darparu a Phreswyl a Nyrsio Pobl Hŷn.

Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi comisiynu gwaith er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb, fel bod modd cael gwell dealltwriaeth o fanylder cymhleth y darlun yng ngofal oedolion.

**5.2 Adran Plant a Theuluoedd**

Er fod bron i £2 miliwn o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r Adran Plant a Theuluoedd yn 2020/21 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol, rhagwelir gorwariant o £2.8 miliwn ar gyfer yr Adran. Mae methiant i wireddu £688k o arbedion yn fater sydd yn parhau i fod angen datrysiad.

Yr ystadegau diweddaraf yn cadarnhau y bu cynnydd pellach yn y galw am wasanaethau, yn arbennig felly yn y maes lleoliadau ac Ôl-16. Er nad yw'r sefyllfa o orwariant yn y maes plant yn unigryw i Wynedd, gan ei fod yn ddarlun a welir ar draws awdurdodau, mae'r sefyllfa'n un pryderus.

**5.3 Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

Y maes bwrdeistrefol yn parhau i fod yn gorwario yn sylweddol, gyda phroblemau gorwariant yn y maes casglu a gwaredu gwastraff. Mae'r adran wedi wynebu costau ychwanegol yn ymwneud â Covid19 i gydymffurfio efo'r rheolau, ond y gobaith yw y bydd Llywodraeth Cymru yn ein digolledu am y costau ychwanegol.

**5.4 Corfforaethol**

Rhagolygon ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol ar Dreth Cyngor. Serch bod cynnydd yn y niferoedd sydd yn hawlio Gostyngiadau Treth Cyngor yn ystod chwarter cyntaf 2020/21, y galw wedi bod yn isel dros y bedair blynedd ddiwethaf ac felly yn tanwario. Tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol sydd yn cynnwys costau cyfalaf, bidiau yn cael eu dychwelyd ac arbedion yn cael eu cyflawni ymlaen llaw.

**6. Camau nesaf ac amserlen**

Eleni, mae methiant i wireddu arbedion ynghyd ag effaith ariannol Covid19 yn amlwg iawn ar y ffigyrau. Bydd y Cyfrifwyr yn parhau i hawlio am y costau ychwanegol a'r colledion incwm perthnasol i Covid19 gan Lywodraeth Cymru.

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet ar 19 Ionawr 2021 ar sefyllfa diwedd Tachwedd 2020.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau
Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol
Atodiad 3 - Grant gan y Llywodraeth yn Sgil Argyfwng Covid19

## Cyllideb Refeniw 2020/21 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Diwedd Awst | | | | Argyfwng COVID-19 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 £'000 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21 £ '000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2020/21 £ '000 | Dyrannu Derbyniadau Grant gan Lywodraeth Cymru i'r Adrannau i ddigolledu gwariant/colled incwm £ '000 | Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2020/21 £ '000 | Sefyllfa Terfynol 2019/20 £ '000 |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **53,770** | **3,608** | **0** | **3,608** | **(1,722)** | **1,886** | *0* |
| **Plant a Theuluoedd** | **16,724** | **2,847** | **0** | **2,847** | **(68)** | **2,779** | *100* |
| **Addysg** | **95,045** | **(81)** | **0** | **(81)** | **(230)** | **(311)** | *(96)* |
| **Economi a Chymuned** | **4,953** | **628** | **0** | **628** | **(475)** | **153** | *67* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **25,223** | **1,325** | **0** | **1,325** | **(488)** | **837** | *100* |
| **Amgylchedd** | **3,702** | **1,180** | **0** | **1,180** | **(876)** | **304** | *(85)* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **(122)** | **102** | **0** | **102** | **0** | **102** | *(26)* |
| **Tai ac Eiddo** | **5,474** | **594** | **0** | **594** | **(237)** | **357** | *83* |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | **1,764** | **(31)** | **0** | **(31)** | **0** | **(31)** | *(50)* |
| **Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** | **6,649** | **(85)** | **0** | **(85)** | **0** | **(85)** | *(70)* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | **7,286** | **72** | **0** | **72** | **(21)** | **51** | *(100)* |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn unig)* | * | **(3,021)** | **1,377** | **(1,644)** | **(422)** | **(2,066)** | *0* |
| **Cyfansymiau (net)** | **220,468** | **7,138** | **1,377** | **8,515** | **(4,539)** | **3,976** | *(77)* |

**CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 15,077 | 15,613 | 536 | 0 | 536 | (607) |
| Gofal Cartref | 7,100 | 6,925 | (175) | 0 | (175) | (869) |
| Eraill | (249) | 965 | 1,214 | 0 | 1,214 | 1,132 |
| | 21,928 | 23,503 | 1,575 | 0 | 1,575 | (344) |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | 2,374 | 2,352 | (22) | 0 | (22) | (122) |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 19,568 | 19,370 | (198) | 0 | (198) | 444 |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | 3,554 | 3,424 | (130) | 0 | (130) | (147) |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | 3,095 | 3,063 | (32) | 0 | (32) | (48) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **50,519** | **51,712** | **1,193** | **0** | **1,193** | **(217)** |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 105 | 409 | 304 | 0 | 304 | (67) |
| Gofal Dydd | 15 | 255 | 240 | 0 | 240 | 339 |
| Gofal Cymunedol | 69 | 655 | 586 | 0 | 586 | 397 |
| Eraill | 22 | 65 | 43 | 0 | 43 | (43) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **211** | **1,384** | **1,173** | **0** | **1,173** | **626** |

**CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,040 | 3,422 | 382 | 0 | 382 | 11 |
| Gwariant Covid19 ym maes Gofal Oedolion | | | 860 | | 860 | |
| Defnydd o gronfa benodol | | | | | | (420) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **3,040** | **3,422** | **1,242** | **0** | **1,242** | **(409)** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **53,770** | **56,518** | **3,608** | **0** | **3,608** | **0** |
| *Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19* | | | | ***(1,722)*** | ***(1,722)*** | |
| ***Cyfanswm Addasedig Oedolion, Iechyd a Llesiant*** | | | | | ***1,886*** | |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - pwysau ar y ddarpariaeth gofal preswyl a nyrsio, gyda'r niferoedd yn sylweddol uwch na'r lefel ddwy flynedd yn ôl. Effaith Covid19 yn cyfrannu at leihad yn y galw am becynnau gofal cartref. Methiant i wireddu gwerth £1,144k o arbedion o fewn y pennawd 'Eraill' a gorwariant o £363k ar Lety Cefnogol, gyda chostau cynllun Hafod y Gest yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gorwariant perthnasol.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - tanwariant ar breswyl a nyrsio ac effaith Covid19 wedi cyfrannu at wariant ychwanegol gan y gwasanath ond hefyd at leihad yn y galw am gynlluniau cefnogol eleni.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - llai o bwysau ar y ddarpariaeth cynlluniau cefnogol ynghyd â throsiant staff.

**Gwasanaethau Darparu** - costau ychwanegol cysylltiedig â Covid19 yn gyfrifol am y gorwariant a ragwelir ar Ofal Preswyl. Staffio uwchlaw lefel y gyllideb yn faterion yn Gofal Dydd a Gofal Cymunedol, ac yn ychwanegol i hyn, lleihad mewn incwm Gofal Cymunedol sydd yn rhannol oherwydd Covid19.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - derbyniad grant ac incwm a chwtogi ar wariant yn lleihau effaith y llithriad mewn gwireddu gwerth £563k o gynlluniau arbedion.

Mae effaith Covid19 wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni gyda £2.2 miliwn wedi ei wario hyd at ddiwedd Awst a £1.722 miliwn eisoes wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru tuag at y costau ychwanegol perthnasol hyd at ddiwedd Gorffennaf. Heb ystyried ardrawiad Covid19, rhagwelir gorwariant o £1.886 miliwn eleni gyda methiant i gyflawni arbedion gwerth £1.751 miliwn yn cyfrannu at y sefyllfa.

Eleni, bu i'r adran dderbyn gwerth dros £1.8 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar y gyllideb 2020/21 gan gynnwys i'r maes Anabledd Dysgu, Gofal Preswyl yn Darparu a Phreswyl a Nyrsio Pobl Hŷn.

Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi comisiynu gwaith er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb, fel bod modd cael gwell dealltwriaeth o fanylder cymhleth y darlun yng ngofal oedolion.

**CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 590 | 584 | (6) | 0 | (6) | (18) |
| Gweithredol | 2,101 | 2,170 | 69 | 0 | 69 | 153 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 2,965 | 4,556 | 1,591 | 0 | 1,591 | 1,624 |
| Maethu Drwy Asiant | 1,179 | 1,626 | 447 | 0 | 447 | 501 |
| Maethu Mewnol | 2,161 | 2,535 | 374 | 0 | 374 | 588 |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,825 | 1,784 | (41) | 0 | (41) | 113 |
| | 8,130 | 10,501 | 2,371 | 0 | 2,371 | 2,826 |
| Ôl-16 | 1,054 | 1,468 | 414 | 0 | 414 | 260 |
| Arbenigol/Derwen | 1,819 | 2,088 | 269 | 0 | 269 | 357 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 253 | 215 | (38) | 0 | (38) | (78) |
| Blynyddoedd Cynnar | 158 | 106 | (52) | 0 | (52) | (74) |
| Ieuenctid | 898 | 734 | (164) | 0 | (164) | (136) |
| Eraill | 1,721 | 1,705 | (16) | 0 | (16) | 69 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2019/20 | | | | | | (3,259) |
| **<u>Cyfanswm Plant a Theuluoedd</u>** | **16,724** | **19,571** | **2,847** | **0** | **2,847** | **100** |
| *Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19* | | | | ***(68)*** | ***(68)*** | |
| ***<u>Cyfanswm Addasedig Plant a Theuluoedd</u>*** | | | | | ***2,779*** | |

## Plant a Theuluoedd

**Gweithredol** - y gorwariant ar gostau staff gyda £50k ohono o ganlyniad i gyflogi gweithwyr ychwanegol dros dro i ymateb i'r argyfwng Covid19.

**Lleoliadau** - er fod £1.8m o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r maes yma ar gyfer 2020/21 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol, mae'r gorwariant yn parhau gyda rhagolygon o orwariant o £2.4m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. O fewn y pennawd ceir gwerth £688k o arbedion sydd eto i'w gwireddu ac sydd bellach yn edrych yn anhebygol o gael eu gwireddu.

Y galw am yr ystod o wasanaethau yn dwysáu ymhellach, rhan helaeth o'r gorwariant yn deillio o 5 achos lleoliad all-sirol newydd eleni, ynghyd ag effaith flwyddyn lawn 7 achos a ddechreuodd yn ystod 2019/20, gyda'r nifer lleoliadau cyfartalog wedi cynyddu i 21.6 o 18.1 ar gyfer 2019/20. Yn maethu drwy asiant, 3 achos newydd eleni ac effaith blwyddyn lawn 12 achos a gychwynwyd yn 2019/20. Gorwariant yn deillio o effaith y cynnydd yn niferoedd lleoliadau maethu mewnol y llynedd (166 ar 31.3.20, 139 ar 31.3.19). Yn dilyn adolygiad o'r ymrwymiadau all-sirol, daeth yn amlwg y bu newid i'r math o achosion dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly i'r costau cysylltiedig.
.

**Ôl-16** - costau cefnogaeth cychwynol uchel eleni yn deillio o 3 achos o'r newydd ers dechrau'r flwyddyn ariannol ynghyd ag effaith flwyddyn lawn 2 achos y llynedd.

**Arbenigol/Derwen** – effaith cynnydd yn y galw am gynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol dros y blynyddoedd diwethaf yn gyfrifol am y gorwariant, ond sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gostau teithio o ganlyniad i gyfyngiadau Covid19.

**Blynyddoedd Cynnar** – defnydd o grantiau yn cyllido gwariant craidd a derbyniad grantiau yn y maes gofal plant yn gyfrifol am y tanwariant.

**Ieuenctid** – derbyniad grant uwch eleni yn erbyn gwariant craidd ynghyd â thanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth.

O ystyried tueddiad gorwariant cynyddol yr adran, mae Tasglu Cyllideb Plant, wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i roi sylw i faterion ariannol dyrys yr adran.

Hyd at ddiwedd Awst mae'r Adran wedi wynebu £68k o gostau ychwanegol yn deillio o'r Covid19 sydd wedi eu cynnwys yn y ffigyrau uchod.

**<u>CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST</u>**

| **Adran Addysg** | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 80,455 | 80,455 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Incwm Prydau Ysgolion Uwchradd (Datganoledig) | 0 | 230 | 230 | 0 | 230 | 0 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (541) | (760) | (219) | 0 | (219) | (406) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | 0 | | | |
| Cludiant | 4,906 | 4,457 | (449) | 0 | (449) | 158 |
| Gwasanaeth Atodol | 500 | 1,034 | 534 | 0 | 534 | 356 |
| Eraill | 2,912 | 2,771 | (141) | 0 | (141) | (167) |
| | 8,318 | 8,262 | (56) | 0 | (56) | 347 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,276 | 2,216 | (60) | 0 | (60) | (49) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 4,537 | 4,561 | 24 | 0 | 24 | 12 |
| **<u>Cyfanswm Addysg</u>** | **95,045** | **94,964** | **(81)** | **0** | **(81)** | **(96)** |
| *Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19* | | | | **(230)** | **(230)** | |
| **<u>Cyfanswm Addasedig Addysg</u>** | | | | | **(311)** | |

## Addysg

**Incwm Prydau Ysgolion Uwchradd** - colled incwm prydau ysgol yn deillio o'r argyfwng Covid19, gyda cais wedi ei wneud i gael ein digolledu gan Lywodraeth Cymru.

**Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion** - cyfuniad o dderbyniad grantiau, trosiant staff, cwtogi ar wariant a lleihad yn y galw ar rai cyllidebau dros y cyfnod clo yn gyfrifol am y tanwariant a ragwelir.

**Cludiant** - yn groes i'r tueddiad gorwariant arferol, rhagwelir tanwariant o (£449k) ar gludiant eleni yn dilyn i'r ysgolion fod ar gau am gyfnod yn nhymor yr haf gyda thanwariant o (£392k) ar fysus ysgol a (£134k) ar gludiant tacsis a threnau, ond sydd yn cael ei leihau gan ddiffyg o £77k ar werthiant tocynnau Cludiant Ôl-16 dros y cyfnod clo.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, gyda'r angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - colled incwm prydau ysgol ac am yr elfen gofal o'r clybiau brecwast yn deillio o'r argyfwng, ynghyd â chynnydd yn y niferoedd sydd yn hawlio cinio am ddim. Ymhellach i hyn, gwariant ychwanegol ar lanhau ysgolion oherwydd gofynion cysylltiedig â Covid19.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - llai o alw ar nifer o gyllidebau amrywiol yn arbennig felly yn ystod y cyfnod clo.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth** - derbyniad grant a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol o'r gyllideb.

**CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 356 | 350 | (6) | 0 | (6) | 3 |
| Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau | 367 | 367 | 0 | 0 | 0 | 10 |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | 16 | 663 | 647 | 0 | 647 | 9 |
| Cytundebau Hamdden | 1,502 | 1,468 | (34) | 0 | (34) | 79 |
| Rhaglenni Chwaraeon | 59 | 33 | (26) | 0 | (26) | (60) |
| Rhaglenni Datblygu Economiadd | (83) | (83) | 0 | 0 | 0 | (26) |
| Marchnata a Digwyddiadau | 260 | 265 | 5 | 0 | 5 | 0 |
| Llyfrgelloedd Gwynedd | 1,618 | 1,531 | (87) | 0 | (87) | (7) |
| Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd | 858 | 987 | 129 | 0 | 129 | 59 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **4,953** | **5,581** | **628** | **0** | **628** | **67** |
| *Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19* | | | | ***(475)*** | ***(475)*** | |
| ***Cyfanswm Addasedig Economi a Chymuned*** | | | | | ***153*** | |

**Economi a Chymuned**

**Morwrol a Pharciau Gwledig** - diffyg incwm yn sgil yr argyfwng Covid19 wedi cael effaith sylweddol ar y maes yma sydd yn cyfrannu at orwariant o £547k Morwrol a £100k ar Barciau Gwledig. Colled incwm amlycaf i'w weld yn Hafan, Pwllheli gyda rhagolygon o ddiffyg o £433k. Cyfuniad o gynnydd nodedig yn niferoedd ymwelwyr i draethau yn dilyn y cyfnod clo a thywydd da sydd yn ymestyn y tymor ym Medi yn golygu fod y rhagolygon diffyg incwm yn is na'r disgwyl.

**Cytundebau Hamdden** - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor, gyda'r canolfannau wedi bod ar gau am ran o'r flwyddyn o ganlyniad i Covid19, rhagwelir leihad un-tro ar gostau rhedeg y canolfannau hamdden eleni.

**Llyfrgelloedd Gwynedd** - nifer o swyddi gwag a lleihad mewn gwariant tra bu llyfrgelloedd ar gau dros y cyfnod clo.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd** - problemau yn parhau yn Storiel gyda rhagolygon o £86k o ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sydd yn gyfuniad o orwariant ar gostau staff a diffyg yn yr incwm. Y gwaith o adnewyddu Neuadd Dwyfor wedi cychwyn ac felly dim modd cynhyrchu incwm eleni, tra fod effaith Covid19 wedi arwain at golled incwm gan Amgueddfa Lloyd George. Cwtogi gwariant wedi arwain at danwariant gan y Celfyddydau.

**CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | | 9,941 | 9,882 | (59) | 0 | (59) | (54) |
| Gwasanaethau Peirianneg | | 383 | 447 | 64 | 0 | 64 | (12) |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | Gwastraff | 11,022 | 11,688 | 666 | 0 | 666 | 851 |
| | Eraill | 3,877 | 4,531 | 654 | 0 | 654 | (238) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2019/20 | | | | | | | (447) |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **25,223** | **26,548** | **1,325** | **0** | **1,325** | **100** |
| *Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19* | | | | | ***(488)*** | ***(488)*** | |
| ***Cyfanswm Addasedig Priffyrdd a Bwrdeistrefol*** | | | | | | ***837*** | |

**Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)**

**Gwasanaethau Priffyrdd** - cyfyngiadau Covid19 yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn yn golygu y bydd cyllideb gweithiau ffyrdd yn tanwario eleni, swyddi gwag a thanwariant ar benawdau amrywiol hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa tanwariant a ragwelir.

**Gwasanaethau Peirianneg** - oediad mewn gwireddu cynllun arbedion, ond trafodaethau'n parhau i geisio datrysiad.

**Gwastraff** - nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant a ragwelir ond y gorwariant yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Er fod yr adran wedi cymryd camau i leihau costau drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu gwastraff, bu oediad mewn gweithredu. Mae'r trefniadau newydd bellach wedi dod i rym yn Nwyfor ac yn fwy diweddar yn Arfon ond llithriad pellach yn amserlen gweithredu'r drefn newydd ym Meirionnydd i Fawrth 2021, felly costau trosiannol cysylltiedig â chostau staffio a salwch eleni.

Y gwasanaeth wedi wynebu costau ychwanegol a cholledion incwm yn deillio o'r Covid19 a gwelwyd hefyd leihad sylweddol yn y prisiau a dderbynnir am werthiant deunyddiau ailgylchu, sydd wedi haneru ers lefelau y llynedd. Y tueddiad o fethiant i wireddu arbedion hefyd yn parhau.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill** - sgil effeithiau Covid19 wedi arwain at golledion incwm gan gynnwys yn y maes gwastraff masnachol wrth i fusnesau fod ar gau dros y cyfnod clo. Gofynion ychwanegol a newidadau i drefniadau gweithio er mwyn cydymffurfio efo rheolau Covid19 ac ymbellhau cymdeithasol yn gost ychwanegol. Methiant i wireddu arbedion hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa.

**CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Amgylchedd** | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 419 | 331 | (88) | 0 | (88) | (58) |
| Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 415 | 563 | 148 | 0 | 148 | 34 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | 0 | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 711 | 565 | (146) | 0 | (146) | (236) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (1,786) | (798) | 988 | 0 | 988 | 116 |
| Cludiant Integredig | 1,685 | 1,978 | 293 | 0 | 293 | (29) |
| | 610 | 1,745 | 1,135 | 0 | 1,135 | (149) |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 654 | 641 | (13) | 0 | (13) | 33 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,604 | 1,602 | (2) | 0 | (2) | (15) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2019/20 | | | | | | 70 |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **3,702** | **4,882** | **1,180** | **0** | **1,180** | **(85)** |
| *Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19* | | | | ***(876)*** | ***(876)*** | |
| ***Cyfanswm Addasedig Amgylchedd*** | | | | | ***304*** | |

## Amgylchedd

**Rheolaeth** - tanwariant cyffredinol ac arbedion ymlaen llaw yr adran wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.

**Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu** - y tueddiad cyffredinol o ddiffyg incwm yn parhau eto eleni sydd yn cael ei leddfu rhywfaint gan danwariant staff a gwariant is ar amrywiol gyllidebau gan gynnwys rhybuddion statudol ac apeliadau.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth**
**Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)** - cyfuniad o swyddi gweigion, tanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys ar weithiau yn y maes Cynllunio Ymlaen ond diffyg incwm ffioedd gwaith stryd.

**Parcio a Gorfodaeth Parcio** - effaith sylweddol cyfyngiadau Covid19 yn gyfrifol am £886k o ddiffyg incwm parcio yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol unig, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi digolledu'r Cyngor am y golled yma. Rhagolygon o ddiffygion incwm pellach ar gyfer gweddill y flwyddyn ond sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau amrywiol.

**Cludiant Integredig** - gorwariant ar gytundebau bysus cyhoeddus, er fod yr adran yn y broses o gynnal adolygiad o gludiant cyhoeddus gyda'r Brifysgol eisoes wedi ei gomisiynu i adolygu'r ddarpariaeth bu oediad o ganlyniad i'r argyfwng Covid19.

**CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| Adran Ymgynghoriaeth | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | (705) | (639) | 66 | 0 | 66 | 29 |
| Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS) | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uned Rheoli Risg Llifogydd | 596 | 596 | 0 | 0 | 0 | (3) |
| Gwasanaeth Adeiladu | (15) | 21 | 36 | 0 | 36 | (52) |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **(122)** | **(20)** | **102** | **0** | **102** | **(26)** |
| *Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19* | | | | ***0*** | ***0*** | |
| ***Cyfanswm Addasedig Ymgynghoriaeth*** | | | | | ***102*** | |

## Ymgynghoriaeth

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg** - incwm misoedd cyntaf y flwyddyn ariannol wedi ei lesteirio oherwydd effaith Covid19, gyda chais i ddigolledu'r golled incwm net o £140k wedi ei wneud i Lywodraeth Cymru, sydd eto i'w gymeradwyo. Y gwasanaeth yn parhau i ymgeisio am waith ac felly denu rhagor o incwm ar amrywiol gynlluniau gan sefydliadau allanol, megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru.

**Gwasanaeth Adeiladu** - diffyg incwm yn cael ei leihau gan wariant is ar wasanaethau a chyflenwadau.

**CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Tai ac Eiddo** | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 381 | 401 | 20 | 0 | 20 | 74 |
| Gwasanaethau Tai | | | 0 | | | |
| Digartrefedd | 1,161 | 1,851 | 690 | 0 | 690 | 251 |
| Tai Sector Breifat | 417 | 387 | (30) | 0 | (30) | (87) |
| Eraill | 355 | 304 | (51) | 0 | (51) | (42) |
| | 1,933 | 2,542 | 609 | 0 | 609 | 122 |
| Gwasanaethau Eiddo | | | | | | |
| Eiddo | 3,158 | 3,146 | (12) | 0 | (12) | (89) |
| Gofalu, Arlwyo a Glanhau | 2 | (21) | (23) | 0 | (23) | (24) |
| | 3,160 | 3,125 | (35) | 0 | (35) | (113) |
| **Cyfanswm Tai ac Eiddo** | **5,474** | **6,068** | **594** | **0** | **594** | **83** |
| *Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19* | | | | ***(237)*** | ***(237)*** | |
| ***Cyfanswm Addasedig Tai ac Eiddo*** | | | | | ***357*** | |

**Tai ac Eiddo**

**Rheolaeth** - Cynllun arbedion sydd eto i'w wireddu sydd bennaf gyfrifol am y gorwariant ond ei fod yn cael ei leihau gan danwariant ar benawdau eraill.

**Gwasanaethau Tai** - yn Digartrefedd pwysau sylweddol ar y gyllideb Llety Dros Dro, gyda chyfran helaeth ohono yn deillio o'r argyfwng i symud y digartref oddi ar y stryd, disgwylir y bydd modd i'r Cyngor gael eu digolledu am y gwariant ychwanegol yma gan Lywodraeth Cymru. Tanwariant ar gostau staff yn Digartrefedd ac yn Tai Sector Breifat a thanwariant yn y maes Sipsiwn a Theithwyr dan Eraill, sydd yn cynorthwyo i leddfu'r gorwariant a adroddir ar gyfer y Gwasanaeth Tai.

**Gwasanaethau Eiddo** - swyddi gwag a secondiadau sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant a ragwelir ynghyd â thanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau.

| **CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adrannau Canolog** | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 1,764 | 1,733 | (31) | 0 | (31) | (50) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 6,649 | 6,564 | (85) | 0 | (85) | (70) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,286 | 7,358 | 72 | 0 | 72 | (100) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **15,699** | **15,655** | **(44)** | **0** | **(44)** | **(220)** |
| *Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19* | | | | | | |
| *Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)* | | | | ***0*** | ***0*** | |
| *Cefnogaeth Gorfforaethol* | | | | ***(21)*** | ***(21)*** | |
| **Cyfanswm Addasedig Adrannau Canolog** | | | | | **(65)** | |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu tanwariant o (£31k), gyda chyfran o'r tanwariant sydd yn deillio o swydd wag y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cael ei ddargyfeirio i gyllido gwell darpariaeth lles yn swyddfeydd y Cyngor. Effaith yr argyfwng wedi arwain at leihad yn yr incwm a dderbynnir gan Cyfreithiol.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant, gan gynnwys tanwariant un-tro oherwydd swyddi gwag, secondiadau a derbyniad incwm mewn nifer o feysydd. Gwelwyd costau ychwanegol gan yr adran yn deillio o'r argyfwng ar yr ochr gweinyddu grantiau busnes ac hefyd yn y maes technoleg gwybodaeth.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - cyfyngiadau Covid19 wedi arwain at golledion incwm sydd yn gyfrifol am y rhagolygon gorwariant o £72k, gan gynnwys colled incwm o £80k yn y maes cofrestru priodasau a £7k cyfweliadau am basportau yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Effaith Covid19 hefyd wedi cael goblygiadau negyddol ar incwm mewnol yr Argraffdy gyda diffyg o £135k yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Tanwariant ar swyddi ac ar wasanaethau a chyflenwadau ar draws yr adran sydd yn cynorthwyo'r sefyllfa.

| CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2019/20 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth Cyngor | * | * | (441) | 441 | 0 | (495) |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | (297) | 297 | 0 | (183) |
| Costau Cyfalaf | * | * | (250) | 250 | 0 | 0 |
| Derbyniad Llog | | | 300 | | 300 | 0 |
| Darpariaeth Gwireddu arbedion Corfforaethol | * | * | (1,644) | | (1,644) | 0 |
| Eraill gan gynnwys Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau | * | * | (689) | 389 | (300) | (334) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2019/20 | | | | | | 1,012 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(3,021)** | **1,377** | **(1,644)** | **0** |
| *Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru nad oes eu hangen gan yr Adrannau* | | | | **(422)** | **(422)** | |
| **Cyfanswm Addasedig Corfforaethol** | | | | | **(2,066)** | |

## Corfforaethol

**Treth Cyngor a Premiwm Treth Cyngor** - yn wyneb yr argyfwng Covid19 ac felly i osgoi caledi ariannol posib, cafodd pob gweithred adennill ar filiau Treth Cyngor heb eu talu eu hatal am gyfnod o 3 mis tan ddechrau Gorffennaf, ar hyn o bryd felly rhagwelwn sefyllfa ffafriol o dreth ychwanegol o (£441k) ar Dreth Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cynllunio i dderbyn £2.7m o Bremiwm Treth y Cyngor yn ystod 2020/21 sydd i'w neilltuo i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.

**Gostyngiadau Treth Cyngor** - rhagwelir tanwariant o (£297k) yn dilyn tueddiad o ostyngiad blynyddol yn niferoedd ceisiadau y cynllun Gostyngiad Treth Cyngor (Budd-daliadau) dros y bedair blynedd ddiwethaf, gyda ffigyrau 2019/20 ar eu lefelau isaf ar hyd cynghorau gogledd a chanolbarth Cymru, yn dilyn yr argyfwng Covid19, bu cynnydd o 4% yn niferoedd chwarter cyntaf 2020/21 yng Ngwynedd.

**Costau Cyfalaf -** polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu gellid osgoi benthyca allanol sydd yn creu tanwariant yn erbyn y gyllideb costau cyfalaf. Awgrymir y dylid dargyfeirio'r tanwariant i gronfa i ddefnyddio i'r gynorthwyo gydag ariannu'r rhaglen gyfalaf

**Derbyniad Llog** - yn dilyn ardrawiad Covid19 ar y marchnadoedd arian, rhagwelir leihad yn y derbyniad llog disgwyliedig.

**Darpariaeth Gwireddu Arbedion Corfforaethol** - yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, darpariaeth gorfforaethol wedi ei wneud i'r pwrpas sydd ar gael i'w ddyrannu'n briodol.

**Eraill gan gynnwys Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau** - dychwelyd rhan o fid yn dilyn derbyniad grant, arbedion un-tro corfforaethol eu natur a phwysau ar draws nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd ac felly'n tanwario eleni.

**Argymhellir** fod (£250k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf, gyda'r gweddill y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, sef (£1,127k) yn mynd i falansau'r Cyngor i gynorthwyo i wynebu'r her ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor yn arbennig felly yn sgil argyfwng Covid19.

**Grant gan y Llywodraeth yn Sgil Argyfwng COVID19**

| | | Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru | | | | | | | Saib Swyddi (Furlough) | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Digolledu Gwariant Ychwanegol | | | Digolledu Colled Incwm | | | | Cyfraniad at Gyflogau | | | |
| **Mis** | **Cais** | **Gwerth y Cais** | **Grant Wedi Dderbyn** | **Cais** | **Gwerth y Cais** | ***Amcan Gwerth y Cais*** | **Grant Wedi Dderbyn** | **Cais** | **Gwerth y Cais** | | **Grant Wedi Dderbyn** | |
| | | | | | | | | | **Byw'n Iach** | **Gweddill y Cyngor** | **Byw'n Iach** | **Gweddill y Cyngor** |
| | | **£** | **£** | | **£** | **£** | **£** | | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Mawrth | 1 | 20,240 | 20,240 | 1 | 3,675,000 | | 3,271,000 | 1 | 133,138 | 4,930 | 133,138 | 4,930 |
| Ebrill | 2 | 508,160 | 425,230 | | | | | 2 | | 12,280 | | 12,280 |
| Mai | 3 | 903,950 | 886,570 | | | | | 3 | 119,329 | 30,800 | 119,329 | 30,800 |
| Mehefin | 4 | 1,117,880 | 1,068,490 | | | | | 4 | 124,191 | 31,670 | 124,191 | 31,670 |
| Gorffennaf | 5 | 1,170,880 | 1,164,640 | | | | | 5 | 128,011 | 25,770 | 128,011 | 25,770 |
| Awst | 6 | 829,560 | | 2 | | *2,096,000* | | | | | | |
| Medi | | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | | **4,550,670** | **3,565,170** | | **3,675,000** | ***2,096,000*** | **3,271,000** | | **504,669** | **105,450** | **504,669** | **105,450** |

**Trosgolwg o'r Holl Geisiadau:**

| | **Gwerth y Cais £** | **Grant Wedi Dderbyn £** |
|---|---|---|
| **CYFANSWM** | **8,835,789** | **7,446,289** |
| Elfen Byw'n Iach | 1,158,279 | 1,158,279 |
| **Gweddill y Cyngor** | **7,677,510** | **6,288,010** |

*Noder: Mae'r swm a nodir yn Atodiad 1 yn cynnwys colled incwm a gwariant ychwanegol adrannol eu natur, gyda symiau ar faterion corfforaethol a chynlluniau penodol (er enghraifft cynllun Saib Swyddi a chinio ysgol am ddim) eisoes wedi eu dyrannu i'r adrannau perthnasol.*

**ADRODDIAD I'R CABINET**
13 HYDREF 2020

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2020/21 –
Adolygiad Diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2020)

**Swyddog Cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

**Penderfyniad a geisir**

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2020) o'r rhaglen gyfalaf.

- Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
  - defnydd o amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau gwerth cyfanswm o £3,646,000 o 2019/20,
  - lleihad o £558,000 mewn defnydd o fenthyca,
  - cynnydd o £7,105,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
  - dim newid mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
  - cynnydd o £53,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
  - dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
  - cynnydd o £283,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

---

## 1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2020/21. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3**:** Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £100.326m am y 3 blynedd 2020/21 – 2022/23.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £10.529m ers y gyllideb agoriadol, gyda £3.646m o'r cynnydd oherwydd llithriadau o 2019/20 (adroddwyd eisoes fel rhan o'r adolygiad diwedd blwyddyn ar 16 Mehefin 2020).

Rhan 5: Manylder grantiau ychwanegol ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol.

Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth.

## 2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £44.0m yn 2020/21 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £17.1m (39%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Mae effaith argyfwng Covid19 a'r cyfnod clo ar y rhaglen gyfalaf i'w weld yn y ffigyrau a adroddir yn Atodiad C, gyda dim ond 13% o'r gyllideb sydd wedi ei wario hyd at ddiwedd Awst eleni o'i gymharu â 19% dros yr un cyfnod y llynedd.

- Mae £9.4m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2020/21 i 2021/22 a 2022/23, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2020/21 i 2022/23

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Awst 2020.

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL | ADDASIAD LLITHRIAD | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | CYFANSWM | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 10,248 | 13,631 | 4,632 | 28,511 | 2,107 | (13) | 2,120 |
| Amgylchedd | 3,668 | 1,009 | 199 | 4,876 | 1,448 | (82) | 1,530 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 119 | - | - | 119 | - | - | - |
| Cyllid | 458 | 1,237 | 768 | 2,463 | (23) | (23) | - |
| Economi a Chymuned | 2,178 | 609 | 245 | 3,032 | 531 | 279 | 252 |
| Tai ac Eiddo | 11,147 | 9,016 | 5,052 | 25,215 | 3,441 | 1,447 | 1,994 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 2,648 | 3,263 | 1,450 | 7,361 | 234 | (130) | 364 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,367 | 250 | 250 | 1,867 | 579 | 539 | 40 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 9,477 | 2,313 | 4,765 | 16,555 | 2,730 | 2,619 | 111 |
| Ymgynghoriaeth | 1,186 | 6,336 | 287 | 7,809 | 573 | 101 | 472 |
| Corfforaethol | 1,518 | 500 | 500 | 2,518 | (1,091) | (1,091) | - |
| **CYFANSWM** | **44,014** | **38,164** | **18,148** | **100,326** | **10,529** | **3,646** | **6,883** |

## 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £10.529m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb wreiddiol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL | ADDASIAD LLITHRIAD | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | CYFANSWM | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 8,116 | 6,610 | 6,610 | 21,336 | - | - | - |
| Benthyca Arall | 1,123 | 4,948 | 11 | 6,082 | 105 | 663 | (558) |
| Grantiau a Chyfraniadau | 17,128 | 8,765 | 3,277 | 29,170 | 7,634 | 529 | 7,105 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 677 | 165 | 13 | 855 | 27 | 27 | - |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 1,760 | 278 | - | 2,038 | 56 | 3 | 53 |
| Cronfa Cyfalaf | 562 | 4,935 | - | 5,497 | 1,439 | 1,439 | - |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 14,648 | 12,463 | 8,237 | 35,348 | 1,268 | 985 | 283 |
| **CYFANSWM** | **44,014** | **38,164** | **18,148** | **100,326** | **10,529** | **3,646** | **6,883** |

## 5. Grantiau Ychwanegol

Ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol, ddiwedd Mawrth, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £7,503k. Mae nifer o addasiadau gan gynnwys lleihad o £398k ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £7,105k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £2,251k Grant Digartrefedd Gwedd II gan Lywodraeth Cymru
- £2,118k Grant Ysgolion Ganrif 21 – Cynlluniau Cyflwr ac Addasrwydd
- £1,310k Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a'r Gronfa Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru
- £1,032k Grant Llywodraeth Cymru tuag at Gynlluniau Atal Llifogydd
- £230k Grant Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau oedolion
- £165k Grant Galluogi, maes tai, gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol
- £106k Grant Gwella Mynediad gan Lywodraeth Cymru
- £70k Grant Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (MALD) i ddatblygu Neuadd Dwyfor
- £68k Grant Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru tuag at ddatblygiadau amgylcheddol
- £53k Grant Capasiti Ymchwydd (Covid) i gynorthwyo datblygiadau

sefydliadau gofal oedolion

- £40k — Grantiau Llywodraeth Cymru i'r maes Gofal Plant - Cychwyn Cadarn, Dechrau'n Deg a Gofal Plant
- £39k — Grant Cyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynllun Llwybr yr Arfordir
- £21k — Cyfraniad o'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF) tuag at gynllun Ad-leoli Segontiwm

## 6. Argymhellion

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2020/21 i 2022/23, a**
- **cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).**

## 7. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2020/21 – 2022/23.

## 8. Ystyriaethau Perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 9. Camau Nesaf ac Amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn  berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**:
- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2020/21 i 2021/22
- Atodiad C: Gwariant 5 mis cyntaf 2020/21

----------------------------

**ATODIAD A**

**Manylion y Prif Newididau**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

| | **2020/21**<br><br>**£'000** | **2021/22-2022/23**<br>**£'000** |
|---|---|---|
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Grant Ysgolion Ganrif 21 – Cynlluniau Cyflwr ac Addasrwydd *(Adran Addysg).* | 579 | 1,539 |
| • Lleihau'r defnydd o grant Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) i ariannu Cynllun Adnewyddu Bangor *(Adran Economi a Chymuned).* | (388) | |
| • Grant Is-Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (MALD) i ddatblygu Neuadd Dwyfor *(Adran Economi a Chymuned).* | 70 | |
| • Grantiau Llywodraeth Cymru i'r maes Gofal Plant – Cychwyn Cadarn, Dechrau'n Deg a Gofal Plant - ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Plant a Theuluoedd).* | 40 | |
| • Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) - grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau i ddarparu gwelyau dementia ac arbenigol yn ogystal â hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 230 | |
| • Cyfraniad o'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF) tuag at gynllun Ad-leoli Segontiwm *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 21 | |
| • Grant Capasiti Ymchwydd (Covid) i gynorthwyo datblygiadau cartrefi preswyl a cyfleusterau gofal dydd *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 53 | |
| • Grant Llywodraeth Cymru tuag at Gynlluniau Atal Llifogydd - grantiau yn cymryd lle elfen o'r ariannu Menter Benthyca Llywodraeth Leol (LGBI) *(Adran Ymgynghoriaeth).* | 1,032 | |
| • Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol a'r Gronfa Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 1,310 | |

| | | |
|---|---|---|
| • Grant Cyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynllun Llwybr yr Arfordir *(Adran Amgylchedd).* | 39 | |
| • Grant Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru tuag at ddatblygiadau amgylcheddol *(Adran Amgylchedd).* | 68 | |
| • Grant Gwella Mynediad gan Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwella a hyrwyddo hawliau mynediad i dir a mannau gwyrdd *(Adran Amgylchedd).* | 106 | |
| • Grant Galluogi, maes tai, gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol *(Adran Tai ac Eiddo).* | 165 | |
| • Grant Digartrefedd Gwedd II gan Lywodraeth Cymru - nifer o gynlluniau ar draws y Sir *(Adran Tai ac Eiddo).* | 2,251 | |
| **Benthyciadau Arall** | | |
| • Angen llai o gefnogaeth Menter Benthyca Llywodraeth Leol i ariannu cynlluniau Atal Llifogydd oherwydd elfennau bellach yn cael eu hariannu trwy grant *(Adran Ymgynghoriaeth).* | (558) | |
| **Refeniw Adrannol** | | |
| • Ariannu ychwanegol o refeniw tuag at nifer o fan gynlluniau *(Amrywiol Adrannau).* | 53 | |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | | |
| • Cynllun o'r Gronfa Trawsffurfio i ddatblygu Neuadd Dwyfor *(Adran Economi a Chymuned).* | 570 | |
| • *Gwaith Uwchraddio Depos a Tanciau Tanwydd (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 60 | |
| • Adnewyddu Cerbydau nifer o Unedau Priffyrdd a Bwrdeistrefol *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 24 | |
| • Cynlluniau yn y maes Rheoli Gwastraff gan gynnwys sgipiau a cartgylchu *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 55 | |
| • Elfen refeniw sydd wedi ei adnabod fel rhan o'r Strategaeth Tai i'w dynnu allan o'r Rhaglen Gyfalaf a'i roi yn erbyn y gyllideb refeniw bellach *(Adran Tai ac Eiddo).* | (126) | (302) |

---------------------------

**Manylion Ail-broffilio**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | **2020/21 £'000** | **2021/22 £'000** |
|---|---|---|
| Cynlluniau Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (1,579) | 1,579 |
| Adfywio Tref a Glannau Caernarfon *(Adran Economi a Chymuned)* | (174) | 174 |
| Cynlluniau Morwrol a Pharciau Gwledig *(Adran Economi a Chymuned)* | (135) | 135 |
| Cynlluniau Sefydliadau Preswyl Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (294) | 294 |
| Cynlluniau Sefydliadau Gofal Dydd Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (569) | 569 |
| Pont Cadfan, Tywyn *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)* | (102) | 102 |
| Adnewyddu Cerbydau *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)* | 140 | (140) |
| Cynlluniau Atal Llifogydd *(Adran Ymgynghoriaeth)* | (1,178) | 1,178 |
| Cei Aberdyfi *(Adran Ymgynghoriaeth)* | (1,748) | 1,748 |
| Cynlluniau Trafnidiaeth *(Adran Amgylchedd)* | (353) | 353 |
| Ail-wynebu Meysydd Parcio *(Adran Amgylchedd)* | (219) | 219 |
| Pwyntiau Gwefru Cerbydau *(Adran Amgylchedd)* | (198) | 198 |
| Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd *(Adran Amgylchedd)* | (72) | 72 |
| Cynlluniau Addasiadau Swyddfeydd *(Adran Tai ac Eiddo)* | (153) | 153 |
| Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo)* | (1,167) | 1,167 |
| Cynllun Gwaredu Asbestos *(Adran Tai ac Eiddo)* | (580) | 580 |
| Cynlluniau Ysgogi'r Economi *(Adran Tai ac Eiddo)* | (925) | 925 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

**ATODIAD C**

**Gwariant Cyfalaf 5 Mis Cyntaf 2020/21**

| CRYNODEB | RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Awst) 2020/21 £'000 | GWIR WARIANT 5 MIS HYD AT 31/08/2020 £'000 |
|---|---:|---:|
| Addysg | 10,248 | 1,583 |
| Amgylchedd | 3,668 | 217 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 119 | 5 |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 458 | 94 |
| Economi a Chymuned | 2,178 | 238 |
| Tai ac Eiddo | 11,147 | 1,312 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 2,648 | 466 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,367 | 256 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 9,477 | 1,109 |
| Ymgynghoriaeth | 1,186 | 255 |
| Corfforaethol | 1,518 | - |
| **CYFANSWM** | **44,014** | **5,535** |

**Noder:**
Mae’r gyfran sydd wedi’i wario eleni (13%) yn is na’r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis 2019/20 yn 19%).

CYFARFOD: **CABINET**

DYDDIAD: **13 HYDREF 2020**

TEITL: **STRATEGAETH CYLLIDEB 2021/22**

PWRPAS: **CYNLLUNIO ARIANNOL**

AWDUR: **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

AELOD CABINET: **CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID**

---

**Penderfyniad a geisir:**

> **Cymeradwyo trefn ac amserlen llunio Cyllideb 2021/22, tra'n nodi fod cynllunio ariannol yn hynod heriol, ac felly os bydd bwlch cyllido i fantoli cyllideb 2021/22, bydd y Cyngor yn defnyddio cyllidebau a cronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau yn y tymor byr.**

---

**Cefndir**

**1.** Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o drefn flynyddol llunio cyllideb am y flwyddyn 2021/22, yn y cyd-destun anghyffredin eleni.

**Gwariant y Cyngor**

**2.** Mae cyfrifwyr y Cyngor wrthi'n gwneud y gwaith paratoi'r gyllideb o ran anghenion gwario 2021/22, drwy amcangyfrif effaith cytundebau tâl, chwyddiant arall, addasu cyfraniadau pensiwn ac ymrwymiadau gwario eraill.

**3.** Yn anochel, bydd gwasanaethau'r Cyngor yn cyflwyno sawl cais am adnoddau ychwanegol yn wyneb pwysau anorfod, a bydd y Tîm Rheoli Corfforaethol ac aelodau'r Cabinet yn asesu'r 'bidiau' yma dros y misoedd nesaf.

**Grant Llywodraeth**

**4.** Ochr arall y geiniog yw'r adnoddau grant fydd ar gael i'r Cyngor er mwyn ariannu'r ymrwymiadau yma. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi eu bwriad i gyhoeddi eu **setliad drafft 2021/22 ar gyfer awdurdodau lleol ar 15 Rhagfyr 2020** ( ar ôl cyhoeddi eu Cyllideb Ddrafft 2021-22 nhw eu hunain ar 8 Rhagfyr 2020) a'r **setliad terfynol ar gyfer awdurdodau lleol ar 3 Mawrth 2021** (ar ôl cyhoeddi eu Cyllideb derfynol ar 2 Mawrth 2021). Gall y dyddiadau hyn newid os bydd Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr Llywodraeth y DU yn cael ei ohirio, ac mae Trysorlys EM wedi cadarnhau yn ddiweddar "na fydd Cyllideb yr hydref hwn" er mwyn canolbwyntio ar "gynllun economi gaeaf" i "amddiffyn swyddi" wrth i Brydain fynd i mewn i gyfnod newydd o'r pandemig.

**5.** Bydd yr amserlen yma'n heriol i awdurdodau lleol, gyda chyfnod estynedig o ansicrwydd ariannol yn sgil cost annisgwyl yr argyfwng Covid-19, ond bydd Cyngor Gwynedd yn cychwyn o sylfaen gyllidol gymharol gadarn.

**6.** Bydd aelodau a swyddogion yn gwneud gwaith pellach dros y misoedd nesaf er mwyn cwrdd â'r amserlen i baratoi cynnig cyllidebol i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 4 Mawrth 2021.

**Ansicrwydd Ariannol**

**7.** Ar hyn o bryd mae yna lawer iawn o ragdybiaethau a diffyg gwybodaeth, tra bod y cyflwr ariannol ac economaidd yn newid yn barhaus, ynghyd ag ymatebion y Llywodraeth. Wrth gynllunio cyllideb 2021/22 y Cyngor, rydym yn gwynebu ansicrwydd ariannol digynsail, yn cynnwys:

i. Effaith pandemig Covid-19 ar wariant, incwm, cynlluniau cynilo, a chyflymder yr adferiad.

ii. Ehangder cefnogaeth y Llywodraeth i osod yn erbyn cost ariannol y pandemig i'r Cyngor (bydd cyllid ychwanegol gan y Llywodraeth yn lliniaru costau ychwanegol yn rhannol, colledion incwm ac o bosib diffygion refeniw o ganlyniad i'r pandemig a'r dirwasgiad yn 2020/21, ond ni fydd yn lliniaru cynigion arbedion na ellir ei gyflawni, ac nid yw cyllid ychwanegol 'Covid' wedi ei adnabod ar gyfer 2021/22).

iii. Y dirwasgiad disgwyliedig byd-eang wrth i ni ddod allan o gloi i lawr a diwedd y cyfnod pontio Brexit.

iv. Mae ardrawiad economaidd ac ariannol Brexit yn parhau i fod yn aneglur ac efallai y bydd angen cynnwys unrhyw bwysau cost i'r Cyngor o fewn cyllidebau presennol.

v. Tueddiad fod prisiau wedi cynyddu yn ddiweddar, ond fod hynny wedi'i atal gan bandemig Covid-19.

vi. Tueddiad o godiadau cyflog blynyddol uwch.

vii. Oedi tebygol gyda'r Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr roedd i fod i gymryd lle yn 2020, a dim arwydd o lefel cyllido craidd / grant erbyn 2021/22 a thu hwnt.

viii. Diffyg yn y pŵl cenedlaethol trethi busnes, sydd i'w ddosbarthu i awdurdodau lleol yn 2021/22.

ix. Derbyniodd y Cyngor setliad grant mwy ffafriol am 2020/21, na mewn blynyddoedd blaenorol.

x. Bydd etholiad Senedd Cymru ym mis Mai 2021.

xi. Cynigion heb eu cadarnhau gan y Llywodraeth ar gyfer cyllid hir-dymor cynaliadwy ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion.

xii. Dim cadarnhad o gyllid ychwanegol ar gyfer beichiau newydd a phwysau galw eraill gan gynnwys gofal cymdeithasol, digartrefedd a mwy o hawliadau am Ostyngiadau Treth Cyngor.

**Casgliad**

**8.** O ganlyniad, **mae cynllunio ariannol yn hynod heriol**, gydag ystod o senarios posib yn awgrymu bwlch cyllido ar gyfer 2021/22 a allai fod unrhyw swm hyd at £8m (gan dybio bod rhai o'r risgiau a restrir uchod yn anghydnaws â'i gilydd), gyda'r ystod o ganlyniadau posibl yn cynyddu'n eang y tu hwnt i 2021/22. **Wrth gynllunio ar gyfer 2021/22, os bydd bwlch cyllido fe ddylai sylfaen gyllidol gymharol gadarn Cyngor Gwynedd ganiatáu i ni 'bontio' yn y tymor byr.**

**Argymhelliad**

**9.** Deallwn, wrth gwrs, bydd y Cyngor awydd osgoi ystyriaeth dwys a diangen o restrau arbedion a thoriadau gwasanaeth dichonol yn ystod ail don tebygol o'r pandemig Covid-19. Felly, **os bydd bwlch cyllido i fantoli cyllideb 2021/22, argymhellir i'r Cyngor ystyried defnyddio cyllidebau a cronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau**, ynghyd â'r angen i'r dreth Cyngor gynyddu (rhagdybiaeth 3.5%, fel rhagdybiwyd eisoes mewn cynlluniau cyllideb tymor canolig blaenorol).

**Camau i'r Dyfodol**

**10.** Mae'n hynod fuddiol ein bod yn gallu defnyddio cronfeydd wrth gefn i liniaru pwysau cyllidebol nawr, mewn argyfwng cenedlaethol. Yn y tymor hwy, bydd angen ailgyflenwi cronfeydd wrth gefn y Cyngor, fel eu bod ar gael pan fydd eu hangen yn y dyfodol.

**11.** Pan fydd y Cyngor yn wynebu llai o ansicrwydd ariannol, yn ystod 2021, bydd y Swyddog Cyllid Statudol a'r Aelod Cabinet dros Gyllid yn sefydlu cynlluniau cyllideb tymor canolig, gan adolygu unrhyw benderfyniadau a gymerwyd yn flaenorol.

**12.** Bydd y Cabinet yn derbyn adroddiadau pellach ym mis Rhagfyr 2020 ac ym mis Chwefror 2021, fel mae gwybodaeth ariannu pellach ar gael ac fel mae cynlluniau cyllido ar gyfer 2021/22 yn datblygu.

**13.** Yn Ionawr, bydd aelodau'r Cabinet yn ystyried ymrwymiadau gwario anorfod y Cyngor yng nghyd-destun y setliad grant drafft, cyn bydd yr Aelod Cabinet Cyllid a'r Pennaeth Cyllid yn ymgynghori gyda holl Aelodau'r Cyngor mewn cyfres o seminarau rhithiol.

**14.** Gweler amserlen cyllideb y Cyngor yn **Atodiad A**.

**15.** Byddwn yn ymlynu at yr amserlen flynyddol arferol o adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (11 Chwefror, i gynnig sylwadau ar risgiau ariannol), y Cabinet (16 Chwefror, i argymell cyllideb a threth), a'r Cyngor llawn (4 Mawrth, i osod y gyllideb a'r Dreth Cyngor, sydd rhaid ei osod erbyn 11 Mawrth).

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Amlygir sefyllfa ansicr a heriol o ran cynllunio cyllideb ar gyfer 2020/21. Mae cyfres o ddyddiau statudol yn ynghlwm a gosod y gyllideb. Mae'n briodol adrodd ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer y mabwysiadu cyllideb 2020/21 gan fod yr amserlen a ragwelir ac fel y nodir yn yr adroddiad a'r potensial i gael ardrawiad ar amserlenni cyfansoddiadol y Cyngor. Mae'n synhwyrol i gadw'r sefyllfa ym dan adolygiad.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**ATODIAD A**

# AMSERLEN CYLLIDEB 2021/22

| | |
|---|---|
| **2020** | |
| 8 Rhagfyr | Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru |
| 15 Rhagfyr | Setliad Amodol Llywodraeth Cymru i'r awdurdodau lleol - ystyried yr ymhlygiadau i'r Cyngor |
| **2021** | |
| 19 Ionawr | Cyfarfod ffurfiol o'r Cabinet – ystyried ymhlygiadau'r Setliad ar Gyllideb y Cyngor |
| ?? Ionawr | Seminar Rhithiol ar y Gyllideb i'r Aelodau |
| ?? Ionawr | Seminar Rhithiol ar y Gyllideb i'r Aelodau |
| ?? Ionawr | Seminar Rhithiol ar y Gyllideb i'r Aelodau |
| ?? Ionawr | Seminar Rhithiol ar y Gyllideb i'r Aelodau |
| 11 Chwefror | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu - craffu'r gyllideb ddrafft ac ystyried risgiau perthnasol |
| 16 Chwefror | Cyfarfod ffurfiol o'r Cabinet –ystyried y strategaeth ariannol ac argymell cyllideb i'r Cyngor llawn |
| 2 Mawrth | Cyllideb terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 |
| 3 Mawrth | Setliad terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol |
| 4 Mawrth | Cyfarfod y Cyngor llawn - gosod cyllideb a treth 2021/22 |